cronfa
dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

# Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth
i ben 31 Mawrth 2016

# Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

Cyflwynir yr adroddiad i'r Senedd yn unol ag adran 34(3) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006), a chyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag adran 35(5) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993.

**Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 18 Gorffennaf 2016**
**Cyflwynwyd gan Weinidogion yr Alban gerbron Senedd yr Alban 18 Gorffennaf 2016**
**Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon 18 Gorffennaf 2016**
**Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru 19 Medi 2016**

HC 228
SG/2016/77

**© Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2016**
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol neu logos asiantaeth eraill, lle bônt yn bresennol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a nodi teitl y ddogfen. Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn National Heritage Memorial Fund, 7 Holbein Place, London SW1W 8NR.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o https://www.gov.uk/government/publications

Argraffedig ISBN 9781474128315
Ar y we ISBN 9781474128322

ID 12021605 07/16

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu** | **2** |
| Adroddiad Perfformiad | 2 |
| Adroddiad Atebolrwydd | 13 |
| Y Datganiadau Ariannol | 32 |
| **Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti** | **33** |
| **Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol** | **34** |
| **Datganiad Llifoedd Arian** | **35** |
| **Cysoni Llifoedd Arian Net i Symudiad mewn Cronfeydd Net** | **35** |
| **Nodiadau i'r Cyfrifon** | **36** |
| **Cyfarwyddiadau Polisi** | **61** |
| Cyfarwyddiadau polisi yng Nghymru | 69 |
| Cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â'r Alban | 70 |
| **Cynnydd ar Brosiectau Dros £5miliwn** | **72** |
| **Monitro Cyflogaeth** | **80** |

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## Adroddiad Perfformiad

### Trosolwg

#### Ein perfformiad yn 2015–16 – datganiad gan y Prif Weithredwr Dros Dro

Roedd 2015–16 yn flwyddyn heriol iawn i ni o ran ein rôl fel dosbarthwyr grant y Gronfa Loteri. Mae'r ffaith ein bod ni wedi llwyddo i gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol a osodwyd gennym ar ddechrau'r flwyddyn yn dangos ymrwymiad y timau sy'n gweithio ar ochr Cronfa Loteri ein busnes, ynghyd ag arweinyddiaeth y Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Rheoli.

O ran ein gwaith ar y Gronfa Loteri, cynhaliom adolygiad o'n Fframwaith Strategol ar gyfer 2013–18 yn ystod y flwyddyn a chadarnhau bod y dull a fabwysiadwyd gennym ar ddechrau'r cyfnod hwn yn parhau i fod yn ddilys ac yn gallu addasu i amgylchiadau newidiol y sector treftadaeth. Gyda hyn mewn golwg, penderfynodd y Bwrdd ymestyn hyd y fframwaith hwn ymhellach i 2019.

O ystyried gofynion newidiol y sector, cytunodd y Bwrdd i gyflwyno rhaglen Treftadaeth Gydnerth newydd er mwyn cynorthwyo sefydliadau treftadaeth i gynyddu capasiti a gallu. Bydd rhaglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol ychwanegol a rhaglen Pobl Ifanc newydd yn cael eu lansio yn 2017–18 hefyd.

Yn 2015–16, lansiwyd y Papur Gwyn Diwylliant – y cyntaf ers dros hanner can mlynedd. Gwnaethom weithio ar y cyd â'n hadran noddi a dosbarthwyr eraill arian y loteri i gyfrannu at y Papur Gwyn, ac roeddem yn falch o weld treftadaeth yn cael ei chydnabod yng nghyd-destun ehangach diwylliant.

Byddwn yn parhau i gydweithio â'r adran wrth i'r gwaith o'r Papur Gwyn ddechrau ffurfio mewn meysydd fel profi cyllido torfol fel dewis ar gyfer codi arian, y fenter Lle Gwych ac adolygiadau o gyllido eglwysi ac amgueddfeydd.

O ran ein gwaith Loteri, rydym yn parhau i weld lefelau eithriadol o uchel o geisiadau ac mae gennym fwy o brosiectau ar y gweill nag erioed o'r blaen. Er ein bod wedi darparu adnoddau ychwanegol, cydnabyddwn risgiau'r llwythi gwaith ychwanegol hyn ar ymgeiswyr/grantïon a'r Gronfa ei hun. Byddwn yn comisiynu Adolygiad o Brosesau Busnes yn 2016–17 i fynd i'r afael â goblygiadau'r llwythi gwaith hyn a'r newidiadau polisi sy'n dod i'r amlwg.

Yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn, gwnaethom ffarwelio â Carole Souter fel ein Prif Weithredwr. Mae'r Gronfa'n ddyledus iawn iddi am ei harweinyddiaeth sicr a medrus yn ystod tair blynedd ar ddeg a byddwn yn colli ei hymroddiad personol a phroffesiynol i dreftadaeth. Ym mis Gorffennaf 2016, edrychwn ymlaen at groesawu ein Prif Weithredwr newydd, sef Ros Kerslake, a fydd yn cyfrannu ei sgiliau ei hun o'r sectorau treftadaeth a masnachol, ac edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gyda hi.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl staff sy'n ymwneud â gweithgareddau Cronfa'r Loteri – maen nhw'n gweithio'n eithriadol o galed, yn wirioneddol ymroddedig i nodau'r Gronfa ac yn darparu gwasanaeth gwych i dreftadaeth y genedl, sy'n mynd yn ddi-glod yn rhy aml.

#### Ein diben a'n gweithgareddau

Caiff Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG neu 'y Gronfa') ei breinio a'i gweinyddu gan gorfforaeth o'r enw Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sy'n cynnwys Cadeirydd ac nid mwy na 14 o aelodau eraill a benodwyd gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 ('Deddf 1980') mewn olyniaeth i'r Gronfa Dir Genedlaethol fel coffâd i'r rheiny sydd wedi rhoi eu bywydau ar gyfer y Deyrnas Unedig. Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan y llywodraeth i'w galluogi i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 ('Deddf 1993'), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 ('Deddf 1997') a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998.

O dan Ddeddf 1993, daeth CGDG yn gyfrifol hefyd am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a glustnodir i'r dreftadaeth. Rhaid i CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer ei gweithrediad yn ddosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol. Mae Ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) ar gyfer derbyniadau o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

O dan adran 21(1) Deddf 1993, cynhelir cronfa a elwir yn Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) o dan reolaeth a goruchwyliaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Caiff pob swm a geir gan ddaliwr trwydded y Loteri Genedlaethol o dan adran 5(6) ei dalu i'r Ysgrifennydd Gwladol a'i roi ganddo neu ganddi yn CDdLG. Mae CGDG yn ymgeisio i CDdLG am gyllid i fodloni ei rhwymedigaethau am dalu grantiau'r Loteri a chostau gweinyddu.

O dan adran 22 Deddf 1993, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dyrannu 20% o'r swm a delir i mewn i CDdLG ar gyfer gwariant ar y dreftadaeth genedlaethol, neu wariant sy'n gysylltiedig â hi. Mae Adran 23(3) yn sefydlu mai Ymddiriedolwyr CGDG yw dosbarthwyr y gyfran honno. Lleihawyd y dyraniad canrannol i 162/3% ym mis Hydref 1997 ar ôl i'r Llywodraeth greu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Fe'i cynyddwyd yn ôl i 20% o 1 Ebrill 2012, ar ôl bod ar 18% drwy gydol 2011–12.

Paratowyd y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd Trysorlys EM yn unol ag adran 35(3) Deddf 1993.

O dan adrannau 3 a 3a Deddf 1980, gall CGDG wneud grantiau a benthyciadau at ddiben caffael, cynnal neu ddiogelu:

a) unrhyw dir, adeilad neu strwythur sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archaeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol;

b) unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol;

c) unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sy'n gasgliad neu grŵp sydd yn ei gyfanrwydd o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy.

Mae Adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd ar ôl hynny) yn ymestyn pwerau'r Ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a gynllunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1997, gall yr Ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo hefyd â phrosiectau sy'n anelu at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac anelu at ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Rhoddodd Deddf 1998 y pŵer i'r Ymddiriedolwyr ddyfarnu grantiau refeniw i ehangu mynediad i'r dreftadaeth ac i ddirprwyo penderfyniadau am grantiau Loteri i staff a hefyd i bwyllgorau sy'n cynnwys rhai aelodau nad ydynt yn Ymddiriedolwyr.

Gan ddefnyddio arian a godir drwy chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae CDL yn rhoi grantiau i gynnal a thrawsnewid ein treftadaeth, gan wneud gwahaniaeth parhaol i dreftadaeth, pobl a chymunedau:

- Yn ystod yr 21 mlynedd diwethaf, mae'r cyhoedd, rhanddeiliaid a llywodraethau olynol wedi ymddiried ynom i ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol yn ddoeth, gan gefnogi prosiectau treftadaeth llwyddiannus ar draws y Deyrnas Unedig.
- Rydym ni'n brofiadol o ran rhoi grantiau ac yn gweithio i sicrhau bod ein cyllid yn cyflawni canlyniadau gwych. Rydym yn annibynnol, yn ystyriol ac yn canolbwyntio ar ansawdd.

- Rydym wedi datblygu'r perthnasoedd a'r sgiliau i weithio gydag eraill i wella treftadaeth ac ansawdd bywyd ar draws y Deyrnas Unedig.
- Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae ein buddsoddiad wedi cael effaith enfawr ar dreftadaeth y genedl, gan ei thrawsnewid ar gyfer pobl a chymunedau. Gydag oddeutu £434miliwn ar gael i'w ddosbarthu yn 2016–17, bydd CDL yn un o'r ffynonellau cyllid pwysicaf ac yn parhau i wneud buddsoddiadau sy'n datgloi potensial enfawr treftadaeth y Deyrnas Unedig.

### Ein materion a risgiau allweddol

Mae Cronfa'r Loteri wedi wynebu nifer o risgiau arwyddocaol yn ystod y flwyddyn ac rydym wedi rheoli'r rhain yn weithredol er mwyn lleihau'r effaith gymaint â phosibl ar ymgeiswyr/grantïon a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â'r sefydliad ei hun.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y risgiau a wynebir gan y sefydliad yn eu cyfarfodydd Bwrdd a thrwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Caiff cofrestr flynyddol ei chreu o'r risgiau lefel uchaf, a adolygir yn rheolaidd. Rhoddir manylion yn y Datganiad Llywodraethu isod.

Roedd y prif risgiau'n canolbwyntio ar y peryglon i'n buddsoddiad loteri blaenorol o ganlyniad i newidiadau yn y sector treftadaeth o ran cyllid, perchenogaeth a chynnal asedau, capasiti a gallu sefydliadol a modelau busnes sy'n newid. Risg gymhleth yw hon ar draws rannau amrywiol y Deyrnas Unedig ac mae'n dod i'r amlwg mewn ffyrdd gwahanol ac ar adegau gwahanol ar draws y wlad. Mae ein timau gweithredol yn effro i newidiadau mewn prosiectau presennol a blaenorol, ac, yn aml, y ffordd orau o helpu i ddod o hyd i ateb yw adnabod problemau a'u trafod gyda derbynyddion grantiau yn gynnar. Adfachu grantiau yw'r dewis olaf fel arfer, ond cadwn yr hawl i ddiogelu buddsoddiad blaenorol a'r cronfeydd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Mae effeithiau parhaus setliadau datganoli ar draws rhannau o'r Deyrnas Unedig hefyd yn cyflwyno risg i ni o ran modelau cyllid, busnes a gweithredu. Parhawn i fonitro datblygiadau'n ofalus a rheoli goblygiadau penodol pan fyddant yn codi ar sail achosion unigol, ar yr un pryd â chynnal uniondeb ein hymagwedd ganolog at roi grantiau.

Mae maint ac amrywioldeb ein llwythi gwaith yn cyflwyno risg i ni hefyd. Mae deall tueddiadau'r rhain a'u goblygiadau o ran adnoddau yn rhan allweddol o'n gwaith. Rydym wedi buddsoddi mewn deall ein trefniadau prisio, darparu adnoddau ac effeithlonrwydd mewn llawer mwy o ddyfnder yn 2015–16 a byddwn yn dechrau defnyddio'r data hwnnw wrth gynllunio lefelau adnoddau a dosbarthu yn 2016–17.

### Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol fel y mynnir gan Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol ac oherwydd nad oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reswm i gredu bod gan y llywodraeth unrhyw gynlluniau i newid canran yr arian achosion da a dderbynnir gan CGDG nac i newid dosbarthwyr arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol.

### Crynodeb o berfformiad

Rydym yn parhau i gyflawni'n dda er gwaethaf y gofynion ar ein hadnoddau a'r ffaith ein bod yn darparu mwy o brosiectau nag erioed o'r blaen. Mae'r manylion a roddir isod ac yn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn dangos ein bod wedi bodloni neu ragori ar y mwyafrif helaeth o'n mesurau perfformiad yn 2015–16.

Mae'r duedd perfformiad ariannol tymor hwy yn dangos mwy o effeithlonrwydd o ran cost fesul grant a £/ymrwymiad yn ogystal â fesul cais. Byddwn yn parhau i ddadansoddi hyn ymhellach yn 2016–17.

Rhoddir manylion ein perfformiad mewn perthynas â'n targedau lefel gwasanaeth isod:

## *Targedau lefel gwasanaeth – perfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016*

| | | **Blwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2016** | Blwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2015 |
|---|---|---|---|
| 1 | Rhoir penderfyniadau ar wefan CDL ymhen 20 niwrnod gwaith o'r cyfarfod. | **100%** | 100% |
| 2 | Gwneir taliadau grant i'r ymgeisydd, ar gyfartaledd, o fewn naw niwrnod gwaith o gael y cais am daliad. | **83% (6 diwrnod ar gyfartaledd)** | 83% (7 diwrnod ar gyfartaledd) |
| 3 | Graddfeydd amser y broses ymgeisio: **Grantiau Treftadaeth rownd 1:** 12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **97% (15.3 wythnos ar gyfartaledd)** | 97% (14 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Grantiau Treftadaeth rownd 2:** 12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **93% (15.9 wythnos ar gyfartaledd)** | 97% (14.6 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Grantiau Treftadaeth – casgliad mawr rownd 2:** 12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **100% (13.8 wythnos ar gyfartaledd)** | 100% (14.1 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Cyfnewid Treftadaeth rownd 1:** 12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **94% (14.2 wythnos ar gyfartaledd)** | 97% (13.3 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Cyfnewid Treftadaeth rownd 2:** 12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **100% (14.8 wythnos ar gyfartaledd)** | 83% (13.6 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Partneriaethau Tirwedd rownd 2:** 16 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **100% (16 wythnos ar gyfartaledd)** | 100% (17.6 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Grantiau ar gyfer Mannau Addoli rownd 1:** 12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **99%** (**15 wythnos ar gyfartaledd)** | 98% (14.3 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Grantiau ar gyfer Mannau Addoli rownd 2:** 12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **98% (11 wythnos ar gyfartaledd)** | 99% (9.3 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Treftadaeth Treflun rownd 2:** 12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **85% (19 wythnos ar gyfartaledd)** | 100% (15 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw:** 8 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **96% (7.2 wythnos ar gyfartaledd)** | 96% (7.6 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Ein Treftadaeth:** 8 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **96% (7.1 wythnos ar gyfartaledd)** | 95% (7.4 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Rhannu Treftadaeth:** 8 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **96% (7.2 wythnos ar gyfartaledd)** | 95% (7.6 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Gwreiddiau Ifanc:** 8 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **95% (7.2 wythnos ar gyfartaledd)** | 96% (7.3 wythnos ar gyfartaledd) |
| 4 | Byddwn yn cynnal arolwg o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus ac yn ceisio sicrhau bod 80% o'n cwsmeriaid o leiaf yn fodlon ar ein prosesau asesu. | **79.1%** | 79.7% |
| 5 | Byddwn yn cynnal arolwg tebyg o'r rhai hynny y dyfarnwyd grantiau iddynt ac yn ceisio sicrhau bod 85% ohonynt o leiaf yn fodlon ar ein prosesau monitro ac ôl-ddyfarnu. | **89.6%** | 87.3% |
| 6 | Bydd o leiaf 87% o ymgeiswyr o'r farn bod gwefan CDL yn rhwydd ei defnyddio. | **86% – gweler nodyn 1 isod** | 85% |
| 7 | Byddwn yn cymryd camau pendant i hyrwyddo detholiad eang o'n dyfarniadau trwy'r cyfryngau er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith ymgeiswyr posibl a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. | **Bodlonwyd – gweler nodyn 2 isod** | Ddim yn berthnasol – targed newydd ar gyfer 2015–16 |

1 Adroddir ar y mesur hwn trwy ein Harolwg Gofal Cwsmeriaid, y cynhaliwyd yr un mwyaf diweddar ym mis Medi 2015. Fis Gorffennaf diwethaf, gwnaethom gyflogi cwmni allanol – Numiko – i gynnal ymchwil ynglŷn â chwsmeriaid (ymchwil ansoddol gyda phedair rownd o brofi defnyddwyr ac ymchwil feintiol trwy arolwg ar-lein yr ymatebodd fwy na 250 o bobl iddo) ar ein gwefan. Roedd y canlyniadau'n gadarnhaol iawn; barnwyd bod y profiad symudol yn briodol i'r safle a bod strwythur y safle'n gryf iawn i raddau helaeth. Dywedodd bron 90% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg fod cynnwys y safle'n ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn, ac roedd 95% o'r farn bod yr iaith yn rhwydd ei deall.

2 Hyrwyddo dyfarniadau yw un rhan yn unig o'r gwaith cyhoeddusrwydd a wneir gan CDL ac rydym hefyd yn cynorthwyo grantïon i ddarparu cyhoeddusrwydd ynglŷn â'n dyfarniadau. Yn ystod 2015–16, gwnaethom gyhoeddi 29 datganiad cenedlaethol i'r wasg a 128 o ddatganiadau rhanbarthol i'r wasg, yn ymwneud yn benodol â dyfarniadau newydd ar draws y Deyrnas Unedig. Gwnaethom hefyd gefnogi a chyfrannu at 369 o ddatganiadau newyddion ynglŷn â dyfarniadau grantiau, a gyhoeddwyd gan dderbynyddion grantiau. Mae llawer o'r rhain hefyd wedi cael eu cynnwys mewn darnau newyddion ar wefan CDL a chyfryngau cymdeithasol cysylltiedig i hybu traffig. Felly, mae newyddion am grantiau yn amlwg iawn yn y sylw a gynhyrchwn sydd, yn gyffredinol, yn cyrraedd 155miliwn o ddefnyddwyr y mis ar gyfartaledd.

## Dadansoddi perfformiad

Mae CGDG yn gweithredu dwy gronfa – sef ei chronfa cymorth grant wreiddiol (CGDG) a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri (cyfeirir at hyn fel CDL). Mae cyfarwyddiadau cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn mynnu y cyfrifir am y gweithgareddau hyn ar wahân ac felly ni pharatoir unrhyw gyfrifon cyfunol. Dim ond gweithgareddau dosbarthu arian Loteri CGDG y mae'r adolygiad hwn yn eu trafod.


Mae CGDG yn cael ceisiadau am arian Loteri gan filoedd o sefydliadau ar draws holl gymunedau'r Deyrnas Unedig ac yn dyfarnu grantiau ar sail ei nodau. Ers i'r Loteri ddechrau ym 1994, rydym wedi derbyn bron 70,000 o geisiadau yn gofyn am £16.4biliwn. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym wedi gwneud dros 48,000 o ddyfarniadau yn dod i £7.2biliwn.

Yn ystod y flwyddyn, cawsom dros 3,200 o geisiadau grant, yn gofyn am £929miliwn. Mae hyn ychydig yn is na nifer y ceisiadau a gafwyd yn 2014–15 – gostyngiad 2% yng ngwerth ceisiadau. Mae nifer y ceisiadau a gafwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn is na'r brig a gafwyd yn 2012–13 a 2013–14, ond roedd ffigurau'r blynyddoedd hynny wedi'u hystumio gan nifer sylweddol o geisiadau bach – cawsom dros 1,000 o geisiadau ar gyfer y rhaglen Ein Holl Straeon yn 2012–13 a dros 500 o geisiadau ar gyfer y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw yn 2013–14. Mae gwir nifer y ceisiadau ar gyfer ein rhaglenni grant safonol wedi cynyddu ac mae'r rhaglenni hyn yn tueddu i fynnu mwy o adnoddau asesu. Er enghraifft, cawsom 461 o geisiadau ar gyfer y Grant Treftadaeth yn 2015–16, sef 6% yn uwch na'r llynedd a 14% yn uwch na 2013–14. Yn yr un modd, cawsom 25% yn fwy o geisiadau ar gyfer y rhaglen Grantiau Mannau Addoli o gymharu â 2013–14.

Roedd lefel y ceisiadau yn 2015–16 2.4 gwaith yn fwy na'n hincwm ac yn golygu, yn anffodus, bod yn rhaid i ni siomi llawer o'n hymgeiswyr.

Yn gyffredinol, gostyngodd ein hincwm ychydig o £392miliwn yn 2014–15 i oddeutu £388miliwn eleni. Mae'r Ymddiriedolwyr yn falch bod lefelau incwm yn parhau i fod yn gryf oherwydd bod hyn yn caniatáu i ni gynyddu cyllidebau grant yn y dyfodol er budd treftadaeth y Deyrnas Unedig. Cawsom lai o arian o'r Loteri yn 2015–16 o gymharu â 2014–15. Fodd bynnag, roedd hyn o ganlyniad i drosglwyddiad untro o bron i £30miliwn o gronfa weddilliol Cronfa Dosbarthu'r Loteri Olympaidd yn 2014–15. Felly, mae tuedd sylfaenol yr incwm sy'n deillio o weithredu'r Loteri Genedlaethol yn parhau i gynyddu ac wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed.

*Ceisiadau i CDL*



Arhosodd incwm buddsoddi yn gyson ar £1.6miliwn yn 2015–16. Elw gilt isel parhaus yw'r rheswm dros yr enillion incwm buddsoddi isel, gan fod CDdLG yn buddsoddi mewn ystod gul o fuddsoddiadau elw isel, risg isel. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw ddylanwad dros y polisi buddsoddi, a osodir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Derbyniwn 20% o'r enillion buddsoddi yn y CDdLG, ni waeth beth fo balans ein cronfeydd.

Cynyddodd balans ein cronfeydd yn y CDdLG o £566miliwn i £595miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y cynnydd yn ein balans yn uwch na'r disgwyl oherwydd gostyngodd ein taliadau grant ychydig islaw'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn (£318miliwn o gymharu â £324miliwn disgwyliedig) a chynhyrchodd y Loteri Genedlaethol fwy o arian na'r disgwyl (£385miliwn o gymharu â £360miliwn).

Mae ein cyllideb grant a gweinyddu cyfunol ar gyfer 2016–17 yn llawer uwch na'r incwm disgwyliedig a chredwn y bydd hyn yn helpu i atal balans CDdLG rhag cynyddu'n uwch yn y tymor hir. Ceir oedi hir yn aml rhwng talu arian i'r CDdLG o'r Loteri Genedlaethol a'r adeg y caiff ei dynnu i lawr gan ein derbynyddion grantiau. Parhawn i geisio dod o hyd i ffyrdd o gadw ein balans CDdLG o dan reolaeth, ond ni allwn fynnu bod derbynyddion grantiau'n cyflymu eu prosiectau er mwyn tynnu arian i lawr yn gynharach, ac ni ddymunwn wneud hynny – ein nod yw ariannu prosiectau treftadaeth o ansawdd uchel, nid rhai sydd wedi cael eu rhuthro.

Felly, roedd yn siomedig gweld lefel y rhwymedigaethau grant newydd net yn gostwng o £437miliwn i £367miliwn, gan arwain yn y pen draw at warged gweithredu am y tro cyntaf ers 2002. Gostyngodd nifer y ceisiadau rownd un llwyddiannus a ddychwelodd ar gyfer penderfyniad rownd dau, er gwaethaf lefel ein gorymrwymiad yn y blynyddoedd diweddar. Nid ydym yn gwybod beth sydd wedi achosi'r gostyngiad hwn, ac felly rydym yn ymchwilio i'r rheswm pam mae derbynyddion grantiau rownd un yn cymryd mwy o amser i ddychwelyd ar gyfer eu penderfyniad rownd dau. Byddwn yn ystyried canlyniad y gwaith ymchwil hwn a, lle y bo'n bosibl, yn gwneud newidiadau i'n gweithdrefnau er mwyn i'n hymgeiswyr ddychwelyd yn gyflymach. Gobeithiwn y bydd hyn yn golygu y bydd y dirywiad mewn dyfarniadau newydd yn fyrhoedlog.

Er mwyn monitro effaith ein dyfarniadau ar ein llif arian, ein balans yn CDdLG a lefel ein gorymrwymiad, rydym wedi llunio cymarebau i fonitro'n ofalus pa mor barod ydym i ymdopi â dirywiadau sydyn yn incwm y Loteri neu newidiadau arwyddocaol eraill i'n hamgylchedd gweithredu. Pe byddai amgylchiadau'n awgrymu y bydd y cymarebau targed hyn yn cael eu torri, mae rheolwyr yn gyfrifol am greu cynigon i wella'r sefyllfa. O ystyried y rhwymedigaethau a'r ymrwymiadau, rydym wedi gorymrwymo o'r hyn sy'n gyfwerth â 4.2 blynedd o incwm disgwyliedig. Mae hyn yn dangos bod yr Ymddiriedolwyr yn benderfynol o geisio cadw'r balans yn CDdLG rhag cynyddu'n rhy gyflym.

Er gwaethaf lefel siomedig dyfarniadau newydd, cynyddodd balans rhwymedigaethau grant yn ystod y flwyddyn o £964miliwn i £996miliwn. Roedd hyn yn syml oherwydd bod dyfarniadau newydd yn fwy na thaliadau grant. Mae ein model llif arian yn rhagfynegi lefel sylweddol uwch o daliadau grant yn 2016–17, ond rydym hefyd yn disgwyl cynnydd mewn penderfyniadau rownd dau. Mae hyn yn golygu y bydd ein rhwymedigaethau'n cyrraedd mwy na £1biliwn yn gynnar yn 2016–17 yn ôl pob tebyg. Gallwn ddisgwyl lefel uchel o benderfyniadau rownd dau oherwydd bod £634miliwn o rwymedigaethau digwyddiadol a ddaw'n ddyfarniadau yn ôl pob tebyg yn ystod y 18 mis nesaf. Oherwydd bod penderfyniadau rownd dau yn is na'r disgwyl, cyrhaeddodd ein penderfyniadau rownd un £468miliwn yn ystod y flwyddyn, ac felly cynyddodd y balans o £572miliwn i £634miliwn.

O ystyried yr holl rwymedigaethau gwirioneddol a digwyddiadol, roeddem wedi ymrwymo dros £1.03biliwn yn fwy nag oedd gennym yn y CDdLG ar ddiwedd

y flwyddyn ariannol. Roedd balans rhwymedigaethau cytundebol yn sylweddol fwy na'n hasedau net, ac felly roedd diffyg net yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol o £395miliwn ar 31 Mawrth 2016.

Yn gyffredinol, cynyddodd gostau gweithredu 2.4% yn ystod y flwyddyn, sy'n llai na'r cynnydd 3.4% y llynedd. Roedd y cynnydd yn ddisgwyliedig ac wedi'i gynnwys yn ein cyllideb weithredu ar gyfer 2015–16. Roedd y cynnydd yn anochel o ystyried y cynnydd enfawr yn nifer y dyfarniadau a cheisiadau yn ystod y blynyddoedd diweddar. Er gwaethaf y cynnydd hwn, credwn fod y sefydliad yn parhau i fod yn ddosbarthwr effeithlon iawn o arian y Loteri Genedlaethol – dangosir y dystiolaeth yn y siart isod a'r ffaith ein bod yn parhau i gyrraedd y targedau effeithlonrwydd a osodwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Ceisiwn ddarparu gwasanaeth boddhaol i'n holl ymgeiswyr, pa un a ydynt yn llwyddiannus ai peidio, ac mae hyn yn gofyn am adnoddau. Mae'r cynnydd mawr diweddar mewn cyllidebau grant yn golygu bod mwy o geisiadau'n derbyn dyfarniadau, sydd, unwaith eto, yn costio mwy i ni o ran adnoddau. Bydd y cynnydd yn nifer ein grantiau yn y blynyddoedd diweddar yn arwain at gynnydd yn nifer y prosiectau sy'n cael eu monitro a nifer y taliadau grant a wneir yn y dyfodol. Felly, disgwyliwn i'n costau gweithredu gynyddu ymhellach yn 2016–17. Mae hyn yn anochel mewn sefydliad sydd â phortffolio o bron £1biliwn o brosiectau treftadaeth gweithredol yn cael eu darparu a £634miliwn ychwanegol o ymrwymiadau eraill a allai ddod yn ddyfarniadau yn fuan.


Bu cynnydd 1.4% mewn costau staff. Mae'r ffaith fod y llywodraeth yn parhau i gadw rheolaeth ar gyflogau'r sector cyhoeddus – gall y bil cyflogau cyffredinol ond gynyddu 1% – yn golygu bod y cynnydd gros mewn costau o ganlyniad i'r ffaith bod angen mwy o staff i ymdrin â'r portffolio gwaith cynyddol.

Mae nifer y prosiectau sy'n cael eu monitro – y prosiectau hynny heb eu cwblhau sydd wedi cael dyfarniadau – wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar. Mae sicrhau bod y prosiectau hyn yn datblygu'n llwyddiannus yn orchwyl mawr sy'n gofyn am lawer o adnoddau. Mae hyn yn helpu i esbonio'r cynnydd yn ein costau gweinyddu yn y blynyddoedd diweddar.

Cynyddodd costau dibrisiad ac amorteiddiad yn sylweddol gan 31%. Y prif reswm dros hyn yw effaith blwyddyn lawn amorteiddiad ar ein gwefan a ailwampiwyd yn ddiweddar a'r gwelliannau a wnaed i'n meddalwedd prosesu ceisiadau am grant (a adwaenir fel y system rheoli digwyddiadau grant – GEMS) ar gyfer y fframwaith strategol cyfredol. Roedd angen modiwlau newydd o fewn GEMS ar yr holl raglenni grant newydd a grëwyd o dan y fframwaith hwnnw. Gwnaethom hefyd amnewid llawer o'n gweinyddwyr TG oherwydd bod eu hoedran yn cynyddu risg methiant. Byddai unrhyw fethiant o'r fath wedi lleihau ansawdd ein gwasanaeth i'n hymgeiswyr, ein grantïon a'n rhanddeiliaid.

Cynyddodd costau gweithredu eraill 2.2%. Nid oes unrhyw reswm arwyddocaol am y cynnydd; yn hytrach, mae'n adlewyrchu cynnydd cronedig mewn sawl maes – costau

*Prosiectau sy'n cael eu monitro*



recriwtio Prif Weithredwr newydd, mwy o bwyslais ar hyfforddi staff, llacio terfynau teithio a chynhaliaeth, darparu ffonau symudol i lawer mwy o staff a chostau TG paratoadol ar gyfer cyflwyno rhai rhaglenni grant newydd.

Mae ein costau gweithredu yn elwa hefyd o ddau gyfraniad gan gyrff y llywodraeth ganolog:

1 gan y Gronfa Loteri Fawr (BLF) tuag at gost cynnal y rhaglen Parciau i Bobl, y maent yn cyfrannu rhywfaint o gyllid grant ati. Cynyddodd eu cyfraniad ychydig o £294,000 i £302,000.


2 gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) tuag at gost meddiannu'r rhan fwyaf o lawr cyntaf ein swyddfa yn Llundain. Lletywyd CCC ers mis Mai 2011 ac mae eu cyfraniad yn nhermau rhent a thaliadau gwasanaeth. Yn 2015–16, codwyd £234,000 arnynt (2014–15: £204,000).

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod na ddylid bod yn ddosbarthwr effeithlon o arian Loteri ar draul y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid. Maent yn falch o adrodd, er gwaethaf y cynnydd sylweddol mewn ceisiadau a dyfarniadau yn ystod y blynyddoedd diweddar, ein bod yn parhau i fodloni ein targedau lefel gwasanaeth ar gyfer ymgeiswyr a grantïon. Mae rhagor o wybodaeth am ein targedau lefel gwasanaeth ar gael mewn man arall yn yr adroddiad blynyddol hwn.

### Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae gan CDL enw da fel corff sy'n dosbarthu arian y Loteri'n effeithlon. Mae'r siart isod yn nodi ein costau gweithredu ym mhob un o'r blynyddoedd diwethaf (y llinell ddu). Mae'r llinell lwyd yn dangos gwerth costau gweithredu a gafwyd yn y flwyddyn y crëwyd ein strwythur swyddfa ranbarthol llawn (2003–04) o'u cynyddu'n unol â datchwyddydd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) y Trysorlys – amcangyfrif o lefel gyffredinol chwyddiant yn economi'r Deyrnas Unedig. Er bod ein costau wedi cynyddu yn 2015–16, mae'r Ymddiriedolwyr yn falch o nodi bod costau gweithredu eleni £9miliwn (neu 31%) yn is na'r hyn y byddai chwyddiant ers 2003–04 wedi ei awgrymu – ac mae hynny'n ostyngiad termau real sylweddol mewn costau gweithredu ac yn rhyddhau rhagor o arian ar gyfer grantiau. Pe bai'r Mynegai Prisiau Manwerthu yn cael ei ddefnyddio yn hytrach na'r datchwyddydd CMC, byddai'r costau £11.4miliwn (neu 56%) yn uwch nag yr oeddent.

*Costau gweithredu gwirioneddol o gymharu â chostau chwyddedig 2003–04*




| | 2007–08 | 2008–09 | 2009–10 | 2010–11 | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | **2015–16** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau – *gwirioneddol* | **20.5** | **20.0** | **19.4** | **17.6** | **17.4** | **18.7** | **19.2** | **19.8** | **20.3** |
| Costau – *costau chwyddedig 2003–04* | **25.2** | **25.9** | **26.5** | **27.3** | **27.7** | **28.2** | **28.8** | **29.2** | **29.3** |

(Sylwer na chynhyrchwyd costau gweithredu o 2006–07 a chyn hynny o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol)

Yn 2015–16, cyflawnom y canlynol:

| | Targed | **Gwirioneddol 2015–16** | Gwirioneddol 2014–15 | Gwirioneddol 2013–14 | Gwirioneddol 2012–13 | Gwirioneddol 2011–12 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant gweithredu fel cyfran o gyfanswm yr incwm | **8%** | **5.2%** | 5.1% | 5.7% | 4.8% | 5.7% |
| Gwariant prosesu fel cyfran o gyfanswm yr incwm | **5%** | **3.7%** | 3.7% | 4.1% | 3.8% | 4.5% |

Mae'r Ymddiriedolwyr yn falch o nodi ein bod yn parhau i gyflawni'r targedau er gwaethaf y cynnydd yn ein sylfaen costau a'r nifer uchel o geisiadau am grant.

### Symiau sy'n daladwy

Mae CGDG yn cydymffurfio â'r safon lywodraeth-gyfan ar dalu biliau a Chod Ymarfer Talu Gwell CBI, sef talu pob bil dilys ymhen 30 niwrnod. Yn 2015–16, oed cyfartalog yr anfonebau a dalwyd oedd pum niwrnod gwaith (2014–15: 6 diwrnod). Talwyd dros 96% o anfonebau ymhen 30 niwrnod calendr (2014–15: 96%).

Ffordd arall o fesur ein hymrwymiad i dalu cyflenwyr yw'r gymhareb diwrnodau credydwyr – sef cymhareb y symiau masnach sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth pryniannau yn ystod y flwyddyn wedi'i mynegi yn nhermau diwrnodau. Ar 31 Mawrth 2016, y ffigur oedd 29 diwrnod (2014–15: 18 diwrnod).

### Polisïau amgylcheddol ac adrodd ar gynaliadwyedd

Mae'r Trysorlys yn mynnu bod holl gyrff y sector cyhoeddus yn cynhyrchu adroddiadau cynaliadwyedd o 2011–12. Roedd 2010–11 yn 'rhediad ffug' ac o 1 Ebrill 2010, mae CGDG wedi cofnodi ei hôl troed carbon o ran teithio busnes, gwastraff a gynhyrchwyd a'r defnydd o ynni. Gan mai 2010–11 oedd blwyddyn gyntaf casglu'r wybodaeth, nid oedd yn llinell sylfaen ddibynadwy. Yn ogystal, nid yw'r broses o grynhoi'r data hwn yn un fanwl gywir; er enghraifft, nid yw'r un o'n landlordiaid yn darparu ffigurau ar gyfer oriau cilowat o nwy na thrydan a ddefnyddiwyd, ac nid ydynt ychwaith yn gallu bilio'n ddigon cyflym ar ddiwedd y flwyddyn i ddarparu ffigurau mewn pryd ar gyfer cynhyrchu'r cyfrifon diwedd blwyddyn. Gan fod y rhan fwyaf o'n swyddfeydd yn ddeiliadaethau bach gyda landlordiaid sector preifat, mae'n anodd cynhyrchu adroddiad cynhwysfawr. Golyga hyn ein bod yn gorfod defnyddio amcangyfrifon ar gyfer y rhan fwyaf o swyddfeydd. Yn ogystal, rydym wedi llofnodi contract cost sefydlog gyda'r cwmni sy'n cyflenwi dŵr i'n prif swyddfa; mae hyn yn golygu nad ydym yn derbyn data ar ddefnydd mwyach. Mae'r sefyllfa'n gwella rhyw ychydig dros amser, ond rydym yn gorfod amcangyfrif llawer o'n defnydd o hyd. O 2013–14, rydym wedi dechrau cyfrifo ein defnydd carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer dŵr ac ar gyfer gwastraff hefyd.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn gweld fawr o bwynt dyrannu adroddiadau cynaliadwyedd rhwng eu gweithgareddau cymorth grant a'u gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. O ganlyniad, mae'r wybodaeth isod yn cwmpasu holl weithgareddau CGDG.

#### Crynodeb o berfformiad cynaliadwyedd

Mae ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr wedi cynyddu yn 2015–16 ar sail gros, er bod y cynnydd yn lleiafsymiol ar sail cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn am y rhesymau canlynol:

- mae niferoedd staff wedi codi o gyfartaledd o 262 i 280, ac felly mae'n anochel y bydd ein defnydd wedi cynyddu;
- mae ein costau teithio a chynhaliaeth wedi cynyddu 20% yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn rhannol adlewyrchu cynnydd yn y cyfraddau cynhaliaeth a ddefnyddiwn, gan nad oeddent wedi cael eu newid ers sawl blwyddyn; ond credwn mai'r prif reswm yw cynnydd mewn gweithgarwch. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer uwch o geisiadau a broseswyd yn ystod y flwyddyn a gwaith prosesu parhaus portffolio mawr o brosiectau byw;

- mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) wedi newid ei ffactorau trosi ar gyfer llawer o'n categorïau defnydd. Yn anochel, mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu o flwyddyn i flwyddyn.

Dim ond dros un o'r adeiladau y mae'n gweithio ynddo y mae gan CGDG reolaeth drosto, sef y pencadlys yn Llundain. Yn 2010–11, fe wnaethom osod boeleri newydd ar gyfer gwresogi yn lle'r boeleri nwy 25 mlwydd oed, yr oeryddion ar gyfer y system aerdymheru, a gosod goleuadau a reolir gan synwyryddion sy'n sensitif i symudiadau a golau dydd. Ar ôl gwneud gwaith ailosod mor fawr, nid oes llawer o le i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ymhellach yn yr unig swyddfa a reolwn.

Yn y deg adeilad arall yr ydym yn ddeiliaid ynddynt, rydym yn gwbl ddibynnol ar y landlord i wella perfformiad, ac mae hynny'n annhebygol o ddigwydd rhwng gwaith ailwampio mawr. Mae'r cyfle i wella ymhellach o ran allyriadau cwmpas 1 a 2 yn eithriadol o gyfyngedig felly. Dros y blynyddoedd, rydym wedi adleoli rhai o'n swyddfeydd gwledig a rhanbarthol mewn adeiladau llai, a bydd hynny wedi lleihau ein defnydd o ynni. Er mis Mai 2011, rydym hefyd wedi rhentu'r rhan fwyaf o un o loriau adeilad ein prif swyddfa, ac wedi lleihau ein defnydd o ganlyniad i hynny.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Mae allyriadau ynni uniongyrchol yn ymwneud â nwy a ddefnyddiwyd mewn boeleri a weithredir gan CGDG ac allyriadau a gynhyrchir drwy ein defnydd o systemau aerdymheru yn ein pencadlys yn Llundain. Caiff gwybodaeth am ddefnydd o nwy mewn oriau cilowat ei deillio o anfonebau ein cyflenwyr.

Caiff oriau cilowat eu trosi'n dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio ffactor trosi a ddarparwyd gan DEFRA. Cyfrifwyd y carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer allyriadau o'n hoeryddion aerdymheru yn yr un modd; gan ddefnyddio'r fformwla a nodir yn arweiniad DEFRA yn *www.ukconversionfactorscarbonsmart.co.uk*

Mae allyriadau ynni anuniongyrchol yn ymwneud â thrydan a gynhyrchwyd gan

| **Maes** | | **2015–16** | 2014–15 | 2013–14 | 2012–13 | 2011–12 | 2010–11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr – cwmpasau 1, 2 a 3 sy'n ymgorffori teithio busnes yn cynnwys teithio awyr/rheilffordd rhyngwladol (tunelli metrig $CO_2$ cyfwerth) | | **635** | 591 | 489 | 550 | 747 | 594 |
| Ynni'r ystad | – defnydd (miliwn kWh) | **1.1** | 1.1 | 0.9 | 1.1 | 1.3 | 1.3 |
| | – gwariant (£) | **488,361** | 429,425 | 445,624 | 489,638 | 384,532 | 358,000 |
| Gwastraff yr ystad | – defnydd (tunelli metrig) | **28** | 26 | 28 | 24 | 19 | 20 |
| | – gwariant (£) | **13,268** | 14,095 | 12,400 | 5,518 | 6,640 | 8,000 |
| Dŵr yr ystad | – defnydd ($m^3$) | **4,350** | 4,889 | 5,655 | 3,757 | 5,223 | 14,716 |
| | – gwariant (£) | **7,413** | 11,825 | 14,182 | 11,253 | 18,786 | 19,000 |

Normaleiddiwyd gan staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) a gyflogwyd yn ystod y cyfnod.

| **Maes fesul CALl** | | **2015–16** | 2014–15 | 2013–14 | 2012–13 | 2011–12 | 2010–11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr – cwmpasau 1, 2 a 3 sy'n ymgorffori teithio busnes yn cynnwys teithio awyr/rheilffordd rhyngwladol (tunelli metrig $CO_2$ cyfwerth) | | **2.3** | 2.3 | 1.9 | 2.2 | 3.3 | 2.5 |
| Ynni'r ystad | – defnydd (kWh) | **4,105** | 4,134 | 3,595 | 4,249 | 5,701 | 5,686 |
| | – gwariant (£) | **1,744** | 1,639 | 1,716 | 1,986 | 1,679 | 1,530 |
| Gwastraff yr ystad | – defnydd (tunelli metrig) | **0.1** | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.2 |
| | – gwariant (£) | **47** | 54 | 48 | 22 | 29 | 34 |
| Dŵr yr ystad | – defnydd ($m^3$) | **16** | 19 | 22 | 15 | 23 | 63 |
| | – gwariant (£) | **26** | 45 | 55 | 46 | 82 | 81 |

sefydliadau eraill ac a werthwyd i ni, a gwres a brynwn gan landlordiaid i'n swyddfeydd gwledig a rhanbarthol. Ceir gwybodaeth am ddefnydd mewn oriau cilowat gan ein landlordiaid lle y bo'n bosibl, ond gall eu methodoleg amrywio. Caiff oriau cilowat eu trosi'n dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio ffactor trosi a ddarparwyd gan DEFRA. Rydym yn dibynnu ar ein landlordiaid i wella effeithlonrwydd.

Gwneir y rhan fwyaf o'n teithio ar y rheilffordd, ac mae ein prif gyflenwr tocynnau yn rhoi manylion i ni am allyriadau'r carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer yr holl deithiau a wnaed. Yn yr un modd, mae ein prif gyflenwr llogi ceir yn rhoi data i ni am yr allyriadau hyn. Mae'n ofynnol i'r staff ddiweddaru taenlenni adrannau â gwybodaeth am yr holl deithiau eraill. Mae'n ofynnol i benaethiaid adran sicrhau bod eu staff yn cofnodi manylion eu holl deithiau. Caiff y wybodaeth a gesglir ei throsi'n dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio'r un tablau o ffactorau trosi.

### Gwastraff

Mae'r gwastraff a gynhyrchwyd wedi cynyddu ychydig yn 2015–16, ond, fel y trafodir isod, nid oes unrhyw ffordd ddibynadwy o fesur y gwastraff a gynhyrchir gennym gan fod cynghorau'n mynd â'r gwastraff ac ni fyddai'n ddefnydd dilys o adnoddau i gaffael offer pwyso dim ond er mwyn gwella ein dull o adrodd am y ffigur hwn. Byddwn yn parhau i geisio ateb ymarferol i gyfrifo ffigur dibynadwy. Rheswm arall am y cynnydd bach yw ei bod yn anochel y bydd lefel y gwastraff yn cynyddu yn sgil symud swyddfa oherwydd achubir ar y cyfle i gael gwared ar eitemau sy'n weddill a gronnwyd dros y blynyddoedd.

Nid yw CGDG yn cynhyrchu unrhyw wastraff peryglus. Nid oes modd dadansoddi ymhellach yr hyn a ddigwyddodd i'r gwastraff a gynhyrchwyd gennym. Caiff yr holl wastraff nad yw'n cael ei ailgylchu ei gasglu gan gynghorau sy'n lleol i'r swyddfeydd y gweithredwn ynddynt. Nid ydym yn gwybod beth maent yn ei wneud â'r gwastraff hwnnw, ond rydym wedi ffurfio rhagdybiaethau ynglŷn â ble fydd y gwastraff yn mynd er mwyn cynhyrchu'r ffigurau uchod. Dim ond Cyngor Kensington a Chelsea sy'n ein hanfonebu ar wahân, ond rydym bellach wedi dechrau cynnwys cost gwaredu papur wedi'i rwygo. Byddwn yn archwilio dewisiadau storio a dinistrio sy'n fwy ecogyfeillgar yn 2016–17.

Mae ein swyddfeydd gwledig a rhanbarthol yn ddigon bach i bwyso'r holl wastraff a gynhyrchwyd ganddynt. Nid oes unrhyw ffordd ddibynadwy o fesur y gwastraff mwy o lawer a gesglir gan Gyngor Kensington a Chelsea yn Llundain gan nad yw'r cyngor yn dweud wrthym beth yw pwysau'r hyn maent yn ei gasglu. Rydym felly wedi cyfrifo maint y gwastraff a gynhyrchwyd fesul unigolyn ar sail pwysau gwirioneddol yn ein swyddfeydd gwledig a rhanbarthol, ac wedi cymhwyso hynny i staff yn Llundain.

### Defnydd o adnoddau

Fe wnaeth defnydd o ddŵr ostwng yn 2015–16. Mae ein landlordiaid yn darparu gwybodaeth am nifer y metrau ciwbig a ddefnyddir ar sail y gofod sydd gennym, yn hytrach na thrwy fesuryddion unigol. Yn 2015–16, gwnaethom osod cyfleusterau tŷ bach mwy effeithlon yn ein pencadlys. Rydym hefyd wedi llofnodi contract pris sefydlog ar gyfer y cyflenwad dŵr yn ein prif swyddfa. Mae hyn wedi arwain at daliad is o lawer, ond nid yw'r cyflenwr yn rhoi manylion yr union ddefnydd i mi mwyach. O ganlyniad, rydym wedi defnyddio ffigur 2014–15.

Yn 2013–14, cynhaliom adolygiad o'r defnydd o drydan yn ein prif swyddfa yn Llundain. Roedd hyn yn gofyn am ymchwiliad i'r defnydd o bŵer ar bob llawr drwy osod mesuryddion, a gwneud gwaith cynnal a chadw manylach er mwyn gwella effeithlonrwydd ein dyfeisiau trydanol. Gostyngodd defnydd yr ystad o ynni yn 2013–14 ac mae'n parhau ar y lefel honno ar sail CALl yn dilyn anghysondeb yn 2014–15. Rydym wedi llofnodi contractau i osod terfyn uchaf ar gostau nwy a thrydan yn ein prif swyddfa ar gyfer 2016–17 a thu hwnt. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni dderbyn bod gan y tywydd ddylanwad mwy ar ein defnydd nag

unrhyw welliannau y gallwn eu gwneud i'n heffeithlonrwydd ynni.

**Colin Bailey**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro

30 Mehefin 2016

## Adroddiad Atebolrwydd

### Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethu corfforaethol hwn yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu CGDG a sut maen nhw'n helpu i gyflawni ein hamcanion.

#### *Adroddiad y cyfarwyddwyr*

**Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG**

Cadeirydd
Syr Peter Luff [2]

Ymddiriedolwyr
Syr Neil Cossons OBE *o 31 Ionawr 2016*
Sandie Dawe CBE [1]
Dr Angela Dean [1]
Syr Roger De Haan CBE [2]
Jim Dixon [1]
David Heathcoat-Amory [1]
Perdita Hunt OBE [2]
Steve Miller
Richard Morris OBE
Atul Patel [2]
Y Fonesig Seona Reid
Virginia Tandy *hyd at 31 Awst 2015*
Dr Tom Tew

Prif Weithredwr
Carole Souter [2]

1 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg
2 Aelod o'r Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau (sydd hefyd yn cynnwys tâl)

Gellir gweld manylion uwch reolwyr eraill yn yr Adroddiad Tâl isod.

Roedd y rhaniad rhwng y rhywiau ymhlith ein Hymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2016 fel a ganlyn:

| | Dynion | Menywod | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr | 9 | 4 | **13** |

**Cofrestr buddiannau**

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â CGDG ac yn eithrio eu hunain o'r prosesau arfarnu, trafod a phenderfynu grantiau perthnasol CGDG. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grant, mae'r Ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau ymglymiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwr CGDG. Mae trefniadau cyfatebol i staff adrodd am fuddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael i'r cyhoedd ei gweld drwy gysylltu ag Ysgrifennydd y Bwrdd, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

**Datblygiadau yn y dyfodol**

Mae amcanestyniadau gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) o'r incwm tebygol o'r Loteri Genedlaethol yn awgrymu y bydd adenillion yn parhau'n gymharol sefydlog ar oddeutu £365miliwn y flwyddyn am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Ar y sail hon, ac yn unol â'r fframwaith ariannol a osodwyd gan yr Ymddiriedolwyr ym mis Rhagfyr 2014, gyda'r nod penodol o atal Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol rhag codi'n rhy uchel, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cynnig cyllideb dyfarnu grantiau o £434miliwn ar gyfer 2016–17 a £405miliwn ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Byddwn yn addasu'r cyllidebau hyn os bydd newidiadau sylweddol i'n hamgylchedd ariannol.

2016–17 fydd pwynt canol ein Fframwaith Strategol ar gyfer 2013–19 – ymestynnwyd fframwaith gwreiddiol 2013–18 gan flwyddyn. O fewn y fframwaith, gwnaethom osod canlyniadau ar gyfer ein rhaglenni grant, sef:

Deilliannau ar gyfer treftadaeth

Gyda'n buddsoddiad ni, bydd treftadaeth:

- yn cael ei rheoli'n well*
- mewn cyflwr gwell*
- yn cael ei dehongli a'i hesbonio'n well
- yn cael ei hadnabod a'i chofnodi'n well

Deilliannau ar gyfer pobl

Gyda'n buddsoddiad ni, bydd pobl:

- wedi dysgu am dreftadaeth**
- wedi datblygu sgiliau*
- wedi newid eu hagweddau a/neu ymddygiad
- wedi cael profiad y gwnaethant ei fwynhau
- wedi gwirfoddoli eu hamser

Deilliannau ar gyfer cymunedau

Gyda'n buddsoddiad ni:

- bydd llai o effeithiau amgylcheddol**
- bydd mwy o bobl ac ystod ehangach o bobl wedi ymgysylltu â threftadaeth**
- bydd y sefydliad sy'n derbyn y grant yn fwy cydnerth
- bydd yr economi leol yn cael ei hybu
- bydd yr ardal/gymuned leol yn lle gwell i fyw ac i weithio ynddi, neu i ymweld â hi

* Caiff y deilliannau hyn eu pwysoli ar gyfer grantiau dros £100,000

** Caiff y deilliannau hyn eu pwysoli ar gyfer pob grant

Mae'r Fframwaith Strategol yn gosod y sefyllfa gyffredinol, y dull o gyllido a sut y byddwn yn cyflawni ein strategaeth trwy bolisïau, rhaglenni a mentrau. Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i fod yn fodlon ar gadernid y dull strategol hwn a'r cynnydd hyd yma wrth gyflawni nodau ac amcanion y fframwaith.

Yn ystod chwe blynedd cyntaf y fframwaith, gwnaethom lansio chwe rhaglen grant newydd:

- Rhannu Treftadaeth
- Grantiau Cychwynnol
- Cyllid Trosglwyddo
- Menter Treftadaeth
- Grantiau ar gyfer Mannau Addoli
- Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw

Gwnaethom hefyd barhau â chwe rhaglen o'n Cynllun Strategol blaenorol. Rydym wedi gweithredu'r fframwaith canlyniadau yn ein proses asesu a gwneud penderfyniadau.

Bu rhai ychwanegiadau i'r rhaglenni a hysbysebwyd, sy'n adlewyrchu hyblygrwydd y fframwaith. Ychwanegwyd y rhaglen Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw at y portffolio mewn ymateb i'r diddordeb mawr ymhlith y cyhoedd, y cyfryngau a gwleidyddion yng Nghanmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y digwyddiadau a gynhaliwyd ym mis Awst 2014, a oedd yn nodi Canmlwyddiant dechrau'r rhyfel, yn dystiolaeth nodedig o'r diddordeb mawr ymhlith y cyhoedd yn y dreftadaeth hon.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r cydbwysedd a'r dosbarthiad gorau o gyllid, gwnaethom dri ymrwymiad gwario:

- byddai oddeutu 75% o'r cyllid ar gael trwy 'raglenni agored' (mae hyn wedi'i gyflawni)
- byddai £30miliwn y flwyddyn yn mynd i raglenni grant bach (o dan £100,000) (mae hyn wedi'i gyflawni)
- byddai grantiau o hyd at £2filiwn yn cael eu dirprwyo i bwyllgorau/timau gwledydd a rhanbarthau (mae hyn wedi'i gyflawni)

Yn rhan o'n Fframwaith Strategol, rydym yn ymrwymedig i "ddangos a siarad o blaid gwerth treftadaeth i fywyd modern" ac i greu "mwy o gyfleoedd i drafod gyda phobl sy'n gwerthfawrogi treftadaeth". Rydym wedi datblygu'r rôl ymgynnull hon gyda dwy gynhadledd fawr a'r arweinyddiaeth strategol gysylltiedig.

Rydym hefyd yn paratoi rhai rhaglenni grant newydd i'w lansio yn y misoedd i ddod – Treftadaeth Gydnerth a Phobl Ifanc – ac yn paratoi ar gyfer ailgyflwyno hen raglenni fel Gwaddol Catalydd a Sgiliau ar gyfer y Dyfodol.

### Penodi archwilwyr

Mae Deddf 1980 yn darparu ar gyfer archwilio cyfrifon blynyddol CGDG gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993

yn ymestyn hyn i weithgareddau dosbarthu arian Loteri'r Ymddiriedolwyr.

### Rhanddeiliaid allweddol

Gweithiwn gydag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid allweddol ac ymgynghorwn â hwy'n helaeth wrth ddatblygu ein fframwaith strategol a'n polisïau ac arfer dyfarnu grantiau. Yn eu plith y mae'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri, ymgeiswyr a grantïon, asiantaethau strategol a chyrff arweiniol ar gyfer treftadaeth a meysydd polisi eraill sy'n berthnasol i'n cyllido ledled y Deyrnas Unedig, Aelodau etholedig ar gyfer llywodraethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cyhoeddi Cyfarwyddiadau Polisi ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan (gweler tudalennau 61 i 68) a rheolaethau i CDdLG sy'n buddsoddi'r arian a dderbynnir o'r Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cyfarwyddiadau Polisi hefyd.

### Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Roedd canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Nid yw'r digwyddiad hwn yn golygu bod angen addasu. Ni ellir gwneud amcangyfrif rhesymol o effaith ariannol y digwyddiad hwn. Llofnodwyd y cyfrifon gan y Swyddog Cyfrifyddu ar 30 Mehefin 2016, ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar y dyddiad yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Disgwylir i Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu newydd fod yn ei swydd ar 4 Gorffennaf 2016.

### Ychwanegedd

Yn unol â Chyfarwyddyd Ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol, rhaid i holl ddosbarthwyr arian y Loteri ystyried egwyddorion ychwanegedd. Ein gofyniad ar gyfer grantiau Loteri yw y dylai ein harian fod yn ychwanegol i'r arian sydd ar gael gan y llywodraeth, ac nid yn lle arian o'r llywodraeth ganolog. Felly, ni fyddwn yn rhoi grantiau i brosiectau os credwn fod arian ar gael gan y llywodraeth ar adeg y penderfyniad. Yn rhan o'n prosesau asesu grantiau, gofynnwn i ymgeiswyr gyflwyno achos clir dros fuddsoddiad arian loteri, gan gynnwys dweud wrthym pa ffynonellau arian eraill sydd wedi'u hystyried.

### Data personol

Ni chafodd CDL unrhyw ddigwyddiadau lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti, ac nid yw wedi gwneud unrhyw adroddiad i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd CGDG yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau, ac i sicrhau gwelliannau parhaus i'w systemau.

## *Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr*

O dan adran 34(1) o Ddeddf 1993, mae gofyn i Ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, o'i hincwm a'i gwariant, adenillion a cholledion cydnabyddedig a'i llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i Ymddiriedolwyr CGDG gydymffurfio â gofynion Canllaw Adrodd Ariannol (FREM) y Llywodraeth ac yn benodol:

- dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y FREM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau pwysig yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gronfa yn parhau i weithredu

Yn dilyn ymddeoliad y Prif Weithredwr ym mis Mai 2016, mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r DCMS wedi penodi'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro ar gyfer y Gronfa. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am ddiogelu asedau'r Gronfa a chadw cofnodion priodol, yn cael eu nodi ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, a roddir gan y Trysorlys ac a gyhoeddir yn *Managing Public Money*.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## *Datganiad Llywodraethu*

### Rhagair

Yn ystod 2015–16, y Prif Weithredwr, sef Carole Souter, oedd y Swyddog Cyfrifyddu. Ymddeolodd ar 2 Mai 2016. Fe'm penodwyd yn Brif Weithredwr Dros Dro o 3 Mai 2016 ac yn Swyddog Cyfrifyddu o'r dyddiad hwnnw. Drwy gydol 2015–16, roeddwn yn Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, felly rwyf yn gyfarwydd â'r trefniadau ar gyfer stiwardiaeth a rheolaeth yn y Gronfa. Yn ystod y trafodaethau trosglwyddo â'r Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu a oedd yn gadael, roeddwn yn fodlon ar gymhwyso'r system rheolaethau mewnol a oedd ar waith yn y Gronfa.

Ar 4 Gorffennaf 2016, bydd Ros Kerslake yn ymgymryd â swydd y Prif Weithredwr newydd ac fe'i penodir yn Swyddog Cyfrifyddu o'r dyddiad hwnnw.

### Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn grynodeb o'r trefniadau ar gyfer stiwardiaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG), gan gynnwys sut y rheolwn risg a sut y cydymffurfiwn â Chod Ymarfer Da 2011.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, mae'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedi pennu gofyniad i mi gyfrif ar wahân am fy nwy brif ffynhonnell incwm – cymorth grant ac arian a ddeillir o'r Loteri Genedlaethol. Rwyf hefyd yn atebol am gynnal system rheolaeth fewnol sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion CGDG, ar yr un pryd â diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau yr wyf i'n gyfrifol amdanynt yn bersonol. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn *Managing Public Money*.

Gweithredir Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri fel endid unigol gan y credaf fod hyn fwy effeithlon ac effeithiol. O ganlyniad, mae un strwythur llywodraethu ac mae'r datganiad hwn yn cwmpasu dosbarthiad grantiau cymorth grant a grantiau'r Loteri.


### Y strwythur llywodraethu

Amlinellir strwythur llywodraethu CGDG yn y diagram isod.

### Bwrdd Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am:

- roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;



- cymeradwyo dulliau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus;
- cymeradwyo cyllidebau gweinyddu a rhaglenni grant;
- goruchwylio'r rheolaeth gyffredinol ar weithgareddau CGDG; ac
- adrodd ar stiwardiaeth cyllid cyhoeddus.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel grŵp a chynhaliodd 11 o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn i osod polisi ar gyfer CGDG a gwneud penderfyniadau yn unol â'r polisi hwnnw. Mynychir y cyfarfodydd hyn gan y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli. Roedd cworwm ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn 2015–16. Syr Peter Luff yw cadeirydd CGDG a chynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd drwy gydol y flwyddyn rhwng y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr.

Fel arfer, mae'r Bwrdd yn cynnwys 15 Ymddiriedolwr, gan gynnwys y Cadeirydd. Drwy gydol 2015–16, rydym wedi aros am benodi Ymddiriedolwr newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon – mae'r dulliau ar gyfer recriwtio i'r swydd hon wedi cael eu cytuno erbyn hyn a disgwyliwn benodi iddi rywbryd yn ystod 2016–17. Yn y cyfamser, rydym wedi sefydlu trefniadau dros dro i ymdrin â'r absenoldeb hwn. Ers mis Chwefror 2015, rydym wedi bod heb Ymddiriedolwr ar gyfer Cymru ac, unwaith eto, wedi sefydlu trefniadau i ymdrin â'r swydd wag hon. Penodwyd y Farwnes Kay Andrews i'r swydd hon ar 1 Ebrill 2016.

Cyfradd presenoldeb gyffredinol yr Ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd oedd 97%. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo rhai o'u gorchwylion i'r tri phwyllgor a ddangosir uchod – mae'r pwyllgorau hyn yn goruchwylio gweithgareddau rheoli ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i uwch aelodau staff. Mae cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau yn eitemau sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd, ac mae cadeiryddion y pwyllgorau'n darparu adroddiad llawn ar eu gweithgareddau hefyd.

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd drwy gydol 2015–16 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Syr Peter Luff | 11 | 11 |
| Syr Neil Cossons OBE *o 31 Ionawr 2016* | 2 | 2 |
| Sandie Dawe CBE | 11 | 11 |
| Syr Roger De Haan CBE | 11 | 11 |
| Dr Angela Dean | 11 | 11 |
| Jim Dixon | 11 | 10 |
| David Heathcoat-Amory | 11 | 11 |
| Perdita Hunt OBE | 11 | 10 |
| Steve Miller | 11 | 11 |
| Richard Morris OBE | 11 | 10 |
| Atul Patel | 11 | 10 |
| Y Fonesig Seona Reid | 11 | 10 |
| Virginia Tandy *hyd at 31 Awst 2015* | 4 | 4 |
| Dr Tom Tew | 11 | 11 |

### Cyfansoddiad y Bwrdd

O'r 14 Ymddiriedolwr a fynychodd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn, roedd 36% yn fenywod a 64% yn ddynion. Roedd un (7%) yn dod o gefndir lleiafrif ethnig.

### Gwrthdaro buddiannau'r Bwrdd

Ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd, gofynnir i'r holl Ymddiriedolwyr a staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Nodir y rhain yn y cofnodion, ac mae'r Ymddiriedolwyr a'r staff yn tynnu'n ôl o drafodaethau'r Bwrdd ar y materion hynny. Mae Ymddiriedolwyr a staff hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion ar y Gofrestr Buddiannau yn cael eu cynnal a'u diweddaru fel y bo'r angen.

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cworwm ym mhob cyfarfod. Yn dilyn hyfforddiant y pwyllgor yn 2014–15, mae sawl eitem wedi cael eu rhoi ar waith i wella effeithiolrwydd y Pwyllgor ymhellach, ac mae'r rhain wedi parhau'n llwyddiannus drwy gydol 2015–16, er enghraifft cyfarfodydd preifat ag Ymddiriedolwyr a chyda'r archwilwyr cyn cyfarfodydd Pwyllgor, eitemau sefydlog ar gwblhau argymhellion Archwilio Mewnol ac eithriadau caffael.

Mynychodd y Prif Weithredwr bob cyfarfod Pwyllgor gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol – mynychodd uwch aelodau staff eraill fel y bo'r angen. Darperir gwasanaeth cefnogi i'r Pwyllgor gan yr Ysgrifenyddiaeth. Mae archwilwyr allanol (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a KPMG) ac archwilwyr mewnol (Moore Stephens) y Gronfa yn mynychu'r cyfarfod hefyd.

Cytunodd y Pwyllgor ar strategaeth archwilio tair blynedd gyda Moore Stephens ar adeg eu penodi ac adroddwyd ar yr adolygiadau a gynhaliwyd yn 2015–16 i'r Pwyllgor yn unol â'r dull strategol hwnnw. Cymeradwyir cynllun un flynedd manwl o adolygiadau archwilio mewnol bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y Pwyllgor adroddiadau ar:

- y porthol ymgeisio am grant
- mudo'r gweinydd TG
- y Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig (gwaith dilynol)
- rheoli risg (gwaith dilynol)
- monitro prosiectau
- llywodraethu wrth wneud penderfyniadau
- rheoli doniau a chynllunio ar gyfer olyniaeth
- datblygu strategaeth
- rheolaethau ariannol craidd

Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor ddau adolygiad arbenigol ar brosiectau sydd wrthi'n cael eu cyflawni ac sydd wedi cael eu cyflawni yng ngogledd-orllewin Lloegr.

Rhennir cofnodion cyfarfodydd ac adroddiad blynyddol ffurfiol ar fusnes y Pwyllgor â'r Bwrdd. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi diweddariad llafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu'r Adroddiadau Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Yn ystod 2015–16, ystyriodd y Pwyllgor y canlynol yn ogystal â'r adroddiadau a'r cyfrifon uchod:

- y trefniadau ar gyfer cyfuno'r prosesau rheoli risg newydd ar lefel adrannol
- achosion o dwyll a thwyll honedig, gan gynnwys erlyniad llwyddiannus
- trefniadau caffael, gan gynnwys unrhyw eithriadau i dendrau caffael arferol
- sicrwydd gwybodaeth a risgiau rheoli o adroddiad arbenigol

Roedd y prif faterion a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- diogelwch gwybodaeth, ymwybyddiaeth ac anghenion hyfforddiant
- system dosbarthu dogfennau a gwybodaeth
- perchenogaeth asedau gwybodaeth
- cydymffurfio â diogelu data
- prosesau rheoli gwybodaeth

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor drwy gydol 2015–16 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Dr Angela Dean *Cadeirydd* | 4 | 4 |
| Sandie Dawe CBE | 4 | 4 |
| Jim Dixon | 4 | 3 |
| David Heathcoat-Amory | 4 | 4 |

### Y Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau

Cyfarfu'r Pwyllgor deirgwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cworwm ym mhob cyfarfod. Fe'i cadeirir gan Ymddiriedolwr. Cyfarfu'r Pwyllgor bedwerydd gwaith hefyd fel y Pwyllgor Tâl er mwyn cytuno ar daliadau bonws perfformiad ar gyfer uwch aelodau staff.

Mynychodd y Prif Weithredwr bob cyfarfod Pwyllgor fel aelod. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau'n mynychu cyfarfodydd, ac felly hefyd uwch aelodau staff eraill fel y bo'r angen. Darperir gwasanaeth cefnogi i'r Pwyllgor gan yr Ysgrifenyddiaeth.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r rheolaethau staffio a recriwtio a arferir gan uwch reolwyr. Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y canlynol yn ystod y flwyddyn hefyd:

- cyfrifon rheoli a gwybodaeth am reolaeth ariannol (gan gynnwys targedau effeithlonrwydd)
- data perfformiad yn erbyn safonau gweithredol a gwasanaeth
- data rheoli perfformiad arall
- data am lefelau staffio a phersonél fel absenoldeb oherwydd salwch, gwariant ar hyfforddiant a datblygiad
- cynigion buddsoddi TG
- strategaethau gweithredol ar gyfer TG, Ystadau, Adnoddau Dynol a Chyllid

Cymeradwyodd y Pwyllgor y cyllidebau arfaethedig ar gyfer rhaglenni grant a gweinyddiaeth i'w cyflwyno i'r Bwrdd. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi argymell Cynllun Busnes 2016–17.

Rhennir cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor â'r Bwrdd, ac felly hefyd adroddiad ffurfiol chwemisol ar fusnes. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi diweddariad llafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r Pwyllgor.

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor drwy gydol 2015–16 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Atul Patel *Cadeirydd* | 3 | 3 |
| Syr Peter Luff | 3 | 3 |
| Syr Roger De Haan CBE | 3 | 3 |
| Perdita Hunt OBE | 3 | 3 |
| Carole Souter | 3 | 3 |

### Y Pwyllgor Cyfathrebu

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cworwm ym mhob cyfarfod. Fe'i cadeirir gan Ymddiriedolwr. Mae'r Pwyllgor yn cynghori ar y strategaeth gyfathrebu ac yn gweithredu fel seinfwrdd ar gyfer mentrau allweddol. Adolygodd y Pwyllgor y canlynol yn ystod y flwyddyn:

- negeseuon a statws y Loteri Genedlaethol
- gwaith Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol
- brandio ar gyfer gweithgareddau Cronfa Dreftadaeth y Loteri
- y Mynegai Treftadaeth a grëwyd gyda'r RSA

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor drwy gydol 2015–16 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Syr Peter Luff | 4 | 4 |
| Y Fonesig Seona Reid | 4 | 3 |
| Jim Dixon | 3 | 3 |
| Virginia Tandy | 2 | 2 |
| Dr Tom Tew | 2 | 2 |

### Dirprwyo'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau ar gyfer mathau a gwerthoedd penodol o ddyfarniadau grant i Bwyllgorau Gwledydd a Rhanbarthau. Mae 12 o'r pwyllgorau hyn ac mae pob un yn cynnwys un Ymddiriedolwr. Yn ychwanegol at wneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau, mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar flaenoriaethau yn eu maes, a gweithredant fel eiriolwyr ar gyfer gwaith y sefydliad fel corff dosbarthu'r Loteri. Mae Cadeiryddion Pwyllgorau Gwledydd a Rhanbarthau yn cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr, ynghyd ag uwch aelodau staff, ddwywaith y flwyddyn.

Mae aelodau newydd y pwyllgorau hyn yn cael sesiwn sefydlu ffurfiol gyda'r Prif Weithredwr ac uwch aelodau staff drwy gydol y flwyddyn, gan ddibynnu ar y cylch recriwtio a phenodi. Yn 2015–16, rhoddwyd un sesiwn sefydlu ffurfiol i sawl aelod newydd.

Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb gwneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau o dan £100,000 i staff, yn benodol Penaethiaid Gweithrediadau mewn gwledydd a rhanbarthau. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar effaith grantiau dirprwyedig ar draws yr holl bwyllgorau i'r Bwrdd. Caiff yr holl benderfyniadau a wneir gan Bwyllgorau a staff eu hadrodd i'r Bwrdd.

### Bwrdd Rheoli

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rheolaeth ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr. Cefnogir y Prif Weithredwr gan Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys yr holl gyfarwyddwyr a dirprwy

gyfarwyddwyr. Mae'r Bwrdd Rheoli'n cyfarfod yn wythnosol i gytuno ar gamau gweithredu ac ymatebion rheolwyr ynglŷn â materion gweithredu. Mae pob Cyfarwyddwr Adrannol yn rhoi adroddiad misol i'r Bwrdd ar weithgareddau a materion o fewn eu cylch gorchwyl. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r Fforwm Rheolwyr sy'n cynnwys uwch reolwyr a rheolwyr canol ac yn sicrhau bod penderfyniadau a chyfarwyddiadau'r Bwrdd yn cael eu cyfathrebu'n uniongyrchol i aelodau staff allweddol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys adroddiadau llafar ar weithgareddau ar draws pob adran yn ogystal â thrafodaethau ar faterion thematig sy'n effeithio ar bob tîm, er enghraifft rheoli risg a chynllunio busnes.

### Strwythur

Mae'r Prif Weithredwr yn gweithredu strwythur pedair adran, sef:

- Gweithrediadau
- Strategaeth a Datblygu Busnes
- Cyfathrebu
- Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r tîm Ysgrifenyddiaeth yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr.

Caiff y cynllun gweithredu blynyddol – y Cynllun Busnes – ei ddatblygu bob blwyddyn ochr yn ochr â chyllidebau ariannol a chynllunio rhaglenni grant. Fel y llynedd, gwnaethom integreiddio rheoli risg yn fwy i'r broses cynllunio busnes eleni hefyd. Trafodir y Cynllun Busnes gyda'n hadran noddi, sef y DCMS. Mae'r DCMS hefyd yn gosod cyfarwyddiadau polisi ac ariannol yr ydym wedi cydymffurfio â hwy yn ein gweithgareddau loteri. Mae Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi hefyd mewn perthynas â gweithgareddau loteri yn y gwledydd hynny, ac rydym wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hynny hefyd.

Rydym yn gweithredu yn unol â Chytundeb Rheoli a Memorandwm Ariannol rhyngom ni a'r DCMS. Ategir hyn gan gyfarfodydd rheolaidd â swyddogion y DCMS a Dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol. Yn 2016–17, disgwyliwn gael Adolygiad wedi'i Deilwra o'n gwaith, wedi'i arwain gan y DCMS. Disgwyliwn hefyd i'r Cytundeb Rheoli gael ei adolygu yn rhan o'r cylch llywodraethu arferol.

### Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae ein system rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach na dileu risg i bolisïau, nodau ac amcanion – felly, gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig yn hytrach na sicrwydd llwyr. Yn arbennig, credaf yn bendant na ddylai'r dull o reoli risg rwystro arloesedd na newid i fusnes, lle y bo'r angen. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i amlygu a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac i werthuso tebygolrwydd unrhyw risgiau a'u heffaith bosibl.

Caiff pob proses pennu polisi a phenderfynu ynglŷn â grantiau eu llywio gan ddiwylliant a dull rheoli risg CGDG. Yn 2014–15, archwiliodd y Bwrdd Rheoli ein dull rheoli risg yn rhan o ymarfer ehangach ynglŷn â sicrwydd ar draws CGDG. Yn 2015–16, gwnaethom ymsefydlu hyn ymhellach mewn adrannau unigol wrth i bob un ailadrodd y broses amlygu a rheoli risg. Erbyn hyn, mae gan bob adran ei chofrestr risg ei hun i gefnogi'r gofrestr risg gorfforaethol.

Mae'r cofrestrau a'r broses sy'n sail iddynt yn neilltuo perchennog risg sy'n atebol i'r Prif Weithredwr am reoli'r risg honno'n effeithiol. Mae'r cofrestrau hefyd yn amlygu risgiau cysylltiedig fel bod unrhyw 'effaith luoswr' yn cael ei hystyried. Mae hefyd yn gwahaniaethu rhwng y lefel risg 'gynhenid' (effaith a thebygolrwydd) a'r lefel risg 'weddilliol' fel bod modd barnu effeithiolrwydd rheolaethau a dulliau presennol ar gyfer lliniaru'r risg. Mae hynny hefyd yn caniatáu i'r perchennog risg nodi mesurau ychwanegol y mae eu hangen i ddod â'r risg o fewn yr archwaeth a'r dyddiadau penodol ar gyfer y camau gweithredu hynny.

Adolygodd y Bwrdd ei Archwaeth Risg ar gyfer 2016–17 hefyd, gan ei chynnal ar yr un lefel a chynnwys ag ar gyfer 2015–16.

Cydnabu'r Bwrdd hefyd y risgiau a'r heriau sy'n wynebu CGDG yn 2016–17, yn enwedig yn ei rôl dosbarthu arian loteri – disgwylir i'r rhain esblygu o'r prif risgiau ar gyfer 2015–16 fel y'u hamlinellir isod. Bydd rheoli risg yn effeithiol yn arbennig o bwysig yn y flwyddyn i ddod.

Cydnabyddwn hefyd y dylai risgiau a ystyriwyd yn briodol ac arloesedd i gyflawni amcanion CGDG gael eu hannog. Credaf fod y Gronfa'n dangos arloesedd yn ei dewis o ddyfarniadau grant ac nad yw'n mynd ati'n syml i wneud penderfyniadau sy'n rhydd o risg.

I'r perwyl hwn, rydym yn barod i dderbyn na fydd rhai o'r sefydliadau y rhown grantiau iddynt yn dangos cymhwysedd o ran gweinyddu'r grant. Rydym yn dysgu ein gwersi, yn gwella ein prosesau ac, mewn amgylchiadau prin, rydym yn diddymu'r grant. Mewn achosion lle yr amheuwn dwyll neu ymddygiad amhriodol, byddwn yn adrodd yr achos i'r heddlu er mwyn iddynt ymchwilio ymhellach. Myfi sy'n cymeradwyo pob diddymiad ac mae hyn yn fy ngalluogi i fonitro'r swm bob blwyddyn i gynnig sicrwydd am ein prosesau asesu a monitro.

Fel y gellir gweld o'r nodyn perthnasol i'r cyfrifon, mae'r lefel diddymu grantiau yn eithriadol o fach o gymharu â'r swm a ddosbarthwn bob blwyddyn. Ar y llaw arall, mae'r lefel uchel o ran bodlonrwydd cwsmeriaid a ddangoswyd mewn arolygon annibynnol yn awgrymu nad yw ein harferion gweithio'n rhy feichus i ymgeiswyr. O ganlyniad, gallaf ddod i'r casgliad nad oes unrhyw achos i bryderu ynglŷn â'r lefel risg sydd ymhlyg yn ein prosesau dyfarnu grantiau.

Yn 2015–16, roedd CGDG o'r farn mai'r canlynol yw'r meysydd risg mwyaf sylweddol:

- nid ystyrir ein bod yn diogelu treftadaeth yn effeithiol ar draws y Deyrnas Unedig
- risg i fuddsoddiad blaenorol y loteri o ganlyniad i leihad mewn cyllid/buddsoddiad neu newidiadau i fodelau gweithredu grantïon
- gallai datganoli olygu bod angen gwneud newidiadau i'n model busnes
- maint, amrywioldeb a chyfnewidoldeb llwythi gwaith

Mae gan bob un o'r risgiau hyn berchennog risg yn y Bwrdd Rheoli sy'n gyfrifol am reoli'r risg a sicrhau bod camau lliniaru priodol yn cael eu cymryd.

### Mannau Addoli Rhestredig: Cronfa Atgyweirio Toeon

Yn Natganiad yr Hydref, ym mis Rhagfyr 2014, ac yng Nghyllideb mis Mawrth 2015, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys y byddai Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gweinyddu cynllun grant ar gyfer Mannau Addoli Rhestredig ar draws y Deyrnas Unedig. Gwerth gwreiddiol rhan gyntaf y rhaglen oedd £30miliwn yn 2014–15 a chyhoeddwyd £25miliwn arall ar gyfer 2016–17.

Gwahoddwyd ceisiadau erbyn diwedd mis Chwefror 2016 ar gyfer yr ail rownd hon, a rheolwyd a derbyniwyd y rhain yn llwyddiannus. Er mwyn parhau i reoli risg y rhaglen ychwanegol hon, rydym wedi rhoi'r camau canlynol ar waith:

- parhau i benodi Cyfarwyddwr Rhaglen profiadol, ar lefel uchel, i reoli'r broses o'r dechrau i'r diwedd
- goruchwyliaeth agos gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau er mwyn darparu sicrwydd ychwanegol
- defnyddio staff profiadol sy'n ymwybodol o risg mewn swyddogaethau cymorth er mwyn helpu darpariaeth weithredol
- Cytundeb Cyllido ar wahân gyda'r DCMS
- defnyddio rheolaethau, prosesau a systemau presennol sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer y rhaglen hon

Caniataodd yr ymagwedd hon i ni gyflawni cam Rownd 2 y rhaglen yn llwyddiannus. Disgwylir cyhoeddi gwybodaeth am grantiau a phenderfyniadau yn yr haf 2016.

### Ymagwedd at risg gwybodaeth a thwyll

Mae gan CGDG bolisi twyll a adolygir yn flynyddol. Dilynodd pob aelod o staff CGDG Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Dwyll wedi'i deilwra yn 2015–16 a ddarparwyd gan dîm sicrwydd arbenigol

o Moore Stephens gyda chefnogaeth gan Dîm Cyllid CGDG. Canolbwyntiodd hyn ar risg twyll o ran:

- rhoi grantiau
- caffaeliadau
- meysydd twyll cyffredinol

Roedd yr hyfforddiant hefyd wedi amlygu meysydd risg twyll ar gyfer CGDG, a sut y gellid eu hamlygu a mynd i'r afael â hwy er mwyn lleihau risg twyll.

Yn 2014–15, gwnaethom wella'r trefniadau ymwybyddiaeth o risg a chasglu gwybodaeth gyda Dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol. Parhaodd hyn yn 2015–16 trwy rannu gwybodaeth yn well, cyfuno adnoddau ac ystyried defnyddio trydydd partïon arbenigol i amlygu risg twyll.

Yn 2015–16, gwnaed erlyniad llwyddiannus am dwyll a gyflawnwyd yn erbyn y Gronfa yn ei rôl loteri. Mae Gorchymyn Enillion Troseddau wedi'i wneud hefyd i adennill y symiau a gafwyd trwy dwyll. Mae ein hymagwedd 'dim goddefgarwch' yn parhau ynglŷn â thwyll.

Ym mis Tachwedd 2015, gofynnodd Swyddfa'r Cabinet i CGDG gymryd rhan yn ei Rhaglen Datgelu Twyll a Chamgymeriadau. Cytunodd CGDG y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan Moore Stephens i ategu'r Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Dwyll a'r rhaglen Archwilio Mewnol.

Archwiliodd yr adolygiad sampl o bob achos a oedd yn cael eu darparu rhwng 2014 a 2016, gan amlygu'r prif risgiau twyll a chamgymeriadau, defnyddio dull samplu unedau ariannol ac amlygu sampl o'r holl achosion ym mhob rhaglen. Profwyd y rhain yn helaeth.

Y prif ganfyddiadau oedd:

- Lefel isel o dwyll a chamgymeriadau ar draws y sampl, sy'n rhoi sicrwydd i ni ynglŷn â'n prosesau/rheolaethau presennol;
- Heb ystyried yr uchod, rhai awgrymiadau ar gyfer gwella'r broses o ddatgelu achosion o dwyll/camgymeriadau, y byddwn yn eu rhoi ar waith.

Mae gan CGDG bolisi risg gwybodaeth hefyd sy'n cydymffurfio â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a'r Fframwaith Polisi Diogelwch. Rhoddir arweiniad i bob aelod newydd o staff ar ddiogelwch gwybodaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth yn rhan o'u cyfnod ymsefydlu.

Yn ystod 2015–16, gwnaethom gynnal adolygiad arbenigol o sicrwydd a rheolaeth gwybodaeth. Roedd y canfyddiadau'n foddhaol ar y cyfan, ond canfuom nifer o faterion penodol y ceisiwn eu rhoi ar waith yn 2016–17.

Rydym hefyd yn cydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth ar faterion fel tryloywder gwariant, contractau ac ati. Gwnaethom barhau i wella rheolaethau a phrosesau caffael yn 2015–16.

#### Modelau sy'n bwysig i fusnes

Rwyf o'r farn ein bod yn cydymffurfio â'r argymhellion yn Adroddiad Macpherson. Barnaf ein bod yn defnyddio un model sy'n bwysig i fusnes – y rhagolwg llif arian a ddefnyddir i bennu cyllidebau dyfarnu grantiau blynyddol allan o'n hincwm Loteri Genedlaethol. Ceisiwn sicrhau ein bod yn dyfarnu'r lefel grantiau uchaf posibl heb y risg o redeg allan o arian ne orwario. Crëwyd y model tua 10 mlynedd yn ôl ac mae'n parhau ar ei ffurf wreiddiol i raddau helaeth, ac eithrio ymestyn ei oes weithredu. Mae'r model wedi'i ddefnyddio i ystyried senarios o wahanol lefelau incwm Loteri, cyfraniadau untro at y Gemau Olympaidd, a rhaglenni grant newydd arwyddocaol. Canfuom ei fod yn darparu rhagolwg rhesymol o'n cynaliadwyedd ariannol.

Yn 2014–15, yn seiliedig ar y model, creodd y Bwrdd Fframwaith Ariannol yn nodi cymarebau grant yn gysylltiedig â chyfanswm lefel yr ymrwymiadau, rhwymedigaethau gwirioneddol cymeradwy, incwm o'r Loteri Genedlaethol a'n balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG). Credwn felly fod y model a'r Fframwaith Ariannol yn darparu sail gadarn ar gyfer ein penderfyniadau dyfarnu grantiau. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r dull hwn yn 2015–16.

Caiff y model ei ddiweddaru bob blwyddyn i adlewyrchu'r amcanestyniadau diweddaraf o incwm y Loteri Genedlaethol a ddarperir gan y DCMS a'r alldro ariannol ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae'r model, gan gynnwys y Fframwaith Ariannol, hefyd yn destun prawf straen yn erbyn gwahanol senarios gan ddefnyddio'r paramedrau a osodir yn y Fframwaith Ariannol.

#### Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Y gweithgarwch mwyaf arwyddocaol i'r Bwrdd fu goruchwyliaeth barhaus o weithredu Fframwaith Strategol 4 (SF4), gan gynnwys cymhwyso SF4 i benderfyniadau'r Bwrdd. Yn ogystal, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad cylch canol o SF4 ac asesu'r amgylchedd gweithredu posibl yn y dyfodol a'r risgiau a allai ddod i'r amlwg yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Roedd hyn wedi caniatáu i'r Bwrdd benderfynu:

- Cyflwyno rhaglenni newydd yn 2016–17 i ymateb i anghenion y sector treftadaeth – gan gynnwys Gwaddolion Treftadaeth (sy'n ychwanegu at lwyddiant rhaglenni gwaddol blaenorol), Sgiliau ar gyfer y Dyfodol (sy'n ychwanegu at y model llwyddiannus blaenorol unwaith eto) a Threftadaeth Gydnerth (sy'n cyfuno rhaglenni blaenorol) a gynlluniwyd i gynyddu cynaliadwyedd sefydliadol yn y sector.
- Cyflwyno Rhaglen Pobl Ifanc newydd a fydd yn agor yn 2016–17 ar gyfer penderfyniadau yn 2017–18.
- Cytunodd y Bwrdd hefyd i ymestyn y Fframwaith Strategol cyfredol o 2018 am flwyddyn arall i 2019.

Mae'r cynnydd yn incwm y Loteri Genedlaethol ers 2012–13 wedi sefydlogi, ac roedd yr incwm yn 2015–16 ychydig yn fwy na'r disgwyl ar £387miliwn. Mae amcanestyniadau diweddaraf y DCMS yn awgrymu y bydd yr incwm yn parhau ar oddeutu'r lefel hon neu ychydig yn llai. O ystyried hyn, ac yn unol â'r Fframwaith Ariannol (gan gynnwys y balans yn y cyfrif CDdLG), cytunodd y Bwrdd i barhau i ordanysgrifio cyllideb grant y rhaglen o £434miliwn yn 2016–17 ond ei lleihau i ddod yn agosach at lefelau incwm yn y blynyddoedd dilynol.

Ni chododd unrhyw faterion a oedd yn achos pryder o unrhyw un o'r Pwyllgorau sy'n cefnogi'r Bwrdd. Roedd yr adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol yn ystod y flwyddyn.

Newidiodd aelodaeth y Bwrdd yn ystod 2015–16, ond nid cymaint ag yn ystod y flwyddyn flaenorol, gydag un Ymddiriedolwr yn gadael ei rôl ac un yn cael ei benodi. Mae hyn wedi golygu gostyngiad mewn trosiant ymhlith yr Ymddiriedolwyr.

Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad llawn o'i effeithiolrwydd trwy fodel hunanarfarnu ac adolygiad wedi'i hwyluso. Mae'r Bwrdd yn fodlon ei fod yn parhau i fodloni gofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol y Trysorlys.

Prif argymhellion yr adolygiad oedd:

- Strwythur, cyfansoddiad a sgiliau:
  - cynnal adolygiad o sgiliau holl aelodau'r Bwrdd
  - adolygu telerau penodi er mwyn rheoli'r cylch disodli'n well
  - parhau i archwilio ffyrdd o wneud y Bwrdd yn fwy amrywiol
- Rôl y Bwrdd mewn strategaeth a rhoi grantiau:
  - archwilio ffyrdd o leihau cyfarfodydd y Bwrdd i naw cyfarfod y flwyddyn
  - cefnogi diwrnod i ffwrdd strategol ar gyfer y Bwrdd
  - defnyddio siaradwyr allanol yn amlach yng nghyfarfodydd y Bwrdd
- Cyfarfodydd:
  - dosbarthu papurau'n gynharach ac ystyried defnyddio sianeli gwahanol
- Arweinyddiaeth:
  - penodi Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

Nid oedd unrhyw faterion o'r adroddiadau archwilio a roddwyd gerbron y Pwyllgor

Archwilio a Risg ar ran y Bwrdd a barodd unrhyw bryder iddo. O ganlyniad, cred y Bwrdd y gall ddibynnu ar y wybodaeth a'r sicrwydd a roddir ger ei fron gan reolwyr fel sail i'w holl benderfyniadau.

Mae pob Ymddiriedolwr newydd yn cael cyfnod sefydlu ar adeg eu penodi, sy'n amlinellu eu rhwymedigaethau a'u dyletswyddau fel Ymddiriedolwr, gwaith CGDG a'i systemau/prosesau. Mae hynny'n eu helpu i wneud cyfraniad llawn at waith y Bwrdd. Parheir â'r rhaglen sefydlu ffurfiol hon drwy raglen barhaus o ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi eraill i Ymddiriedolwyr. Caiff effeithiolrwydd Ymddiriedolwyr ei arfarnu gan y Cadeirydd yn rheolaidd.

### Y flwyddyn lywodraethu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol (Moore Stephens) a'r uwch reolwyr yn CGDG sy'n gyfrifol am sicrhau bod y fframwaith rheolaeth fewnol yn cael ei gynnal a'i weithredu'n effeithiol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Gosodir cytundebau perfformiad ar gyfer pob uwch aelod o staff ar ddechrau'r flwyddyn, sy'n amlinellu eu hamcanion personol a chorfforaethol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Cynllun Busnes a'n strategaeth. Fe'u hadolygir yn ffurfiol mewn adolygiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn. Rwyf hefyd yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol â Chyfarwyddwyr ar sail un i un drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Bwrdd Rheoli'n cyfarfod yn wythnosol ac mae Cyfarwyddwyr Adrannau'n cyfarfod yn rheolaidd hefyd.

Rwyf wedi gweld y Llythyr Rheoli a baratowyd gan yr archwilwyr allanol yn dilyn eu harchwiliad o'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016.

O ganlyniad i'w rhaglen waith yn ystod y flwyddyn, mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu barn a thystysgrif flynyddol o sicrwydd mewn perthynas â digonolrwydd y systemau a gweithrediad rheolaethau mewnol yn CGDG. Mae'r farn hon yn ardystio bod system ddigonol ac effeithiol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar waith i fynd i'r afael â'r risg na chyflawnir amcanion y rheolwyr yn llawn.

Cynhyrchodd yr archwilwyr mewnol strategaeth archwilio tair blynedd ar adeg eu penodi. Y llynedd oedd ail flwyddyn y cyfnod hwn a chynhaliwyd a chwblhawyd yr holl adolygiadau a fwriadwyd yn brydlon. Mae'r cynllun blynyddol yn deillio o'r strategaeth archwilio ac fe'i cysylltir â'r gofrestr risg a'r archwaeth risg.

Yn 2014–15, gwnaethom gyflwyno cyfarfodydd cyswllt newydd bob tri mis gyda'r archwilwyr mewnol er mwyn helpu i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun ac ailgyfeirio adnoddau i risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r rhain wedi parhau i gael eu defnyddio i fonitro sut mae'r rhaglen yn cael ei chynnal a'i datblygu. Gwnaethom hefyd gyflwyno rheolaethau newydd yn 2014–15 i wella atebolrwydd am adolygiadau archwilio a gweithredu argymhellion. Mae'r rhain wedi parhau yn 2015–16 ac mae argymhellion y disgwyliwyd iddynt gael eu rhoi ar waith yn 2015–16 wedi cael eu gweithredu'n foddhaol.

Trafodir holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhresenoldeb uwch aelodau o staff, gan gynnwys y rheiny yr adroddwyd ar eu hadrannau gan yr archwilwyr – mae hyn yn rhoi'r cyfle i mi ac aelodau'r Pwyllgor drafod yn fanwl y canfyddiadau, yr argymhellion a'r camau arfaethedig gan y rheolwyr. Lle y derbyniwyd argymhellion ar gyfer gwella neu gywiro, roedd yn ofynnol i Gyfarwyddwyr ddarparu ymateb gweithredu ac amserlen ar gyfer pob argymhelliad hefyd. Caiff yr argymhellion hyn eu holrhain a'u monitro gan yr adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r archwilwyr mewnol. Mae'r rhestr rheoli honno'n eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd.

Rwyf hefyd yn mynnu bod yr holl uwch reolwyr a rheolwyr canol yn llofnodi memoranda cynrychiolaeth blynyddol i mi, yn nodi eu cyfrifoldebau ac yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn 2015–16. Mae pob un o'r rheolwyr wedi llofnodi'r memorandwm ac maent yn ymwybodol fy mod yn dibynnu ar yr haeriadau hynny yn y datganiad hwn.

Ers mis Ebrill 2015, cyflwynwyd Llythyrau Awdurdodau Dirprwyedig ar gyfer pob Cyfarwyddwr sy'n amlinellu eu hawdurdodau dirprwyedig (ariannol, caffael ac ati) sydd i'w cytuno ar ddechrau'r flwyddyn, i ategu'r memorandwm ar ddiwedd y flwyddyn. Cwblhawyd y cylch hwn yn 2015–16.

Yn 2015–16, yn dilyn yr adolygiad Archwilio Mewnol blaenorol, gwnaethom archwilio ein trefniadau cynllunio parhad busnes. Gwnaethom gychwyn prawf pen desg o'n Cynlluniau Parhad Busnes, cynnal dadansoddiadau diwygiedig o'r effaith ar fusnes ar gyfer pob safle, a chyfuno'r rhain yn Gynlluniau Parhad Busnes newydd gyda threfniadau cyflenwol ar gyfer ein safleoedd wrth gefn a'n trefniadau ategol.

Er mwyn rheoli'r risg ymhellach, gwnaethom archwilio ein hystad gweinyddion TG a mudo i ystad fwy cadarn gyda gwell cydnerthedd a threfniadau wrth gefn.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith rheoli'r Gronfa yn rhoi i mi'r lefel sicrwydd y gofynnaf amdani. Nid oes unrhyw beth yr wyf yn ymwybodol ohono sy'n fy arwain i gredu bod ein systemau ar gyfer canfod ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro buddiannau, ar gyfer atal a chanfod twyll ac ar gyfer lleihau colledion cymorth grant a grantiau'r Loteri yn annigonol.

## Adroddiad Tâl a Staff

*Tâl y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr*

Roedd hawl gan bob Ymddiriedolwr i gael cyflog blynyddol am yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau CGDG. Yn ogystal, fe wnaeth CGDG ad-dalu costau teithio rhai Ymddiriedolwyr o'u cartrefi i'w swyddfa waith yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belfast. Roedd CGDG hefyd wedi darparu prydau bwyd i Ymddiriedolwyr ac aelodau Pwyllgorau Gwledydd a Rhanbarthau pan oeddent yn cynnal cyfarfodydd yn eu mannau cyflogaeth. Talodd y Gronfa'r rhwymedigaeth dreth ar y costau hyn. Ildiodd Syr Roger De Haan CBE ei hawl i dderbyn cyflog yn 2015–16.

Mae tâl yr Ymddiriedolwyr, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth ar hynny, yn cael ei rannu i'r bandiau yn y tabl isod. Caiff yr holl Ymddiriedolwyr eu penodi gan y Prif Weinidog. Cânt benodiad tair blynedd, y gellir ei adnewyddu am ail dymor. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau gan y Gronfa at gynllun pensiwn ar ran yr Ymddiriedolwyr.

Dyrannwyd holl dâl yr Ymddiriedolwyr rhwng CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri ar sail 1%: 99%. Cyfanswm tâl yr Ymddiriedolwyr yn 2015–16 oedd £162,440 (2014–15: £165,102). Caiff tâl a chontractau'r Ymddiriedolwyr eu trafod a'u gosod gan y DCMS. Nid yw eu contractau yn cynnwys unrhyw gymalau bonws. Ni roddwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau ac ni thalwyd unrhyw elfennau nad ydynt yn arian parod i'r Ymddiriedolwyr na'r cyfarwyddwyr.

## *Gwybodaeth archwiliedig*

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Syr Peter Luff<br>*Cadeirydd*<br>*o 30 Mawrth 2015* | **35–40** | 0 |
| Y Fonesig Jenny Abramsky<br>*Cadeirydd hyd*<br>*at 31 Awst 2014* | **0** | 15–20 |
| Y Fonesig Seona Reid<br>*Cadeirydd Dros Dro*<br>*o 1 Medi 2014 hyd*<br>*at 29 Mawrth 2015* | **25–30** | 30–35 |
| Manon Antoniazzi<br>*hyd at 11 Ionawr 2015* | **0** | 15–20 |
| Syr Neil Cossons OBE<br>*o 31 Ionawr 2016* | **0–5** | 0 |
| Sandie Dawe CBE | **5–10** | 5–10 |
| Dr Angela Dean | **5–10** | 5–10 |
| Syr Roger De Haan CBE | **0–5** | 0 |
| Jim Dixon<br>*o 1 Hydref 2014* | **10–15** | 5–10 |
| Kim Evans<br>*hyd at 21 Gorffennaf 2014* | **0** | 0–5 |
| David Heathcoat-Amory | **5–10** | 5–10 |
| Perdita Hunt OBE<br>*o 22 Gorffennaf 2014* | **5–10** | 0–5 |
| Hilary Lade<br>*hyd at 30 Medi 2014* | **0** | 5–10 |
| Steve Miller | **5–10** | 5–10 |
| Richard Morris OBE | **5–10** | 10–15 |
| Atul Patel | **10–15** | 10–15 |
| Virginia Tandy<br>*hyd at 31 Awst 2015* | **5–10** | 15–20 |
| Dr Tom Tew | **10–15** | 5–10 |

## *Tâl cyflogeion*

Y pensiwn cronedig yn y tabl isod yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd 60, neu ar unwaith os bydd yn peidio â bod yn aelod gweithgar o'r cynllun os yw eisoes yn 60. Yr oed pensiwn yw 60 i aelodau classic, premium a classic plus, a 65 i aelodau Nuvos. Mae aelodau alpha yn derbyn budd-daliadau ar eu hoedran pensiwn arferol, sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch).

Mae taliadau bonws sy'n daladwy i uwch reolwyr yn cael eu datgelu ar wahân yn unol â Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 359 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2013.

### Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd y budd-daliadau cynllun pensiwn a gronnir gan aelod ar adeg benodol. Y budd-daliadau a brisiwyd yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant pensiwn i sicrhau budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-dal pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo brynu budd-daliadau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir gwerthoedd CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fudd-daliadau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd y budd-daliadau pensiwn yn cael eu tynnu.

### Cynnydd real mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Mae'n

### *Tâl cyflogeion (Gwybodaeth archwiliedig)*

Roedd tâl y cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

| | **Cyflog 2015–16** (2014–15) **£'000** | **Bonws 2015–16** (2014–15) **£'000** | Cynnydd real mewn pensiwm a chyfan-daliad £'000 | **Cyfanswm 2015–16** (2014–15) **£'000** | Cyfanswm pensiwm cronedig yn 60 oed a a chyfan-daliad £'000 | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/03/16 £'000 | CETV ar 31/03/15* £'000 | Cynnydd real CETV wedi'i ariannu gan CGDG £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carole Souter<br>*Prif Weithredwr ymddeolodd 2 Mai 2016* | **135 i 140**<br>(135 i 140) | **5 i 10**<br>(5 i 10) | 0 i 2.5 a 2.5 i 5 o gyfan-daliad | **155 i 160**<br>(135 i 140) | 75 i 80 a 230 i 235 o gyfan-daliad | 1,742 | 1,616 | 9 |
| Eilish McGuinness<br>*Cyfarwyddwr Gweithrediadau o 1 Ionawr 2015* | **80 i 85**<br>(20 i25) | **0 i 5**<br>(0 i 5) | 2.5 i 5 a 10 i 15 o gyfan-daliad | **165 i 170**<br>(40 i 45) | 20 i 25 a 60 i 65 o gyfan-daliad | 384 | 291 | 65 |
| Judith Cligman<br>*Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Busnes* | **95 i 100**<br>(90 i 95) | **0 i 5**<br>(0 i 5) | 0 i 2.5 a 2.5 i 5 o gyfan-daliad | **125 i 130**<br>(115 i 120) | 35 i 40 a 110 i 115 o gyfan-daliad | 791 | 708 | 27 |
| Colin Bailey<br>*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol* | **100 i 105**<br>(80 i 85) | **0 i 5**<br>(0 i 5) | 0 i 2.5 a 0 o gyfan-daliad | **130 i 135**<br>(105 i 110) | 0 i 5 a 0 i 5 o gyfan-daliad | 49 | 20 | 20 |

* neu ar y dyddiad penodi, os yw'n hwyrach.

defnyddio ffactorau prisiad marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Roedd gan bob uwch gyflogai gontractau cyflogaeth parhaol ac roeddent yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (a adwaenir fel alpha). Dyrannwyd eu costau rhwng CDL a CGDG ar sail 99%: 1% (2014–15: 99%: 1%). Mae tâl uwch reolwyr yn gysylltiedig â pherfformiad. Mae'r swm yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn amcanion unigol a chyfraniad cyffredinol at strategaeth a nodau corfforaethol. Gosodir amcanion unigol i'r Prif Weithredwr gan Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr, ac mae'r Prif Weithredwr yn ei dro'n cytuno amcanion personol â'r cyfarwyddwyr swyddogaeth. Mae amcanion yn adlewyrchu nodau strategol a gweithredol y Gronfa a'r cyfraniad a ddisgwylir gan bob uwch reolwr unigol i gyrraedd y nodau. Mae gan y Gronfa system rheoli perfformiad ac mae perfformiad yn cael ei adolygu yn unol â hyn. Caiff perfformiad ei adolygu bob blwyddyn ym mis Mawrth/Ebrill yn unol â graddfa o bedair gwahanol lefel cyflawniad. Mae cynllun bonws ar gyfer y cyfarwyddwyr sy'n ystyried barn y Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau (nodir aelodaeth y pwyllgor hwn ar dudalen 13) am gyfraniad yr unigolyn tuag at lwyddiant ehangach y sefydliad, gyda chyfeiriad penodol at y ffordd y mae'n rheoli ei adran ei hun a'i effaith ar feysydd eraill; effaith yr unigolyn ar yr Ymddiriedolwyr a'u heffeithiolrwydd; ac unrhyw gyfraniad neu gyflawniad eithriadol yn ystod y flwyddyn na chafodd ei adlewyrchu yn yr amcanion allweddol ar gyfer y flwyddyn. Disgwylir i'r polisi hwn barhau yn y dyfodol. Penodir uwch reolwyr ar gontractau penagored gyda chyfnodau rhybudd heb fod yn fwy na chwe mis. Pe byddai angen ystyried taliadau terfynu, byddai'r Gronfa yn cadw'n llawn at reolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac unrhyw arweiniad cysylltiedig gan y Trysorlys neu'r DCMS.

### *Cymhareb tâl*

Un o ganlyniadau Adolygiad Tâl Teg Hutton yw ei bod yn ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas

rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf a thâl canolrif ein gweithlu.

Band tâl yr aelod staff cyfwerth ag amser llawn a dderbyniodd y cyflog isaf oedd £10,000 i £15,000. Band tâl y cyfarwyddwr a dderbyniodd y cyflog uchaf yn 2015–16 oedd £145,000 i £150,000, gan gynnwys taliad bonws. Roedd hyn tua 5.4 gwaith (2014–15: 5.6 gwaith) tâl canolrif y gweithlu, sef £27,059 (2014–15: £25,888). Nid oedd unrhyw gyflogeion a dderbyniodd dâl uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Roedd y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn amodol ar derfyn 1% y Llywodraeth ar godiadau cyflog.

*Pecynnau ymadael*

O dan delerau Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 296 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Mawrth 2011, mae'n ofynnol i CGDG gyhoeddi manylion yr holl becynnau ymadael a gytunwyd yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw. Yn dod o dan y diffiniad o becynnau ymadael y mae diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeoliad cynnar, iawndal am golli swydd, taliadau ex-gratia ac ati. Nid oedd unrhyw dâl yn 2015–16 (2014–15: dim).

*Costau a niferoedd staff*

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **8,646** | 8,635 |
| Taliadau YG y cyflogwr | **582** | 587 |
| Taliadau i gynllun pensiwn | **1,740** | 1,572 |
| Costau staff dros dro | **129** | 148 |
| | **11,097** | 10,942 |

Roedd nifer gyfartalog y cyflogeion yn gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri fel a ganlyn:

| **2015–16** | **Ceisiadau grant** | **Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** | **Strategaeth a Datblygu Busnes** | **Cyfathrebu** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 168 | 37 | 24 | 21 | 250 |
| Secondeion, staff contract a phrentisiaid | 15 | 3 | 1 | 1 | 20 |
| **Cyfanswm** | **183** | **40** | **25** | **22** | **270** |

| 2014–15 | Ceisiadau grant | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Strategaeth a Datblygu Busnes | Cyfathrebu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 157 | 33 | 23 | 19 | 232 |
| Secondeion a staff contract | 19 | 3 | 3 | 2 | 27 |
| Cyfanswm | 176 | 36 | 26 | 21 | 259 |

Nid yw staff dros dro a staff asiantaeth wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod gan nad yw ein systemau yn caniatáu ar gyfer casglu a chyfrifo ffigur cyfwerth ag amser llawn.

Roedd y rhaniad rhwng y rhywiau ymhlith ein staff dosbarthu arian y Loteri ar 31 Mawrth 2016, ar sail cyfrif pennau, fel a ganlyn:

| | Dynion | Menywod | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr | 1 | 3 | **4** |
| Staff | 71 | 214 | **285** |

*Absenoldeb oherwydd salwch*

Yn 2015–16, collwyd 1,175 o ddiwrnodau o ganlyniad i 326 o byliau o salwch. Mae hyn yn parhau i fod ar lefel gymedrol o 1.79% o'r holl ddiwrnodau gwaith (2014–15: 1.08%). Mae'r Gronfa'n parhau i gefnogi a hyrwyddo polisïau

lles trwy ddarparu cymorth i gyflogeion a buddiannau eraill cysylltiedig.

*Ymgynghori â chyflogeion*
Mae natur gweithrediadau'r Gronfa yn golygu bod staff sy'n prosesu ceisiadau grant yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae staff yn ymwneud â gwerthuso a monitro prosiectau, ac yn ymweld ag ymgeiswyr gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae llawer o aelodau staff yn mynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r ffordd o feddwl am ddatblygiad y Gronfa a'i gweithrediadau. Yn ogystal, mae uwch reolwyr yn sicrhau – drwy grynodebau o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli yn y briff craidd misol, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a lefel uchel o hygyrchedd personol – y gellir mynd i'r afael yn rhwydd â materion sy'n peri gofid i staff.

Mae'n hanfodol y caiff yr holl staff y cyfle i gyfrannu at ddatblygiad y Gronfa yn ogystal â chyflawni eu potensial eu hunain drwy ymgynghori a thrafod yn rheolaidd. I'r perwyl hwn, roedd Cyngor Staff yn bodoli yn ystod y rhan fwyaf o 2015. Roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob adran, a thrafododd faterion o ddiddordeb i staff, gyda chynrychiolwyr o'r rheolwyr. Fodd bynnag, cynhaliwyd pleidlais wirfoddol ymhlith staff ym mis Mawrth 2015 ynglŷn â ph'un a oeddent eisiau i'r rheolwyr gydnabod Undebau Llafur yn ffurfiol. Cymerodd 93% o staff ran, a phleidleisiodd 62% ohonynt o blaid cydnabod. Yn dilyn cyfnod o drafod gydag Undebau Llafur y PCS a'r FDA, llofnodwyd Cytundeb ar y Cyd cyn i'r gydnabyddiaeth ddod i rym ar 1 Ionawr 2016. Yn ogystal, comisiynodd y Gronfa ei harolwg ymgysylltu â chyflogeion cyntaf ym mis Mawrth 2016 wrth iddi barhau i geisio barn a safbwyntiau'r holl staff trwy ddeialog anffurfiol a ffurfiol.

*Cyfle cyfartal*

Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r Gronfa yn ymrwymedig i'w gofynion a'i rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995; Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Gronfa yn cymryd camau pendant i weithio tuag at gynyddu cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth roi grantiau, llywodraethu, a'r gweithlu, trwy ei blaenoriaeth gorfforaethol a'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn ei Chynllun Gweithredu ar Gynhwysiant.

Fel cyflogwr, mae CGDG yn cadw at ddeddfwriaeth cyfle cyfartal. Nid yw'r Gronfa yn gwahaniaethu yn erbyn staff nac ymgeiswyr cymwys am swyddi gwag ar sail rhyw, statws priodasol, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, cred grefyddol, anabledd, oedran na chyfeiriadedd rhywiol. Cymerir pob cam posibl i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg a bod penderfyniadau am recriwtio, dewis, hyfforddi, dyrchafu a rheoli gyrfa yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol sy'n gysylltiedig â'r swydd yn unig. Nid yw CGDG yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth. Mae'r Gronfa'n croesawu ceisiadau swydd gan bobl ag anableddau ac rydym yn parhau i ddilyn y Cynllun Tic Dwbl Anabledd, ac ar hyn o bryd mae oddeutu 3.3% (2014–15: 4.7%) o'n gweithlu yn bobl ag anableddau datganedig. Mae hysbysebion recriwtio'r Gronfa yn parhau i annog ceisiadau am swyddi gan grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan gydnabod nad yw ei gweithlu'n gwbl gynrychioliadol o amrywiaeth leol neu genedlaethol eto. Mae gofyn i'r holl staff gydweithredu i wneud i'r polisi hwn weithio'n effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Grŵp Gweithredu Anabledd y Staff wedi cyfarfod ac wedi parhau i wahodd elusennau dethol i roi cyflwyniadau i'r staff. Fe wnaeth niferoedd da fynychu'r cyfarfodydd hyn, ac mae'r fformat yn sicrhau bod cydweithwyr yn y swyddfeydd rhanbarthol a gwledig yn gallu bod yn bresennol trwy fideo-gynadledda. Rhoddodd cynrychiolwyr o raglen Anabledd Leonard Cheshire gyflwyniad i'r Gronfa cyn i swyddfa Llundain groesawu intern Newid 100 am dri mis. Ym mis Ionawr, rhoddodd cynrychiolwyr o Newid Lle gyflwyniad i'r Gronfa ar ôl mynd i gynhadledd Treftadaeth Gynhwysol ar dreftadaeth ac anabledd yn Oriel Tate Modern ym mis Hydref 2015.

*Gwariant ar ymgynghorwyr*
Gwariodd CGDG £477,000 ar ymgynghorwyr yn 2015–16 (2014–15: £352,000) mewn perthynas â'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. Mae CGDG wedi defnyddio'r diffiniadau o ymgynghorwyr a geir yn atodiad 6.1 canllaw rheolaethau Swyddfa'r Cabinet: fersiwn 4.0. Roedd bron pob rhan o'r gwaith ymgynghorol hwn yn ymwneud ag ymchwil a gynhaliwyd ar ein rhaglenni grant a'r sector treftadaeth.

*Trefniadau treth cyflogeion y sector cyhoeddus*
Mae'r Trysorlys yn mynnu bod pob corff llywodraeth ganolog yn adrodd ar faterion treth uwch reolwyr a chontractwyr hirdymor. Yn benodol, mae'r Trysorlys yn mynnu bod pob uwch reolwr ar y gyflogres ac yn talu treth o dan y cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE). Mae'r holl uwch aelodau staff, yr holl Ymddiriedolwyr a holl aelodau'r pwyllgor gwledydd a rhanbarthau ar gyflogres CGDC ac felly'n talu treth a chyfraniadau yswiriant gwladol trwy'r cynllun PAYE. Yn 2014–15, gwnaethom nodi dau gontractwr nad oedd eu hincwm yn bodloni canllawiau Trysorlys EM a chymerwyd camau i sicrhau eu bod bellach yn cydymffurfio. Nid oedd y naill na'r llall o'r contractwyr yn dal swyddi uwch.

*Rhwymedigaethau pensiwn*
Mae'r Gronfa yn gwneud cyfraniadau at gynlluniau pensiwn staff. Heblaw am wneud y taliadau hyn, nid oes gan y Gronfa unrhyw rwymedigaethau pensiwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Nodiadau i'r Cyfrifon.

**Colin Bailey**
Prif Weithredwr a
Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro

30 Mehefin 2016

## Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio

*Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban*
Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol gweithgareddau dosbarthu arian Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad Incwm/(Gwariant) Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a osodwyd allan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a Staff y dywedir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

### Cyfrifoldebau priodol yr Ymddiriedolwyr, y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr, sef y Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

### Cwmpas yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatgan perthnasol, pa un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: ba un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau gweithgareddau dosbarthu arian Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth

Genedlaethol, ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan weithgareddau dosbarthu arian Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysonderau o bwys â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd i weld yn anghywir i raddau mawr yn seiliedig ar y wybodaeth a gaffaelwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n anghyson i raddau mawr â'r wybodaeth a gaffaelwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau o bwys amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm yr adroddwyd amdanynt yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

#### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

#### Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion gweithgareddau dosbarthu arian Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2016 a'i Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan y ddeddf honno.

#### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

#### Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gylch mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu nid yw datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn oddi wrth ganghennau na ymwelodd fy staff â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae'n ofynnol i mi eu cael ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio ag arweiniad Trysorlys Ei Mawrhydi.

#### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas CE Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

1 Gorffennaf 2016

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SWIW 9SP

## Y Datganiadau Ariannol

# Datganiad o Incwm/(Gwariant) Net Cynhwysfawr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | £'000 | 2015–16 £'000 | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol | 9 | | **384,665** | 360,626 |
| Incwm buddsoddiad CDdLG | 9 | | **1,569** | 1,578 |
| | | | **386,234** | 362,204 |
| Ychwanegu: swm a drosglwyddwyd o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon | 9 | | **0** | 29,734 |
| | | | **386,234** | 391,938 |
| Llog sy'n dderbyniadwy | | **57** | | 54 |
| Incwm amrywiol | 2 | **1,264** | **1,321** | 44 |
| **Cyfanswm incwm** | | | **387,555** | 392,036 |
| Dyfarniadau grant newydd | 11 | **(380,955)** | | (456,709) |
| Dadymrwymiadau grant | 11 | **14,103** | | 19,273 |
| | | | **(366,852)** | (437,436) |
| Costau staff | 18 | **(11,097)** | | (10,942) |
| Dibrisiad ac amorteiddiad | 6 a 7 | **(588)** | | (448) |
| Costau gweithredu eraill | 3 | **(8,604)** | | (8,421) |
| | | | **(20,289)** | (19,811) |
| **Cyfanswm gwariant** | | | **(387,141)** | (457,247) |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredol** | | | **414** | (65,211) |
| **Gwariant cynhwysfawr arall** | | | | |
| Elw net ar ailbrisio asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | 17 | | **0** | 0 |
| Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 | | | | |
| | | | **414** | (65,211) |

Mae'r holl ffigurau a ddangosir yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 36 i 60 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Cronfa wrth gefn gwerth teg £'000 | Cronfa wrth gefn gyffredinol £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2014 | 0 | (330,291) |
| | | |
| Newidiadau mewn ecwiti yn 2014–15 | | |
| Rhyddhau cronfa wrth gefn gwerth teg i'r cyfrif wrth gefn cyffredinol | 0 | 0 |
| Elw net ar ailbrisio buddsoddiadau | 0 | |
| Diffyg a gadwyd | | (65,211) |
| Balans ar 31 Mawrth 2015 | 0 | (395,502) |
| | | |
| **Newidiadau mewn ecwiti yn 2015–16** | | |
| Rhyddhau cronfa wrth gefn gwerth teg i'r cyfrif wrth gefn cyffredinol | 0 | 0 |
| Elw net ar ailbrisio buddsoddiadau | 0 | |
| Gwarged a gadwyd | | 414 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | **0** | **(395,088)** |

Mae'r gronfa wrth gefn gwerth teg yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad y balans yn CDdLG (gweler nodyn 9). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad asedau anniriaethol ac eiddo, peiriannau ac offer (gweler nodiadau 6 a 7 i'r cyfrifon) yn berthnasol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 36 i 60 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
ar 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau sefydlog anniriaethol | 6 | **543** | 635 |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 7 | **951** | 883 |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Buddsoddiadau – balans yn CDdLG | 9 | **594,904** | 565,998 |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 8 | **3,718** | 3,250 |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian | | **3,368** | 318 |
| | | **601,990** | 569,566 |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau** | | **603,484** | 571,084 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau gweinyddol | 10 | **(2,534)** | (2,466) |
| Ymrwymiadau grant mewn blwyddyn | 11 | **(352,518)** | (309,716) |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **248,432** | 258,902 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Ymrwymiadau grant sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn | 11 | **(643,520)** | (654,404) |
| | | | |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **(395,088)** | (395,502) |
| | | | |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Cronfa wrth gefn gwerth teg | 17 | **0** | 0 |
| | | | |
| Cyfrif wrth gefn cyffredinol a ddygwyd ymlaen | | **(395,502)** | (330,291) |
| Trosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn gwerth teg | | **0** | 0 |
| Symudiad yn y flwyddyn | | **414** | (65,211) |
| Cyfrif wrth gefn cyffredinol a gariwyd ymlaen | | **(395,088)** | (395,502) |
| | | **(395,088)** | (395,502) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 36 i 60 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Syr Peter Luff**
Cadeirydd

**Colin Bailey**
Prif Weithredwr Dros Dro

30 Mehefin 2016

# Datganiad Llifoedd Arian
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian a dynnwyd i lawr o CDdLG | 9 | **357,328** | 337,313 |
| Arian o ffynonellau eraill | 2 | **1,264** | 44 |
| Arian a dalwyd i gyflogeion ac ar eu rhan | | **(10,974)** | (10,785) |
| Llog a dderbyniwyd ar gyfrifon banc | | **57** | 54 |
| Arian a dalwyd i gyflenwyr | | **(9,127)** | (8,402) |
| Arian a dalwyd i dderbynyddion grant a benthyciadau | 11 | **(334,934)** | (318,756) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | 14a | **3,614** | (532) |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol | 14b | **(564)** | (475) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian a symiau cyfwerth ag arian** | | **3,050** | (1,007) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 36 i 60 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Cysoni Llifoedd Arian Net i Symudiad mewn Cronfeydd Net
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|---|
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian a symiau cyfwerth ag arian yn y cyfnod | | **3,050** | (1,007) |
| **Newidiadau mewn arian a symiau cyfwerth ag arian** | 14c | **3,050** | (1,007) |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian ar 1 Ebrill 2015 | | **318** | 1,325 |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar 31 Mawrth 2016** | | **3,368** | 318 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 36 i 60 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Nid oes unrhyw safonau a dehongliadau dan sylw, ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto, y mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl y byddant yn cael effaith sylweddol ar incwm ac asedau net CGDG na'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

### a) Confensiwn cyfrifyddu

Llunnir y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac a gymeradwywyd gan y Trysorlys. Cânt eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 2006 a Chanllaw Adrodd Ariannol (FREM) Trysorlys EM, i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol, a Chyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FREM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Mae Cyfarwyddyd Cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn eithrio'n benodol paratoi cyfrifon cyfunol ac mae'n mynnu defnyddio cyfrifyddu croniadau ar gyfer dyfarniadau.

Mae copïau o'r cyfarwyddiadau cyfrifon cymorth grant a dosbarthu arian y Loteri ar gael gan Ysgrifennydd y Bwrdd, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

Pan fo'r FREM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig CGDG at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol gan nad oes gan CGDG unrhyw reswm i gredu bod gan y DCMS unrhyw gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu arian y Loteri ar gyfer y sector treftadaeth ac felly mae'r Ymddiriedolwyr yn cymryd y byddant yn parhau i dderbyn cyllid gan y Loteri.

### b) Asedau anghyfredol

Diffinnir asedau anghyfredol fel yr eitemau hynny a brynwyd at ddefnydd hirdymor CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri a phan fo cyfanswm y gost uwchlaw £2,000. Darperir dibrisiad ar sail llinell syth ar yr holl asedau anghyfredol, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu dal o dan brydlesi cyllid, ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost neu brisiad pob ased yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Mae'r oesoedd hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo prydles fer | – oes y brydles; |
| Offer swyddfa | – 4–10 mlynedd; |
| Gosodiadau swyddfa | – 4–10 mlynedd; |
| Asesu grantiau a meddalwedd arall | – hyd at 5 mlynedd. |

Ni chaiff unrhyw gostau wedi'u cynhyrchu'n fewnol eu cyfalafu. Mae dibrisiad yn cychwyn yn y mis ar ôl i'r ased gael ei roi ar waith.

### c) Dyrannu costau ac adrodd segmentaidd

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 8 yn pennu gofyniad bod gwybodaeth yn cael ei darparu ar adroddiadau segmentaidd pan fydd hyn yn berthnasol i weithgareddau'r sefydliad. Pan fo'n briodol, byddai uwch reolwyr yn nodi ffrydiau gweithgarwch ar wahân ac yn aseinio costau gweithredol iddynt ar sail pro rata yn seiliedig ar lefel y grant a ddyfarnwyd, oni bai

bod gwahaniaeth sylweddol yn y modd y cafodd y ceisiadau eu prosesu, ac os felly, byddai dulliau ad hoc yn cael eu defnyddio.

Mae CGDG yn cyfrif ar wahân am ei gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri, y mae'n ofynnol i ni ei wneud o dan ein Cyfarwyddyd Cyfrifon y Loteri. Mae'r cyfrifon ar gyfer CGDG yn gwahanu ei hincwm a'i gwariant rhwng ein gweithgarwch CGDG safonol a hwnnw a geir trwy weithredu'r Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol a rennir rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae gofyn i CGDG ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â *Managing Public Money* a gyhoeddir gan y Trysorlys. Mae'r dosraniad cost hwn yn ceisio adlewyrchu cyfran benodol yr amser a'r costau a ymrwymwyd i bob gweithgaredd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd i'n gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri oedd 99% (2014–15: 99%).

### ch) Trethiant

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod CGDG yn statudol eithriedig o dan adran 507 Deddf Treth Incwm a Threth Gorfforaethol 1988. Nid yw CGDG yn gallu adennill Treth Ar Werth (TAW) a godir arni a chaiff y gost TAW gynhwysol ei chynnwys o dan y disgrifiadau gwariant perthnasol yn y cyfrifon hyn.

### d) Pensiwn

Caiff cost reolaidd darparu budd-daliadau ei chodi ar y Datganiad o Incwm/(Gwariant) Net Cynhwysfawr yn ystod oesoedd gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae bron pob aelod o'n staff yn aelodau o PCSPS neu'r Cynllun Pensiwn Gwasanaeth Sifil ac Eraill sydd newydd ei greu, ac mae Swyddfa'r Cabinet yn rhoi gwybod am ganran y tâl pensiynadwy cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Gweler nodyn 5 am ragor o fanylion.

### dd) Prydlesi

Codir y rhent blynyddol ar brydlesi gweithredol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth yn ystod cyfnod y brydles. Pan fydd gan brydlesi sylwedd prydlesi cyllid, a'u bod yn berthnasol, ymdrinnir â nhw fel prydlesi cyllid. Caiff eitemau o dan brydlesi cyllid eu cyfalafu ar eu cost amcangyfrifedig, heb gynnwys unrhyw log a godwyd gan y prydleswr. Codir taliadau llog sy'n ddyledus o dan delerau cytundeb y brydles i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar ddyddiad pob taliad o dan y brydles.

### e) Balansau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG)

Mae'r balansau sy'n cael eu dal yn CDdLG yn parhau o dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw ddylanwad dros y modd y caiff y symiau hyn eu buddsoddi. Mae cyfran y balansau hyn i'w phriodoli i Ymddiriedolwyr CGDG fel y dangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, wedi'i thystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei bod ar gael i'w dosbarthu gan yr Ymddiriedolwyr o ran ein hymrwymiadau cyfredol ac yn y dyfodol. Caiff y gronfa wrth gefn gwerth teg ei haddasu ar gyfer unrhyw elw neu golled ar ailbrisio balans y CDdLG a adroddir i ni gan y DCMS. Datgelir yr addasiad yn y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti. Ychwanegir unrhyw elw neu golled gan y CDdLG wrth waredu buddsoddiadau at werth y CDdLG.

### f) Penderfyniadau Grant

Cydnabyddir dyfarniadau grant fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Pan nad oes angen cydnabod rhwymedigaethau mwyach – oherwydd nad oes ar y prosiect

sy'n cael ei ariannu angen yr holl arian a neilltuwyd iddo o dan y contract grant – rydym yn lleihau gwerth y rhwymedigaethau sy'n weddill. Mae'r holl rwymedigaethau grant yn daladwy yn syth wrth dderbyn ceisiadau dilys am eu talu.

Mae ymrwymiadau fel y'u diffinnir gan Gyfarwyddyd Cyfrifon cynharach gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002 – nid yw'r Cyfarwyddyd Cyfrifon cyfredol yn cyfeirio atynt. Mae ymrwymiadau'n cynrychioli cytundeb mewn egwyddor gan yr Ymddiriedolwyr i ariannu prosiect treftadaeth. Rydym yn eu trin fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn nodyn 12 i'r cyfrifon oherwydd eu bod yn cynrychioli rhwymedigaeth bosibl arwyddocaol y mae'n rhaid i ni ei hystyried wrth wneud penderfyniadau am lefel yr adnoddau sydd ar gael. Ceir dau fath o ymrwymiad:

1) pan fydd y penderfyniad terfynol i ddyfarnu grant wedi'i wneud, ond nid oes contract wedi'i lofnodi eto gyda'r sawl sy'n derbyn y grant. Pan ystyrir bod contract grant yn ei le, disgrifir yr ymrwymiad fel rhwymedigaeth lawn.
2) pan gaiff pas rownd gyntaf neu bas cam cyntaf ei roi i brosiect treftadaeth. Er bod cyllid yn destun ail benderfyniad yn yr amgylchiadau hyn, mae'r ail benderfyniad hwn yn debygol iawn o fod yn un cadarnhaol, ac felly credwn ei bod yn ddoeth ystyried y pas rownd gyntaf neu'r pas cam cyntaf fel ymrwymiad ar yr adeg hon.

Nid ystyriwyd ceisiadau a dderbyniwyd o dan ein trydydd Cynllun Strategol (1998–2013) i'r rhaglen Grantiau Treftadaeth a'r rhaglen Parciau i Bobl yn ymrwymiadau ar adeg y pas rownd gyntaf. Roedd hyn oherwydd bod Ymddiriedolwyr yn disgwyl gwrthod cyfran sylweddol o geisiadau ar adeg yr ail rownd. Roedd pasiau rownd gyntaf a oedd yn weddill o'r cyfnod hwnnw yn dal heb eu cydnabod fel ymrwymiadau tan 2014–15. Gweler nodyn 12 i gael gwybodaeth am werth y penderfyniadau rownd gyntaf hyn nad ydynt eto wedi'u trosi'n ddyfarniadau neu eu tynnu'n ôl.

Mae dadymrwymiadau'n digwydd pan nad yw ymrwymiad yn cael ei droi'n rhwymedigaeth lawn – fel arfer gan fod y sawl sy'n derbyn y grant yn penderfynu peidio ag ymgymryd â'i brosiect.

### i) Benthyciadau

Mae hawl gan yr Ymddiriedolwyr i wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan Gyfarwyddiadau Ariannol y Loteri Genedlaethol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae cyfraddau llog a thelerau ad-dalu fel y gwêl yr Ymddiriedolwyr yn ddoeth.

### j) Cynlluniau grant ar y cyd

Lle mae CGDG yn gweithredu cynllun grant ar y cyd, yn rhannol ar ran sefydliadau eraill (ar hyn o bryd, Parciau i Bobl gyda'r Gronfa Loteri Fawr), nid ydym yn cydnabod symiau a dderbyniwyd gan y cyrff hyn fel incwm. I bob pwrpas, caiff arian a dderbynnir gan y cyrff hyn, yn syml, ei drosglwyddo i grantïon neu gyflenwyr. Felly, rydym ond wedi cynnwys cyfran CGDG o daliadau grant cynlluniau yn y cyfrifon hyn gan ein bod wedi trosglwyddo cyfran y Gronfa Loteri Fawr i'r grantî. Yn yr un modd, rydym ond wedi datgelu cyfran CGDG o wariant gweithredol ar gyfer y cynlluniau hyn, ac wedi trosglwyddo unrhyw gyllid ar gyfer gwariant gweithredol a dderbyniwyd gan y Gronfa Loteri Fawr i'r cyflenwyr.

## 2. Incwm amrywiol

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu grantiau | **1,264** | 44 |

Gwnaethom dderbyn £800,000 gan yr Amgueddfa Fagnelaeth Frenhinol oherwydd bod y grantî wedi symud i safle arall. Gwerthodd Birmingham Community Foundation Ltd eiddo a oedd yn rhan o brosiect yr oeddem yn ei ariannu ac rydym yn adfachu £258,000. Ad-dalodd Cyngor Swydd Gaerlŷr £146,000 gan eu bod wedi cau amgueddfa yr oeddem ni'n helpu i'w hariannu. Roedd naw swm bach arall.

## 3. Gwarged gweithredol

Mae'r gwarged gweithredol wedi'i datgan ar ôl codi'r canlynol:

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl yr archwilydd | **39** | 39 |
| Taliadau o dan brydlesi gweithredol | | |
| – safleoedd prydles | **1,171** | 946 |
| – llogi offer swyddfa | **13** | – |

Mae dadansoddiad o gostau gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod, fel a ganlyn:

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Llety | **1,522** | 1,597 |
| Post a ffôn | **523** | 440 |
| Cyflenwadau swyddfa, argraffu a deunydd ysgrifennu | **561** | 666 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – Ymddiriedolwyr | **109** | 106 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – staff | **458** | 383 |
| Ffioedd proffesiynol – cysylltiedig â grant | **2,485** | 2,606 |
| Ffioedd proffesiynol – heb fod yn gysylltiedig â grant | **1,562** | 1,262 |
| Cyfathrebu | **731** | 780 |
| Offer swyddfa | **303** | 300 |
| Hyfforddiant staff | **216** | 161 |
| Costau amrywiol | **134** | 120 |
| | **8,604** | 8,421 |

## 4. Costau a ailgodir

Fel y crybwyllwyd yn nodyn 1 i'r cyfrifon hyn, mae gofyn i CGDG ddatgelu ei gweithgareddau Loteri ar wahân yn ei chyfrifon dosbarthu arian y Loteri. Mae llawer o'r costau cyffredinol yr aethpwyd iddynt yn y brif swyddfa yn Llundain o fantais i'n gweithgareddau cymorth grant a'n gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd i weithgareddau dosbarthu arian y Loteri oedd 99% (2014–15: 99%). Mae'r holl weithgareddau cymorth grant yn digwydd yn y brif swyddfa yn Holbein Place, Llundain. Mae costau gweithredu'r holl swyddfeydd eraill yn cael eu hailgodi'n llawn ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

## 5. Pensiynau

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil ar 1 Ebrill 2015 – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, roedd yr holl weision sifil newydd eu penodi a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth wedi ymuno ag alpha. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn cymryd

rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i'r PCSPS: tair sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu budd-daliadau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu ac mae cost y budd-daliadau'n cael ei thalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Roedd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai hynny a oedd rhwng 10 mlynedd, a 13 blynedd a 5 mis, o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd budd-daliadau PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', a bydd budd-daliadau'r rhai hynny sydd â budd-daliadau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. Caiff aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant budd-daliadau diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau classic (ac aelodau alpha a oedd yn aelodau classic yn syth cyn ymuno ag alpha), a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau premium, classic plus, nuvos a holl aelodau eraill alpha. Mae budd-daliadau yng nghynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 80 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer premium, mae budd-daliadau'n cronni ar gyfradd o 1 rhan o 60 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas, mae classic plus yn amrywiad o premium, ond gyda budd-daliadau o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â chynllun classic, a budd-daliadau am wasanaeth ar ôl y dyddiad hwnnw'n cael eu cyfrifo fel yn y cynllun premium. Yn y cynllun nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff y cyfrif pensiwn a enillodd yr aelod ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Mae budd-daliadau alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, heblaw am y ffaith mai'r gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis cymudo pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae CGDG yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% hyd at 30 Medi 2015 a rhwng 8% a 14.75% o 1 Hydref 2015 (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o gyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 i dalu cost yswiriant budd-dal risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad yn sgil salwch).

Ar hyn o bryd, mae saith aelod o staff sy'n gweithio ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri sydd â chyfrif pensiwn partneriaeth.

Ni wnaeth yr un aelod o staff ymddeol yn gynnar ar sail iechyd yn ystod 2015–16.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran ymddeol, neu'n union ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, a 65 ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (p'un bynnag sydd uchaf) ar gyfer aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer cyfarwyddwyr yn yr Adroddiad Tâl a Staff yn dangos pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Pan fo gan y cyfarwyddwr fudd-daliadau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol ei fudd-daliadau yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedran gwahanol.

Gellir gweld mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan *www.civilservicepensionscheme.org.uk*

Er bod y cynlluniau'n gynlluniau â budd-daliadau wedi'u diffinio, mae rhwymedigaeth i dalu budd-daliadau yn y dyfodol yn gost i'r PCSPS neu alpha. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a sicrheir gan y PCSPS ac alpha yn talu cost sicrhad pensiwn a ddarperir i'r staff a gyflogant drwy dalu costau a gyfrifir ar sail gronnus. Ar gyfer 2015–16, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £1,740,237 (2014–15: £1,571,959) i'r PCSPS ac alpha ar y cyfraddau a nodir yn y tabl isod. Caiff cyfraniadau cyflogwr eu hadolygu bob pedair blynedd ar ôl prisiad cynllun llawn gan actwari'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu budd-daliadau wrth iddynt gronni, nid pan achosir y costau mewn gwirionedd, ac yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Cyfrifwyd taliadau'r cyflogwr ar sail bandiau cyflog, yn unol â'r hyn a geir ar wefan Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

| **Cyflog yn 2015–16** | **% yn 2015–16** |
|---|---|
| £22,000 ac is | 20.0% |
| £22,001–£45,000 | 20.9% |
| £45,001–£75,000 | 22.1% |
| £75,001 ac uwch | 24.5% |

## 6. Asedau sefydlog anniriaethol

| | Gwefan | | Technoleg Gwybodaeth | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | 456 | 381 | 2,018 | 1,805 | 2,474 | 2,186 |
| Ychwanegiadau | – | 75 | 147 | 213 | 147 | 288 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **456** | **456** | **2,165** | **2,018** | **2,621** | **2,474** |
| Amorteiddio ar ddechrau'r flwyddyn | 283 | 250 | 1,556 | 1,442 | 1,839 | 1,692 |
| Cost am y flwyddyn | 69 | 33 | 170 | 114 | 239 | 147 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **352** | **283** | **1,726** | **1,556** | **2,078** | **1,839** |
| Gwerth llyfr net | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 173 | 131 | 462 | 363 | 635 | 494 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **104** | **173** | **439** | **462** | **543** | **635** |

Mae cyfalafu technoleg gwybodaeth yn cynrychioli datblygu ffurflenni cais electronig a system rheoli asesiadau ceisiadau. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli costau a anfonebwyd i CGDG gan ddatblygwyr meddalwedd. Nid oes unrhyw gostau a gynhyrchwyd yn fewnol wedi'u cyfalafu. Mae ychwanegiadau wedi'u hamorteiddio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig, sef diwedd cyfnod disgwyliedig ein Fframwaith Strategol gwreiddiol; h.y. hyd at 31 Mawrth 2018.

Mae cyfnod y fframwaith wedi cael ei ymestyn i fis Mawrth 2019, ond ni wnaed unrhyw addasiad i amcangyfrif oes asedau oherwydd disgwylir y bydd llawer o'r feddalwedd yn cael ei hamnewid yn ystod 2018–19 i baratoi ar gyfer y fframwaith newydd.

Mewn adolygiad o werthoedd cost cyfredol asedau sefydlog anniriaethol, ar 31 Mawrth 2016, ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth sylweddol i werthoedd cost hanesyddol. Felly, nid oes unrhyw addasiad wedi'i wneud i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol asedau sefydlog anniriaethol.

## 7. Eiddo, peiriannau ac offer

| | Eiddo prydles fer | | TG ac offer arall | | Ffitiadau swyddfa | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **1,052** | 1,166 | **2,218** | 2,104 | **81** | 81 | **3,351** | 3,351 |
| Ychwanegiadau | **85** | 35 | **332** | 152 | **–** | – | **417** | 187 |
| Gwarediadau | **–** | (149) | **(14)** | (38) | **–** | – | **(14)** | (187) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **1,137** | 1,052 | **2,536** | 2,218 | **81** | 81 | **3,754** | 3,351 |
| Dibrisiad ar ddechrau'r flwyddyn | **733** | 774 | **1,667** | 1,517 | **68** | 63 | **2,468** | 2,354 |
| Cost am y flwyddyn | **114** | 108 | **230** | 188 | **5** | 5 | **349** | 301 |
| Addasiad wrth waredu | **–** | (149) | **(14)** | (38) | **–** | – | **(14)** | (187) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **847** | 733 | **1,883** | 1,667 | **73** | 68 | **2,803** | 2,468 |
| Gwerth llyfr net | | | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **319** | 392 | **551** | 587 | **13** | 18 | **883** | 997 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **290** | 319 | **653** | 551 | **8** | 13 | **951** | 883 |

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mewn adolygiad o werthoedd cost cyfredol ar 31 Mawrth 2016, ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth o bwys i werthoedd cost hanesyddol. Felly, ni wnaed unrhyw addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mae gwerth eiddo, peiriannau ac offer yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. Ar hyn o bryd, y rhaniad hwn yw 99% ar gyfer Cronfa'r Loteri ac 1% ar gyfer cymorth grant (gweler hefyd nodyn 4).

### Prydlesi cyllid

Roedd rhai o'r eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu dal o dan brydlesi cyllid, fel y dangosir yn y tabl isod. Cynhwysir y ffigurau yn y tabl uchod.

| TG ac offer arall | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **7** | 45 |
| Ychwanegiadau | **–** | – |
| Gwarediadau | **(7)** | (38) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **–** | 7 |
| Dibrisiad ar ddechrau'r flwyddyn | **6** | 35 |
| Taliadau am y flwyddyn | **1** | 9 |
| Addasiad wrth waredu | **(7)** | (38) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **–** | 6 |
| Gwerth llyfr net | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **1** | 10 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **–** | 1 |

Y rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid yw:

| TG ac offer arall | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau am brydlesi sy'n dod i ben mewn blwyddyn | **–** | 1 |
| Symiau am brydlesi sy'n dod i ben ym mlynyddoedd dau i bump | **–** | – |
| | **–** | 1 |

Cynhwysir y rhwymedigaethau hyn yn y symiau sy'n daladwy (gweler nodyn 12).

## 8. Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **3,528** | 2,961 |
| Benthyciadau | **100** | 100 |
| Symiau eraill sy'n dderbyniadwy | **48** | 153 |
| Blaensymiau staff | **42** | 36 |
| | **3,718** | 3,250 |

Mae'r benthyciad gyda sefydliad treftadaeth ac mae'n ad-daladwy mewn dwy gyfran yn 2018 a 2023. Nid oes unrhyw log yn cael ei godi ar y benthyciad. Mae swm o £12,000 yn ddyledus mewn mwy nag un flwyddyn gan un cyflenwr (2014–15: £0).

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan 44 aelod o staff flaensymiau cyflogres yn ddyledus (ar 31 Mawrth 2015, roedd 45).

## 9. Buddsoddiadau

Symudiadau balansau yn CDdLG:

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Cost gyfredol ar ddechrau'r flwyddyn | **565,998** | 511,372 |
| Incwm a gafwyd gan y Loteri Genedlaethol | **384,665** | 360,626 |
| Cyllid a dynnwyd i lawr gan CGDG | **(357,328)** | (337,313) |
| Cyllid a drosglwyddwyd i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd | **–** | 29,734 |
| Adenilliad buddsoddiad | **1,569** | 1,578 |
| Elw heb ei wireddu ar fuddsoddiad | **–** | – |
| **Cost gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn** | **594,904** | 565,998 |

Yn 2014–15, derbyniasom £29.7miliwn o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd, sy'n cynrychioli ein cyfran o'r arian a oedd ar ôl yn y Gronfa honno wrth ei dirwyn i ben. Cyfrannodd CDL oddeutu £160miliwn tuag at gost Gemau Olympaidd Llundain 2012.

Nid oes unrhyw rwymedigaeth i drethiant ar enillion a wireddir gan CGDG. Y DCMS sy'n buddsoddi'r arian hwn ac sy'n dirprwyo rheolaeth i'r Comisiynwyr dros Leihau'r Ddyled Genedlaethol, sy'n ychwanegu eu hadenillion at y balans cyffredinol sy'n cael ei ddal. Nid oes gan Ymddiriedolwyr CGDG unrhyw reolaeth ar bolisi buddsoddi. Mae'r datganiad o bolisïau cyfrifyddu yn cynnwys mwy o wybodaeth am y mater hwn.

## 10. Symiau sy'n daladwy: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau gweithredol sy'n daladwy | **690** | 414 |
| Symiau eraill sy'n daladwy gan gynnwys trethiant a nawdd cymdeithasol | **401** | 406 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **1,443** | 1,646 |
| | **2,534** | 2,466 |

Ni sicrhawyd unrhyw un o rwymedigaethau CGDG. Gellir dadansoddi'r balansau gweithredol a balansau symiau eraill sy'n daladwy fel a ganlyn:

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog | **492** | 407 |
| Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | **7** | 1 |
| Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus | **–** | – |
| Balansau allanol i lywodraeth | **592** | 412 |
| | **1,091** | 820 |

## 11. Ymrwymiadau grant

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn | **964,120** | 845,440 |
| Ymrwymiadau newydd a grëwyd yn ystod y flwyddyn | **380,955** | 452,376 |
| Ymrwymiadau a etifeddwyd o'r DCMS o ran Catalydd | **–** | 4,333 |
| Ymrwymiadau na chânt eu cydnabod mwyach | **(14,103)** | (19,273) |
| Taliadau grant | **(334,934)** | (318,756) |
| **Cariwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn** | **996,038** | 964,120 |

Mae'r balans ymrwymiadau grant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n debygol o gael eu talu i ymgeiswyr yn y cyfnodau canlynol:

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn blwyddyn | **352,518** | 309,716 |
| Mewn dwy flynedd | **284,137** | 248,147 |
| Mewn tair blynedd | **180,280** | 155,868 |
| Mewn pedair blynedd | **96,680** | 83,022 |
| Mewn pum mlynedd | **50,289** | 43,096 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | **32,134** | 124,271 |
| | **996,038** | 964,120 |

Mae ymrwymiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus fel a ganlyn:

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog | **75,135** | 100,597 |
| Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | **402,177** | 365,686 |
| Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus | **–** | 95 |
| Balansau sy'n ddyledus i ymddiriedolaethau'r GIG | **9** | 13 |
| Balansau allanol i lywodraeth | **518,717** | 497,729 |
| | **996,038** | 964,120 |

## 12. Rhwymedigaethau digwyddiadol

### Ymrwymiadau

| | 2015–16 £'000 | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn | **571,817** | 577,654 |
| Ymrwymiadau a wnaed | **467,997** | 461,486 |
| Dadymrwymiadau | **(24,416)** | (14,947) |
| Ymrwymiadau newydd a grëwyd yn ystod y flwyddyn | **(380,955)** | (452,376) |
| **Balans a gariwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn** | **634,443** | 571,817 |

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn cynrychioli ymrwymiadau, sef gwerth pasiau rownd un a roddwyd gan Ymddiriedolwyr. Pan fydd yr ymgeisydd yn dychwelyd gyda'r cais rownd dau, bydd yr eitemau hyn naill ai'n dod yn ddyfarniadau grant neu'n cael eu gwrthod.

Mewn blynyddoedd blaenorol, pan wnaethom ddatgelu lefel yr ymrwymiadau yn y nodiadau i'r cyfrifon, gwnaethom eithrio rhai penderfyniadau a wnaed yn ystod cyfnod ein trydydd Cynllun Strategol (2008–13) am resymau technegol. Yn 2014–15, ystyriwyd bod amgylchiadau wedi newid a'i bod bellach yn briodol cynnwys y penderfyniadau hyn yn y ffigurau uchod.

## 13. Ymrwymiadau prydles

Mae cyfanswm yr ymrwymiadau sy'n ddyledus a gafwyd gan weithgareddau dosbarthu arian y Loteri CGDG o dan brydlesi gweithredol fel a ganlyn:

| | 2015–16 £'000 | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| **Eiddo prydles fer** | | |
| Yn dod i ben ymhen blwyddyn | **1,412** | 1,230 |
| Yn dod i ben ym mlynyddoedd dau i bump | **4,473** | 4,573 |
| Yn dod i ben y tu hwnt i bum mlynedd | **3,096** | 4,044 |
| | **8,981** | 9,847 |
| **Prydlesi gweithredol eraill** | | |
| Yn dod i ben ymhen blwyddyn | **8** | 5 |
| Yn dod i ben ym mlynyddoedd dau i bump | **7** | 10 |
| Yn dod i ben y tu hwnt i bum mlynedd | **–** | – |
| | **15** | 15 |

Roedd ein prydles ar gyfer Holbein Place, Llundain, yn destun adolygiad rhent ar 30 Medi 2014. Cynyddodd hyn y rhent i £850,000 y flwyddyn. Rydym yn aros am adolygiad rhent ar gyfer ein swyddfeydd yng Nghaeredin a Manceinion.

Daeth prydles ein swyddfa flaenorol yng Nghaergrawnt i ben ar 31 Mawrth 2015. Rydym wedi adleoli i safle arall yng Nghaergrawnt erbyn hyn. Mae gennym Femorandwm Telerau Meddiannu (Moto) gyda Chyllid a Thollau EM hyd at 31 Mawrth 2018.

Ym mis Mai 2011, llofnododd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) isbrydles ar gyfer y rhan fwyaf o lawr cyntaf ein prif swyddfa yn 7 Holbein Place, Llundain. Roedd yr isbrydles hon am oddeutu 13 o flynyddoedd a bydd yn arwain at daliadau rhent i CGDG gwerth cyfanswm o £1.9miliwn – y bydd rhan fach ohono'n cael ei ddyrannu i weithgareddau CGDG nad ydynt yn ymwneud â dosbarthu arian y Loteri. Nid yw'r derbyniadau disgwyliedig oddi wrth CCC wedi'u didynnu o'r ymrwymiadau a ddatgelir yn y tabl uchod.

Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 17 yn pennu gofyniad i brydlesi eiddo gael eu rhannu rhwng eu helfennau tir ac adeiladau. Nid oes unrhyw raniad wedi'i wneud yn y ffigurau uchod ar gyfer eiddo prydles fer gan mai bach iawn o dir sydd o dan y prydlesi hyn.

Nid oes gan CDL unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer, nac ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar eu cyfer.

## 14. Nodiadau i'r Datganiad Llifoedd Arian

### a) Cysoni gwarged gweithredol i fewnlif arian o weithgareddau gweithredu

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) gweithredol | **414** | (65,211) |
| Ychwanegu'n ôl eitemau nad ydynt yn arian: | | |
| – dibrisiad | **588** | 448 |
| – colled wrth waredu asedau sefydlog anniriaethol ac eiddo, peiriannau ac offer | **–** | – |
| – symudiad yn y gronfa wrth gefn gwerth teg | **–** | – |
| – cynnydd yn y gronfa wrth gefn ymrwymiadau grant | **31,918** | 118,680 |
| – cynnydd yn y balans yn CDdLG | **(28,906)** | (54,626) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau di-log sy'n dderbyniadwy | **(468)** | 250 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau di-gyfalaf sy'n daladwy | **68** | (73) |
| Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu | **3,614** | (532) |

### b) Gwariant cyfalaf

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol | **147** | 288 |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau ac offer | **417** | 187 |
| | **564** | 475 |

### c) Dadansoddi newidiadau mewn cyllid net

| | Ar 1 Ebrill 2015 £'000 | Llifoedd arian £'000 | **Ar 31 Mawrth 2016 £'000** |
|---|---|---|---|
| Arian yn y banc | 318 | 3,050 | **3,368** |

## 15. Trafodion partïon perthynol

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan y DCMS. Ystyrir bod y DCMS yn barti perthynol. Yn ystod y flwyddyn, mae CGDG (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri) wedi cael trafodion arwyddocaol amrywiol, heblaw am ddyfarnu grantiau, â'r DCMS ei hun ac â thri endid yr ystyrir mai'r DCMS sy'n eu noddi – sef y Gronfa Loteri Fawr, Sport England a Historic England.

Gwnaethom lofnodi prydles gyda'r DCMS ym mis Mawrth 2015 i barhau i feddiannu ein swyddfa yn Birmingham hyd at fis Mai 2018. Cyfanswm disgwyliedig y gwariant o dan y cytundeb yw £123,000 ac roedd £26,925 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2016.

Cyfrannodd y Gronfa Loteri Fawr tuag at y grantiau a wnaed o dan ein rhaglen Parciau i Bobl, a hefyd tuag at gostau gweithredu'r rhaglen honno. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan y Gronfa Loteri Fawr ddyled o £2,808,781 i CGDG, sef £93,879 ar gyfer costau gweithredu a £2,714,902

ar gyfer eu cyfran o daliadau grant. Hefyd, talom y Gronfa Loteri Fawr am nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn; yn fwyaf nodedig, darparu gwasanaethau cyfreithiol a chaffael. Talom oddeutu £61,000 iddynt yn ystod y flwyddyn, ac roedd gennym £13,365 yn ddyledus iddynt ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ogystal, gweithredodd y Gronfa Loteri Fawr y rhaglen grant Dathlu'r Alban, a weithredir ar ran nifer o ddosbarthwyr arian y Loteri. Talom £9,740 iddynt tuag at gost gweinyddu'r rhaglen. Gwnaethom secondio aelod o staff i'r Gronfa Loteri Fawr yn dechrau ym mis Mawrth 2015. Rydym wedi codi £58,451 arnynt yn ystod y flwyddyn. Nid oedd unrhyw arian yn ddyledus ganddynt ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwnaethom gyfraniad, yn dod i gyfanswm o £11,386, i Sport England am gost cydlynydd Fforwm y Loteri. Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Defnyddiom Engish Heritage i ddarparu cyngor arbenigol a gwasanaethau mentora ar gyfer rhai o'n grantiau, £8,747 yn 2015–16; roedd £3,392 yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Gwnaethant ddarparu £5,000 o ymchwil ar werthuso datblygu capasiti i ni hefyd. Yn ogystal, mae English Heritage yn parhau i weithredu ein rhaglen Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli yn Lloegr. Gwnaethom eu had-dalu am daliadau grant a wnaed ar ein rhan. Daeth y rhain i gyfanswm o £4,191,000 yn 2015–16. Nid oedd unrhyw beth yn ddyledus iddynt ar ddiwedd y flwyddyn.

Yn ogystal, cafwyd trafodion o bwys gyda Swyddfa'r Cabinet, gwerth £7,151 – gwnaethant weinyddu pensiynau ar ein rhan; nid oedd unrhyw beth yn ddyledus iddynt ar ddiwedd y flwyddyn – a'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (a noddir gan yr Adran Drafnidiaeth), gwerth £6,326 – rydym yn rhannu ein swyddfa yn Birmingham gyda nhw ac fe roesant rywfaint o gymorth technegol i ni; unwaith eto, nid oedd unrhyw beth yn ddyledus iddynt ar ddiwedd y flwyddyn.

Rydym wedi secondio aelod o staff i Gynulliad Cymru. Rydym wedi codi £20,118 arnynt yn ystod y flwyddyn. Nid oedd unrhyw arian yn ddyledus i ni ar ddiwedd y flwyddyn.

Rydym wedi secondio aelod o staff i'r Cyngor Prydeinig. Rydym wedi codi £1,285 arnynt yn ystod y flwyddyn ac roedd ganddynt £1,285 yn ddyledus i ni ar ddiwedd y flwyddyn.

Yn 2011, llofnododd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) isbrydles ar gyfer y rhan fwyaf o lawr cyntaf swyddfeydd CGDG, yn 7 Holbein Place, Llundain. Mae CCC yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir ar y cyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, DEFRA, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Oddeutu 13 mlynedd yw hyd yr isbrydles hon, a bydd yn arwain at daliadau rhent i CGDG gwerth cyfanswm o £1.9miliwn. Yn ogystal, bydd CCC yn gwneud cyfraniadau at gost rhedeg Holbein Place o ryw £70,000 y flwyddyn ar lefelau prisiau 2015–16. Ar 31 Mawrth 2016, roedd ar CCC ryw £14,800 yn ddyledus i ni am daliadau gwasanaeth.

Fel y nodir isod, roedd gan Ymddiriedolwyr CGDG fuddiannau mewn cyrff y gwnaed grantiau Loteri iddynt gan CGDG. Yn yr un modd, roedd gan aelodau'r Pwyllgorau Gwledydd a Rhanbarthau fuddiannau mewn prosiectau a gafodd grantiau Loteri gan eu pwyllgor neu gymeradwyaethau i fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor ddatgan unrhyw gysylltiad ag ymgeiswyr ar ddechrau pob cyfarfod a pheidio â mynychu unrhyw ran o'r cyfarfod hwnnw lle mae'r cais hwnnw am grant yn cael ei drafod. Ni chymerant unrhyw ran yn y penderfyniad ynglŷn â dyfarnu grant nac unrhyw benderfyniad dilynol a wneir ynglŷn â'r grant hwnnw. Mae yna reolau llym hefyd yn ymwneud â'r amgylchiadau pryd y gall Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor dderbyn gwaith am dâl gan y sawl sy'n derbyn grant. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon na wnaeth yr unigolion ddylanwadu ar y broses benderfynu mewn unrhyw achos.

Bydd trafodion partïon perthynol wedi digwydd yn 2015–16 hefyd, ar ffurf taliadau grant yn ymwneud â dyfarniadau a wnaed ac a ddatgelwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gan fod y trafodion partïon perthynol hynny wedi'u datgelu'n flaenorol, ni chânt eu hailadrodd yma.

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

### Yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Bost ar gyfer yr Amgueddfa a'r Archif Bost Brydeinig

Cynnydd grant o £730,000 i wneud cyfanswm grant o £5,229,300 – Prosiect Canolfan Newydd yr Amgueddfa a'r Archif Bost Brydeinig yn Mount Pleasant.
Datganodd Dr Angela Dean wrthdaro buddiannau â'r Amgueddfa a'r Archif Bost Genedlaethol gan ei bod yn aelod o'i Phwyllgor Cyllid ac Archwilio.

### Cyngor Tref Folkestone

Grant o £1,950,000 – Folkestone's HEART
Datganodd Syr Roger De Haan wrthdaro buddiannau oherwydd bod ei sefydliad elusennol wedi cyfrannu arian cyfatebol i'r prosiect.

### The Tate

Grant o £1,510,100 – Caffael Le Passeur gan William Stott o Oldham
Datganodd y Fonesig Seona Reid wrthdaro buddiannau gan ei bod yn un o ymddiriedolwyr y Tate.

### Cinema City Ltd

Cynnydd grant o £43,000 i wneud cyfanswm grant o £541,000 – Norfolk at the Pictures
Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau gan ei fod yn Bennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk ac y byddai'r ymgeisydd yn gwahodd Amgueddfa Norfolk i gyflwyno tendr am rywfaint o gymorth cynllunio.

### Cyngor Sir Norfolk

Grant o £36,600 a phas rownd gyntaf o £448,000 – Marriots Way
Datganodd Steve Miller fuddiant gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Gyngor Sir Norfolk yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk.

### Cyngor Sir Norfolk

Grant o £16,200 – Norfolk Trails Heritage Rangers
Datganodd Steve Miller fuddiant gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Gyngor Sir Norfolk yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk.

### Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Archaeoleg Norfolk

Cynnydd grant o £119,700 i wneud cyfanswm grant o £348,700 – SHAREd Enterprise: developing business minded museums
Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau gan ei fod yn Bennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk.

### Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk

Grant o £81,000 – Olive Edis – Britain's First Official Female War Photographer
Datganodd Steve Miller fuddiant gan ei fod yn Bennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk.

### YMCA Norfolk

Grant o £47,100 – Y-Heritage – Sharing the story of YMCA Norfolk thoughout its 160 year history
Datganodd Steve Miller fuddiant gan ei fod yn Bennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk, a fyddai'n helpu i gynorthwyo'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan ac yn darparu un o'r lleoliadau ar gyfer yr arddangosfa.

**Ymddiriedolaeth Eglwysi Hanesyddol Norwich**
Grant o £68,400 – Historic Landscape and Contemporary Culture: Exploring Norwich's Medieval Churches Today
Datganodd Steve Miller fuddiant gan fod yr uwch archaeolegydd yn ei weithle yn cynorthwyo'r ymgeisydd trwy eu grŵp llywio.

**Prifysgol Dwyrain Anglia a Chymdeithas Treftadaeth Paston**
Grant o £13,000 a phas rownd gyntaf o £328,200 – Paston Footprints
Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk, oherwydd bod Swyddfa Cofnodion Norfolk yn cael ei henwi'n bartner yn y prosiect.

**Cyngor Argyll a Bute**
Grant o £109,700 a phas rownd gyntaf o £1,999,400 – Rothesay Townscape Heritage
Datganodd Dr Tom Tew wrthdaro buddiannau gan ei fod yn berchen ar eiddo yn yr ardal sy'n destun y cais.

**Plant mewn Amgueddfeydd**
Grant o £28,900 – Teen Take – Ffilm gan bobl ifanc yn eu harddegau ynglŷn â'r hyn maen nhw eisiau ei weld mewn amgueddfa
Datganodd Sandie Dawe fuddiant gan ei bod yn Gadeirydd Plant mewn Amgueddfeydd.
Datganodd Steve Miller fuddiant gan ei fod yn Bennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk, sy'n bartner yn y prosiect hwn.

**Plant mewn Amgueddfeydd**
Grant o £33,300 – How I See It – Ffilm gan bobl ifanc yn eu harddegau ynglŷn â'r hyn maen nhw eisiau ei weld mewn Amgueddfa yn Ne-ddwyrain Lloegr
Datganodd Sandie Dawe fuddiant gan ei bod yn Gadeirydd Plant mewn Amgueddfeydd.

**Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd**
Grant o £496,600 – The Pocklington Canal – A Gem In The Landscape
Datganodd Syr Neil Cossons fuddiant gan ei fod yn Gadeirydd Grŵp Cynghori ar Dreftadaeth yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd.

**Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd**
Grant o £680,000 – Carpenter's Road Lock – Heritage from the shadow of the Queen Elizabeth Olympic Park
Datganodd Syr Neil Cossons fuddiant gan ei fod yn Gadeirydd Grŵp Cynghori ar Dreftadaeth yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd.

**Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd**
Grant o £74,600 a phas rownd gyntaf o £1,552,400 – Restoring and Revealing the Wendover Arm Canal for Local Communities
Datganodd Syr Neil Cossons fuddiant gan ei fod yn Gadeirydd Grŵp Cynghori ar Dreftadaeth yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd.

**Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd**
Grant o £75,000 – Saul Junction Lock, Gateway to the River Severn
Datganodd Syr Neil Cossons fuddiant gan ei fod yn Gadeirydd Grŵp Cynghori ar Dreftadaeth yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd.

**Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
Grant o £225,400 a phas rownd gyntaf o £1,998,200 – The Roundhouse, Birmingham
Datganodd Syr Neil Cossons fuddiant gan ei fod yn Gadeirydd Grŵp Cynghori ar Dreftadaeth yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd.

### Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

Grant o £36,300 – 127 Mileposts – A celebration of the Leeds Liverpool Canal Bicentenary 2016
Datganodd Syr Neil Cossons fuddiant gan ei fod yn Gadeirydd Grŵp Cynghori ar Dreftadaeth yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd.

## (Aelodau'r Pwyllgor)

### Eglwys Gadeiriol Lincoln

Grant o £909,700 a phas rownd gyntaf o £12,365,800 – Lincoln Cathedral Connected
Datganodd David Stocker fuddiant gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynghori ar Adeiledd Eglwys Gadeiriol Lincoln ac wedi rhoi cyngor i'r ymgeisydd ar y cais.
Datganodd Jean MacIntyre fuddiant gan ei bod yn gweithio i Brifysgol yr Esgob Grosseteste, sy'n sefydliad partner.

### Ymddiriedolaeth Treftadaeth Swydd Lincoln

Grant o £273,400 a phas rownd gyntaf o £2,118,500 – Save the Old King's Head, Boston
Datganodd David Stocker wrthdaro buddiannau gan ei fod yn Gadeirydd Pwyllgor Cynghori a Chyswllt Ymddiriedolaeth Treftadaeth Swydd Lincoln.

### Cyngor Eglwys Blwyfol Ingoldsby

Grant o £125,000 – Eglwys Blwyf Sant Bartholomew, Ingoldsby – prosiect atgyweirio a threftadaeth
Datganodd David Stocker fuddiant gan ei fod yn ymwybodol o'r achos yn rhinwedd ei rôl fel aelod o Bwyllgor Cynghori Esgobaethol Lincoln ar gyfer Gofal Eglwysi, a oedd wedi trafod y cynigion a rhoi cyngor.

### Luton Culture

Grant o £1,822,900 – Amgueddfa Parc Wardown
Datganodd Maggie Appleton wrthdaro buddiannau o ganlyniad i'w rôl flaenorol fel Prif Weithredwr Luton Culture.

### Ymddiriedolaeth Treftadaeth Awyrennau'r Rhyfel Byd Cyntaf

Grant o £9,900 – i weithio gyda Cholegau Essex i ymchwilio i hyfforddwr peilotiaid y Rhyfel Byd Cyntaf a'i ail-greu
Datganodd Maggie Appleton fuddiant o ganlyniad i'w rôl fel Prif Swyddog Gweithredol Amgueddfa'r RAF, sydd wedi cefnogi datblygiad y cais ac a fydd yn parhau i gynghori ar y prosiect.

### Ymddiriedolaeth Amgueddfa Catrawd Swydd Bedford a Swydd Hertford

Grant o £9,400 – The Yellow Devils
Datganodd Maggie Appleton fuddiant gan fod eu horiel wedi'i lleoli yn Amgueddfa Parc Wardown yn Luton sy'n rhan o Culture Luton, sef ei chyflogwr.

### Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Archaeoleg Norfolk

Cynnydd grant o £119,700 i wneud cyfanswm grant o £348,700 – SHAREd Enterprise: developing business minded museums
Datganodd Helen Wilson wrthdaro buddiannau gan ei bod yn un o ymddiriedolwyr Bwrdd Sylfaen Amgueddfeydd Norfolk.

### Bwrdeistref Hackney yn Llundain

Grant o £122,400 a phas rownd gyntaf o £3,194,100 – prosiect adnewyddu Parc Springfield
Datganodd Jon Sheaff wrthdaro buddiannau gan ei fod wedi paratoi'r cais ar gyfer yr ymgeisydd.

### Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Llundain

Grant o £96,100 a phas rownd gyntaf o £771,800 – Great North Wood
Datganodd Jon Sheaff wrthdaro buddiannau oherwydd ei fod yn gysylltiedig â'r ymgeisydd ar nifer o brosiectau eraill.

**Canolfan Terepia**

Grant o £942,600 – The Bothy, defnydd creadigol o adeilad rhestredig i greu canolfan ragoriaeth ar gyfer gwasanaethau seicotherapiwtig i blant
Datganodd Jon Sheaff wrthdaro buddiannau gan ei fod yn Rheolwr Prosiect ar gyfer y prosiect adnewyddu cyfagos parc Tŷ Avenue.

**Y Sefydliad Tirwedd**

Grant o £911,100 – Gŵyl Capability Brown
Datganodd Rachel Hasted wrthdaro buddiannau gan fod English Heritage yn bartner a bod llai na dwy flynedd wedi mynd heibio ers iddi gael ei chyflogi gan English Heritage.

**Bwrdeistref Wandsworth yn Llundain**

Grant o £1,372,100 – Prosiect Treftadaeth Comin Tooting
Datganodd Jennifer Ullman wrthdaro buddiannau gan ei bod wedi gweithio i'r ymgeisydd yn flaenorol gan reoli'r staff sy'n gyfrifol am y cais.

**Amgueddfa a Gerddi Horniman**

Grant o £3,297,700 – Collections People Stories Horniman Museum
Datganodd Jennifer Ullman fod ei nith yn gweithio i Amgueddfa Horniman.
Datganodd Hilary Carty wrthdaro gan ei bod yn un o Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa.

**Prifysgol Newcastle**

Grant o £2,100,700 – Adfywio Oriel Hatton Newcastle
Datganodd Lindsay Allason-Jones fuddiant gan ei bod yn Ddarlithydd Ymweliadol yn y Brifysgol.

**Prifysgol Newcastle**

Grant o £9,900 – Inspiring Archives: A story of the Civil War in the North East of England
Datganodd Lindsay Allason-Jones fuddiant gan ei bod yn Ddarlithydd Ymweliadol yn y Brifysgol.

**Bwrdd Cyllid Esgobaethol Newcastle**

Grant o £221,900 – Inspired Futures for Heritage Places of Worship in North East England
Datganodd Lindsay Allason-Jones wrthdaro buddiannau gan ei bod yn un o Ymddiriedolwyr Bwrdd Calon y Ddinas ac Eglwys Gadeiriol Newcastle.

**Y Gymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt**

Grant o £75,400 a phas rownd gyntaf o £1,303,500 – Sciuriosity: Red Squirrels United
Datganodd Chris Mullin fuddiant gan ei fod yn Llywydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Northumberland, sy'n bartner yn y cais.

**Ymddiriedolaeth Ddinesig Gogledd Lloegr**

Grant o £10,000 – Ysbyty Keelmen
Datganodd Chris Mullin wrthdaro buddiannau gan ei fod yn un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Ddinesig Gogledd Lloegr.

**Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Northumberland Cyf**

Grant o £14,000 a phas rownd gyntaf o £412,500 – Restoring Ratty: the return of the Water Vole to Kielder Forest
Datganodd Chris Mullin wrthdaro buddiannau gan ei fod yn Llywydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Northumberland Cyf.

**Cyngor Tref Billingham**

Dyfarniad grant o £26,700 – Beautiful Billingham Campaign: Harrington's Pond Restoration
Datganodd Sue Antrobus wrthdaro buddiannau gan fod Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dyffryn Tees, sef ei chyflogwr, yn un o bartneriaid y prosiect.

### Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dyffryn Tees

Grant o £50,700 – Where the Wild Things Were 2
Datganodd Sue Antrobus wrthdaro buddiannau gan ei bod yn gweithio i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dyffryn Tees.

### Ffrindiau Rheilffordd Stockton a Darlington

Dyfarniad grant £10,000 – Sharing Heritage: the Stockton and Darlington Railway
Datganodd Niall Hammond fuddiant gan ei fod yn aelod o'r grŵp ymgeisio.

### Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Durham

Grant o £226,000 a phas rownd gyntaf o £2,663,500 – Partneriaeth Dirwedd BrightWater
Datganodd Niall Hammond wrthdaro buddiannau gan ei fod yn aelod o fwrdd Partneriaeth Dirwedd BrightWater.

### Coleg Askham Bryan, Efrog

Grant o £3,198,500 – Gwarchod a gwella'r Porthdy Canolog ym Mharc Stewart, Middlesbrough fel cyfleuster addysg wedi'i seilio ar y tir
Datganodd John Williams wrthdaro buddiannau gan ei fod yn un o'r Llywodraethwyr yng Ngholeg Askham Bryan, Efrog.

### Sefydliad Reader

Grant o £1,879,200 – The Reader yn Calderstones
Datganodd Ivan Wadeson wrthdaro buddiannau gan ei fod yn aelod o Fwrdd Sefydliad Reader.

### Cyngor Bwrdeistref Oldham

Grant o £3,379,900 – Canolfan Treftadaeth a Chelfyddydau Oldham
Datganodd Ivan Wadeson fuddiant gan ei fod wedi ymgymryd â gwaith ymgynghori taledig ar y prosiect.

### Ymddiriedolaeth Mileniwm Dyffrynnoedd Swydd Efrog

Grant o £99,100 a phas rownd gyntaf o £2,018,800 – Partneriaeth Dirwedd Dyffrynnoedd Ingleborough
Datganodd Steve Garland fuddiant gan ei fod wedi'i benodi'n Gadeirydd annibynnol elfen 'Stories in Stone' y prosiect.

### Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi

Grant o £9,500 – WWI: The Untold Stories of St John the Evangelist Leeds
Datganodd Humphrey Welfare fuddiant gan ei fod yn un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi.

### Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi

Grant o £202,800 a phas rownd gyntaf o £2,602,900 – The Canny Space at Holy Trinity Sunderland
Datganodd Humphrey Welfare fuddiant gan ei fod yn un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi.

### Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi

Grant o £47,700 – Hidden Secrets: Torbryan Holy Trinity
Datganodd Humphrey Welfare fuddiant gan ei fod yn un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi.

### Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi

Grant o £56,200 – Exploring All Saints
Datganodd Humphrey Welfare fuddiant gan ei fod yn un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi.

### Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi

Grant o £9,300 – Discovering Hidden Somerset
Datganodd Humphrey Welfare fuddiant gan ei fod yn un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi.

### Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi

Grant o £94,100 – The Holy Sepulchre Church
Datganodd Humphrey Welfare fuddiant gan ei fod yn un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi.

### Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi

Grant o £49,100 – St George Reforne, Portland, Dorset
Datganodd Humphrey Welfare fuddiant gan ei fod yn un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi.

### Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi

Grant o £97,100 – St Mary's, Stainburn
Datganodd Humphrey Welfare fuddiant gan ei fod yn un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi.

### Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi

Grant o £96,800 – St Andrew's Church, Hove, East Sussex
Datganodd Humphrey Welfare fuddiant gan ei fod yn un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi.

### Cyngor Bwrdeistref Canolbarth a Dwyrain Antrim mewn cysylltiad â Phartneriaeth Adfywio Carrickfergus

Grant o £1,689,200 – Menter Treftadaeth Treflun Carrickfergus
Datganodd Sheila McClelland wrthdaro buddiannau gan ei bod yn gyn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Carrickfergus.

### Stiwdios Wasps

Grant o £52,100 a phas rownd gyntaf o £755,000 – Canolfan Greu Briggait
Datganodd Eleanor McAlister wrthdaro buddiannau gan ei bod yn Aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth WASPS ac yn Aelod o Fwrdd Historic Scotland.

### Oriel Collective mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caeredin

Grant o £1,300,000 – Cyfadeilad Arsyllfa'r Ddinas
Datganodd Gillian Findlay wrthdaro buddiannau gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Amgueddfeydd ac Orielau Caeredin, sy'n rhan o Gyngor Dinas Caeredin.

### Cymorth i Ferched yr Alban

Grant o £305,400 – Hanes Cymorth i Ferched yn yr Alban
Datganodd Gillian Findlay wrthdaro buddiannau gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Amgueddfeydd ac Orielau Caeredin ac y byddai Amgueddfa Caeredin yn cynnal yr arddangosfa deithiol.

### Cyngor Dinas Caeredin mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol Galedonaidd

Grant o £3,799,100 – Prosiect Adfer Parc Saughton
Datganodd Gillian Findlay wrthdaro buddiannau gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Amgueddfeydd ac Orielau Caeredin, sy'n rhan o Gyngor Dinas Caeredin.

### Ymddiriedolaeth Wasps

Grant o £52,100 a phas rownd gyntaf o £755,000 – Canolfan Greu Briggait
Datganodd Eleanor McAlister wrthdaro buddiannau gan ei bod yn Aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Wasps.

### Treftadaeth Fragu'r Alban

Grant o £43,800 – The Untold Story of Scottish Brewing
Datganodd Gillian Findlay wrthdaro buddiannau gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Amgueddfeydd ac Orielau Caeredin ac y byddai Amgueddfa Caeredin yn cynnal yr arddangosfa.

### Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yr Alban

Grant o £37,800 a phas rownd gyntaf o £2,502,000 – Saving Scotland's Red Squirrels Project – Developing Community Action
Datganodd Simon Pepper fuddiant gan ei fod yn aelod o fwrdd Treftadaeth Naturiol yr Alban a fydd yn rhan o grŵp llywio'r prosiect.

### Cyngor Medway

Grant o £214,000 a phas rownd gyntaf o £1,700,400 – Command of the Heights
Datganodd Bill Ferris wrthdaro buddiannau gan ei fod yn Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth Iard Longau Hanesyddol Chatham, a fyddai'n elwa o'r prosiect.

### Awdurdod Parc Cenedlaethol New Forest

Grant o £2,838,000 – Our Past, Our Future: working together for the New Forest
Datganodd Debbie Tann wrthdaro buddiannau gan ei bod yn Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Hampshire ac Ynys Wyth, sef un o bartneriaid y prosiect.
Datganodd Helen Jackson wrthdaro buddiannau gan ei bod yn un o Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Hampshire ac Ynys Wyth, sef un o bartneriaid y prosiect.

### Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Wyth

Grant o £1,547,000 – Down to the Coast – East Wight Landscape Partnership
Datganodd Debbie Tann wrthdaro buddiannau gan ei bod yn Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Hampshire ac Ynys Wyth, sef un o bartneriaid y prosiect.
Datganodd Helen Jackson wrthdaro buddiannau gan ei bod yn un o Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Hampshire ac Ynys Wyth, sef un o bartneriaid y prosiect.

### Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Hampshire ac Ynys Wyth

Grant o £129,300 a phas rownd gyntaf o £769,600 – Secrets of the Solent
Datganodd Debbie Tann wrthdaro buddiannau gan ei bod yn Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Hampshire ac Ynys Wyth.

### Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs

Grant o £1,451,400 – Heathlands Reunited
Datganodd Debbie Tann wrthdaro buddiannau gan ei bod yn Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Hampshire ac Ynys Wyth, sef un o bartneriaid y prosiect.
Datganodd Helen Jackson wrthdaro buddiannau gan ei bod yn un o Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Hampshire ac Ynys Wyth, sef un o bartneriaid y prosiect.

### Hastings Creative Limited

Grant o £9,800 – Ysgol Gelfyddydau Ryngwladol Hastings
Datganodd Alastair Fairley fuddiant gan ei fod wedi cynghori'r cydlynwyr.

### Ymddiriedolaeth Amgueddfa Lymington

Grant o £1,782,400 – The Future of St Barbe
Datganodd Helen Jackson wrthdaro buddiannau gan ei bod yn un o Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Hampshire, sef un o bartneriaid y prosiect.

### Cyngor Tref Tavistock

Grant o £48,700 a phas rownd gyntaf o £766,500 – Neuadd Dinas Tavistock
Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan fod cysylltiadau â Safle Treftadaeth y Byd Mwyngloddio Gorllewin Cernyw a Dyfnaint, yr oedd yn ymwneud ag ef trwy Gyngor Cernyw.

### Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cernyw

Grant o £140,600 a phas rownd gyntaf o £2,670,000 – First and Last – Our Living Working Landscape
Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan ei bod wedi rhoi cyngor i'r ymgeisydd.

### Cyngor Cernyw

Grant o £34,400 a phas rownd gyntaf o £934,400 – Treftadaeth Treflun St Austell
Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan ei bod yn gweithio i Gyngor Cernyw.

### RSPB De-orllewin Lloegr

Grant o £42,800 a phas rownd gyntaf o £774,300 – Prosiect Adfer Adar Môr Tair Ynys Ynysoedd Sili
Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan ei bod wedi rhoi cyngor i'r ymgeisydd.

### Eglwys St Pol de Leon, Paul, Penzance

Grant o £34,300 a phas rownd gyntaf o £293,300 – Dathlu heddwch trwy adfer ffenestr arwyddocaol sy'n coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf
Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan ei bod wedi rhoi cyngor i'r ymgeisydd.

### Cyngor Cernyw ac Ymddiriedolaeth Treftadaeth Cernyw

Grant o £253,700 a phas rownd gyntaf o £3,480,700 – Luxulyan Valley: saving Joseph Treffry's extraordinary industrial legacy
Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan ei bod yn gweithio i Gyngor Cernyw.
Datganodd Evelyn Stacey wrthdaro buddiannau o ganlyniad i'w swydd flaenorol fel Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Wheal Martyn, a oedd yn bartner cyflenwi posibl ac a fyddai'n elwa pe byddai'r prosiect yn mynd yn ei flaen.

### Ymddiriedolaeth Wheal Martyn

Grant o £155,000 a phas rownd gyntaf o £832,200 – Gwaith Clai
Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan ei bod yn gweithio i Gyngor Cernyw, sy'n darparu cyllid refeniw i Amgueddfa Wheal Martyn.
Datganodd Evelyn Stacey wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr is-gwmni Ymddiriedolaeth Wheal Martyn, sef Wheal Martyn Enterprises, ac o ganlyniad i'w rôl flaenorol fel Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Wheal Martyn.

### Living Options Devon

Grant o £117,200 a phas rownd gyntaf o £573,600 – The Heritageability Project
Datganodd Evelyn Stacey wrthdaro buddiannau o ganlyniad i'w swydd flaenorol fel Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Wheal Martyn, sy'n bartner cyflenwi.

### Cyngor Sir Dorset

Grant o £297,600 – Home and Abroad: Opening up the archive of the Bankes family
Datganodd Sarah Staniforth wrthdaro buddiannau o ganlyniad i'w gwaith ymgynghori ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar yr archif ac sy'n bartner yn y prosiect.

### Archifau Swydd Gaerloyw

Grant o £1,105,500 – For the Record
Datganodd Sarah Staniforth wrthdaro buddiannau oherwydd ymgynghorwyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y mae hi'n ymgynghorydd iddynt, fel adneuwr ar gyfer Archifau Swydd Gaerloyw.

### Yr Ymddiriedolaeth Goetiroedd

Grant o £730,000 – Bringing Fingle Woods Back to Life
Datganodd Sarah Staniforth ei bod yn cael ei chyflogi fel ymgynghorydd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n bartner yn y prosiect.
Datganodd Phil Collins ei fod yn cael ei gyflogi gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n bartner yn y prosiect.

### Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Grant o £58,000 a phas rownd gyntaf o £717,500 – Adeg Ffrwydrol: Adfer a Dathlu Gwaith Powdr Gwn Glyn-nedd
Datganodd Carys Howell wrthdaro buddiannau gan ei bod yn gyn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

### Cyngor Sir Fynwy

Grant o £16,100 – Rhapsodi: Stori Rockfield a Threfynwy
Datganodd Megan De Silva fuddiant gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Gyngor Sir Fynwy.

### Cyngor Bwrdeistref Tamworth

Grant o £903,400 – Ystafelloedd Cynnull Tamworth
Datganodd Alan Taylor wrthdaro buddiannau gan ei fod wedi ymdrin â'r cais adeilad rhestredig ar gyfer English Heritage ac wedi cynnal sawl trafodaeth â'r tîm.

### Cyngor Eglwys Blwyfol St Giles

Grant o £720,500 – Prosiect Treftadaeth Mynwent St Giles
Datganodd Alan Taylor wrthdaro buddiannau gan ei fod yn adnabod y penseiri tirwedd ac wedi gweld eu cynigion.

### Cyngor Dinas Wolverhampton

Grant o £864,100 – Queen Street Gateway THI
Datganodd Marion Blockley wrthdaro buddiannau gan fod ei phartner wedi gweithio i Dîm Cadwraeth Cyngor Dinas Wolverhampton tan iddo ymddeol ym mis Medi 2014.

### Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Grant o £225,400 a phas rownd gyntaf o £2,223,600 – The Roundhouse, Birmingham
Datganodd Marion Blockley wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Banel Amgylchedd Hanesyddol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn cynnal gwaith ymgynghori ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd ar hyn o bryd mewn perthynas â phrosiect gwahanol.

### Prosiect Adfer Cloch Castle Bromwich

Grant o £34,500 – Clychau Eglwys Castle Bromwich
Datganodd Alan Taylor wrthdaro buddiannau gan ei fod wedi rhoi cyngor i'r ymgeisydd ynglŷn â'r prosiect pan oedd yn cael ei gyflogi gan English Heritage.

### Cerddoriaeth Gynnar Swydd Gaerwrangon

Grant o £4,300 – Prosiect Croome Four Seasons Cerddoriaeth Gynnar Swydd Gaerwrangon
Datganodd Alan Taylor fuddiant gan ei fod yn aelod o grŵp llywio Capability Brown 300 a oedd wedi annog y prosiect.

### Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol y Deyrnas Unedig (UKHBPT)

Grant o £423,000 a phas rownd gyntaf o £2,576,700 – Adfywio Sefydliad Wedgwood – canolfan fenter arloesol ar gyfer Burslem
Datganodd Alan Taylor wrthdaro buddiannau gan ei fod wedi rhoi cyngor i'r ymgeisydd pan oedd yn cael ei gyflogi gan English Heritage.
Datganodd Marion Blockley wrthdaro buddiannau gan ei bod yn ymgynghorydd ar gyfer

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog (y mae UKHBPT yn is-gwmni iddi) ac wedi gweithio'n agos gyda staff UKHBPT, er nad ar y cais hwn.

#### Ffrindiau Orendy Ingestre

Grant o £48,900 a phas rownd gyntaf o £557,100 – Orendy Ingestre. Prosiect adfer cynaliadwy
Datganodd Alan Taylor wrthdaro buddiannau gan ei fod wedi gweithio gyda'r ymgeisydd ar gam cynharach o'r prosiect pan oedd yn gweithio i English Heritage ac wedi bod yn eu cynorthwyo gyda mater cynllunio arall yn yr ardal yn ystod 2015.

### Staff

#### Ymddiriedolaeth Amgueddfa Geffrye

Grant o £425,300 a phas rownd gyntaf o £10,580,100 – Unlocking the Geffrye
Datganodd Eilish McGuinness fuddiant gan ei bod yn ffrind i un o'r penseiri ar gyfer y prosiect.

#### Eglwys Sant Siôr, Bryste

Grant o £750,200 – Preserving, recording and widening access to the heritage of St George's Bristol
Datganodd Eilish McGuinness fuddiant gan ei bod yn ffrind i un o'r penseiri ar gyfer y prosiect.

#### Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban

Grant o £97,100 a phas rownd gyntaf o £950,000 – Revealing Cultures
Datganodd Jo Sohn-Rethel wrthdaro buddiannau gan ei fod yn cael ei gyflogi'n rhan-amser gan Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban.

#### Hartshill and Harpfields Occasions

Grant o £10,000 – Hartshill in the First World War: 1916–1917/2016–2017
Datganodd Elise Turner fuddiant oherwydd bu'n rhan o'r grŵp ar un adeg.

## 16. Offerynnau ariannol

### Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau' (IFRS 7) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl a chwaraeodd offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod, wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gynnal ei weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o lawer o ran creu neu newid risg ar gyfer CGDG nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn bennaf berthnasol iddynt. Nid oes gan CGDG bwerau i fenthyg, ond gall fuddsoddi cyllid a ddeillir o gymorth grant. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd yn hytrach na chael eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

### Risg hylifedd

Yn 2015–16, roedd £385miliwn (99.3%) o incwm dosbarthu arian Loteri CGDG yn deillio o'r Loteri Genedlaethol. Roedd yr incwm a oedd yn weddill yn deillio o adenillion buddsoddi ar y balans a ddelir gyda Chronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG), sef £1.6miliwn (0.4%), ynghyd â swm bach o log banc ac ad-daliadau grant. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod eu rhwymedigaethau grant a'u symiau eraill sy'n daladwy yn sylweddol fwy na gwerth y cronfeydd yn CDdLG ar 31 Mawrth 2016. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad yw eu gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri yn agored i risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon y bydd ganddynt ddigon o adnoddau hylifol yn CDdLG ac yn y banc i fodloni pob cais tebygol am dalu grant yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi rhoi gwybod i'r Ymddiriedolwyr, a hynny'n fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad yw'n bwriadu newid y trefniadau dosbarthu arian y Loteri ar gyfer y sector treftadaeth. Yn wir, cynyddodd y DCMS ran

dreftadaeth arian Achosion Da'r Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012 ymlaen. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi llunio strategaeth dyfarnu grantiau tymor hir i sicrhau bod eu rhwymedigaethau dosbarthu arian y Loteri yn cyd-fynd ag asedau, a bod yr Ymddiriedolwyr yn gallu bodloni eu hymrwymiadau hyd at fis Mawrth 2023, pan fydd pedwaredd drwydded weithredu'r Loteri yn dod i ben. Hyd yn oed pe byddai dirywiad tymor hir yn incwm y Loteri, byddai'r Ymddiriedolwyr yn addasu cyllidebau grant blynyddol i wneud iawn am hynny.

## Risg marchnad a risg cyfradd llog

Mae asedau ariannol gweithgareddau dosbarthu arian Loteri yr Ymddiriedolwyr yn cael eu buddsoddi yn CDdLG, sy'n buddsoddi mewn ystod gul o asedau risg isel fel bondiau'r llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reolaeth dros fuddsoddi'r cronfeydd hyn. Am y ddau reswm hynny, nid ydym wedi cynnal dadansoddiad sensitifrwydd o risgiau'r farchnad. Ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, gwerth marchnad ein buddsoddiadau yn CDdLG oedd £595miliwn. Mae'r DCMS wedi rhoi gwybod i ni fod cronfeydd CDdLG wedi ennill 0.5% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Mae ein balansau arian parod, sef symiau a dynnir i lawr o CDdLG i ganiatáu i ni dalu grantiau a chostau gweithredol, yn cael eu dal mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol mynediad uniongyrchol, a oedd â chyfradd llog o 0.35% yn ystod y flwyddyn. Mae'r gostyngiad cyflym mewn cyfraddau llog marchnad a ddigwyddodd yn 2008 wedi cael effaith barhaus ar adenillion buddsoddi, ond gan nad oes llawer o le i gyfraddau ostwng ymhellach, mae'r risg yn fach. Y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £3.4miliwn. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad yw eu gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri yn agored i risgiau cyfradd llog sylweddol. Cyfraddau llog o ddim oedd gan asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol eraill.

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau arian parod | | |
| – sterling ar gyfraddau llog cyfnewidiol | **3,368** | 318 |
| – sterling ar gymysgedd o gyfraddau sefydlog | **594,904** | 565,998 |
| | **598,272** | 566,316 |

## Risg credyd

Mae'r ffigur ar gyfer symiau derbyniadwy yn cynnwys rhagdaliadau ac incwm cronedig (prydlesi eiddo ac ardrethi busnes yn bennaf) a balansau rhyng-lywodraeth bron yn gyfan gwbl. Mae'r balansau rhyng-lywodraeth gyda chyrff sy'n cael eu noddi gan y DCMS yn bennaf ac roeddent oll wedi cael eu talu erbyn i'r cyfrifon gael eu llofnodi, heblaw am fenthyciad nad yw'n ddyledus am nifer o flynyddoedd. Nid yw'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod eu gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri yn agored i risg credyd sylweddol.

## Risg arian tramor

Nid yw gweithgareddau dosbarthu arian Loteri yr Ymddiriedolwyr yn agored i unrhyw risgiau cyfnewidfa dramor.

## Asedau ariannol yn ôl categori

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau yn unol â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | |
| – buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu | **594,904** | 565,998 |
| – arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **3,368** | 318 |
| – benthyciadau a symiau derbyniadwy | **3,718** | 3,250 |
| | **601,990** | 569,566 |

## Rhwymedigaethau ariannol yn ôl categori

| | 2015–16 £'000 | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau yn unol â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | |
| – darpariaeth | **–** | – |
| – rhwymedigaethau ariannol eraill | | |
| • ymrwymiadau grant | **996,038** | 964,120 |
| • symiau taladwy gweithredol | **690** | 414 |
| • symiau taladwy eraill | **401** | 406 |
| • croniadau | **1,443** | 1,646 |
| | **998,572** | 966,586 |

## Gwerthoedd teg

Nodir isod gymhariaeth, yn ôl categori, o werthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol CDL ar 31 Mawrth 2016.

### Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2016

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod [1] | **3,368** | **3,368** |
| Buddsoddiadau [2] | **594,904** | **594,904** |
| Symiau derbyniadwy [3] | **3,718** | **3,718** |
| | **601,990** | **601,990** |

### Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2015

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod | 318 | 318 |
| Buddsoddiadau | 565,998 | 565,998 |
| Symiau derbyniadwy | 3,250 | 3,250 |
| | 569,566 | 569,566 |

### Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2016

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant [4] | **996,038** | **996,038** |
| Symiau taladwy gweithredol [5] | **690** | **690** |
| Symiau taladwy eraill [5] | **401** | **401** |
| Croniadau [5] | **1,443** | **1,443** |
| | **998,572** | **998,572** |

### Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2015

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant | 964,120 | 964,120 |
| Symiau taladwy gweithredol | 414 | 414 |
| Symiau taladwy eraill | 406 | 406 |
| Croniadau | 1,646 | 1,646 |
| | 966,586 | 966,586 |

Sail prisiad teg

1 Y ffigur yma yw gwerth adneuon gyda banciau masnachol. Disgwylir bod gwerth llyfr yn gyfwerth â gwerth teg.

2 Rheolir buddsoddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ef neu hi sy'n rhoi manylion i'r Ymddiriedolwyr am werth llyfr a gwerth teg ein balansau ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

3 Ni thybir bod darpariaeth ar gyfer drwgddyledion yn angenrheidiol. Nid yw'r un o'r dyledion yn rhai tymor hir heblaw am un benthyciad tymor hir.

4 Er ein bod yn datgelu £644miliwn o ymrwymiadau grant nad ydynt yn ddyledus tan ar ôl blwyddyn yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae gan yr Ymddiriedolwyr rwymedigaeth gytundebol i dalu'r symiau hyn ar gais, yn amodol ar gontract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf os yw'r prosiectau treftadaeth perthnasol yn symud ymlaen yn gyflymach na'r disgwyl.

5 Mae'r holl symiau taladwy yn ddyledus o fewn telerau cytundebol arferol, 14–30 diwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng cost llyfr a gwerth teg.

## Rhwymedigaethau ariannol yn aeddfedu

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn llai na blwyddyn | **998,572** | 966,586 |
| Mewn mwy na blwyddyn, ond llai na dwy flynedd | **–** | – |
| Mewn dwy i bum mlynedd | **–** | – |
| Mewn mwy na phum mlynedd | **–** | – |
| | **998,572** | 966,586 |

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn datgelu'r ffigurau uchod wedi'u gwahanu rhwng symiau sy'n ddyledus mewn llai na blwyddyn a symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn. Nid yw ein contractau â grantïon yn cynnwys rhaniad rhwng symiau sy'n ddyledus mewn llai na blwyddyn a mwy na blwyddyn. Mae'r rhaniad a adroddir yn y cyfrifon hyn wedi'i seilio'n unig ar ein profiad blaenorol o symiau a dynnwyd i lawr gan grantïon i ariannu eu prosiectau. Yn ddamcaniaethol, gallai grantïon fynnu cael eu grant cyfan o fewn y 12 mis nesaf os cwblhawyd eu prosiectau yn ystod y cyfnod hwnnw. Felly, rydym wedi defnyddio dull gochelgar ac wedi dangos aeddfedrwydd yr holl rwymedigaethau o fewn blwyddyn.

## 17. Datganiad o golledion

Gwnaeth CDL golledion drwy ddiddymu naw grant yn dod i gyfanswm o £107,887 yn ystod y flwyddyn (2014–15: chwe grant yn dod i gyfanswm o £282,200).

## 18. Costau staff

| | **2015–16 £'000** | 2014–15 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **8,646** | 8,635 |
| Taliadau YG y cyflogwr | **582** | 587 |
| Taliadau i gynllun pensiwn | **1,740** | 1,572 |
| Costau staff dros dro | **129** | 148 |
| | **11,097** | 10,942 |

## 19. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Roedd canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Nid yw'r digwyddiad hwn yn golygu bod angen addasu. Ni ellir gwneud amcangyfrif rhesymol o effaith ariannol y digwyddiad hwn.

Mae'r llywodraeth yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi i CDL o dan Ddeddf 1993. Daeth y cyfarwyddiadau presennol i rym yn 2008. Fel o'r blaen, mae'r rhain yn faterion sydd i'w hystyried wrth ddosbarthu arian.

Ar yr un pryd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddiadau polisi yn ymwneud ag arian a ddosberthir yng Nghymru, ac yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban gyfarwyddiadau ar gyfer arian a ddosberthir yn yr Alban. Mae'r rhain yn cyd-fynd â chyfarwyddiadau'r Deyrnas Unedig, ac fe'u hatgynhyrchir yn llawn ar dudalennau 69 i 71.

## a) Anghenion y dreftadaeth

"Asesiad CDL o anghenion y dreftadaeth genedlaethol a'u blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â nhw."

Yn 2015–16 fe wnaeth y galw am arian y Loteri ar gyfer treftadaeth aros yn uchel ac, oherwydd bod gwerthiannau tocynnau yn parhau'n gryf, roeddem yn gallu ymrwymo £380.9miliwn mewn dyfarniadau, yn erbyn ceisiadau gwerth £929miliwn (i lawr ychydig gan 1.7% o gymharu â 2014–15).

Hon oedd y drydedd flwyddyn weithredu o dan y Fframwaith Strategol ar gyfer 2013–2019, sef *A lasting difference for heritage and people*. Rydym wedi parhau i gefnogi'r sector mewn amgylchedd gweithredu heriol, gan ymsefydlu rhaglenni a mentrau newydd, gan gynnwys Grantiau Cychwyn, Cyllid Trosglwyddo a Menter Treftadaeth, i fynd i'r afael â'r angen i gynyddu cydnerthedd a hyrwyddo arloesedd mewn sefydliadau treftadaeth, er mwyn cefnogi twf, a llenwi bylchau sgiliau a nodwyd.

Parhaodd Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf i ddenu llawer o ddiddordeb ymhlith y cyhoedd a'r cyfryngau eleni. Ers mis Ebrill 2010, mae CDL wedi dyfarnu £77miliwn i 1,450 o brosiectau a oedd yn nodi'r Canmlwyddiant, gan gynnwys £1.8miliwn i Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol i warchod HMS M.33, sef yr unig long Brydeinig i oroesi Ymgyrch Gallipoli ym 1915, a agorodd i'r cyhoedd yn yr haf 2015. Ers lansio'r rhaglen grantiau bach, y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw, ym mis Mai 2013, rydym wedi dyfarnu £8.8miliwn i fwy na 1,000 o brosiectau sy'n cynorthwyo amrywiaeth eang o sefydliadau cymunedol i archwilio a choffáu'r Canmlwyddiant, gyda llawer ohonynt yn cael eu grant CDL cyntaf. Mae CDL wedi ariannu prosiectau Canmlwyddiant yn 90% o ardaloedd awdurdod lleol y Deyrnas Unedig.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd adolygiad cyfnod canol o'r Fframwaith Strategol cyfredol, a ystyriodd p'un a oedd angen ymagweddau neu fentrau newydd i fynd i'r afael â chyfleoedd a heriau sy'n dod i'r amlwg. Credwn fod yr ymagwedd a amlinellir yn ein fframwaith strategol cyfredol yn parhau i fod yn briodol ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac yn ddigon hyblyg i gyflwyno newidiadau pan fydd angen. O ystyried yr amgylchedd gweithredu allanol prysur iawn, gan ddisgwyl cyhoeddi'r Papur Gwyn Diwylliant ym mis Mawrth 2015, datblygiadau pellach mewn Datganoli, ac Adolygiad wedi'i Deilwra o CDL yn ddiweddarach yn 2016, y gallent oll arwain at oblygiadau i'n strategaeth yn y dyfodol, penderfynwyd ymestyn y fframwaith strategol cyfredol am flwyddyn arall hyd at 2019, a chynnal ymgynghoriad llawn arno yn ystod 2017 yn hytrach nag yn gynt.

Yn y cyfamser, rydym wedi cyhoeddi rhai mesurau ymatebol newydd i fodloni'r angen cynyddol a'n blaenoriaethau ar gyfer sector treftadaeth mwy cynhwysol. Bydd y rhain yn cael eu cyflawni yn 2016–17 ac maen nhw'n cynnwys cyfuno cyllid 'cydnerthedd' cyfredol i greu rhaglen Treftadaeth Gydnerth newydd, gyda chyllideb fwy a grant uchaf mwy (£250,000), rownd arall o'r rhaglen Gwaddolion Treftadaeth a'r rhaglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol, a rhaglen Pobl Ifanc newydd.

Rydym hefyd wedi datblygu ein cymunedau ar-lein ymhellach fel canolbwynt ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgwyd ac arfer da ar draws y sector. Yn 2015–16, gwnaethom lansio man agored newydd er mwyn i ymgeiswyr a grantïon rannu gwybodaeth, cyngor a chwestiynau am unrhyw fath o brosiect treftadaeth. Mae ein fforymau penodol yn ymwneud â rhaglenni Parciau, Partneriaethau Tirwedd, Gwreiddiau Ifanc, Sgiliau a Chatalydd (cydnerthedd a chodi

arian yn breifat) yn parhau i ddarparu canolbwynt ar gyfer y rhai hynny sy'n rhannu diddordeb yn y themâu hyn.

## b) Cynnwys y cyhoedd

> "Yr angen i gynnwys y cyhoedd a chymunedau lleol wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu arian."

Wrth ddatblygu ein strategaethau ariannu, ymgynghorwn yn rheolaidd â chwsmeriaid a'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri er mwyn cael safbwynt y defnyddiwr olaf ar ein gwaith, i lywio ein polisi a'n harfer, ac i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn a wnawn. Lluniwyd y Fframwaith Strategol presennol drwy ymgynghori'n helaeth, a rhoddir ein holl ddeunyddiau a phrosesau ymgeisio ar brawf gyda chwsmeriaid ar yr holl lefelau grant. Eleni, rhoddodd defnyddwyr brawf ar ein gwefan, a gwnaethom ymateb i adborth cadarnhaol trwy wneud rhai addasiadau. Yn rhan o gynllunio ar gyfer y rhaglen Pobl Ifanc newydd, rydym yn datblygu ein hymagwedd at gynnwys pobl ifanc ym musnes CDL a byddwn yn cyflwyno panel pobl ifanc i gynghori ar y rhaglen honno.

Rydym wedi parhau â'n polisi recriwtio'n agored i'n pwyllgorau ym mhob ardal o Loegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru, sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau rhwng £100,000 a £2filiwn. Yn 2015–16, gwnaethom benodi 18 aelod pwyllgor newydd.

## c) Mynediad a chyfranogiad

> "Yr angen i gynyddu mynediad a chyfranogiad i'r rheiny nad ydynt yn elwa ar hyn o bryd ar y cyfleoedd treftadaeth sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig."

Mae ein strategaeth yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod 'mwy o bobl, ac ystod ehangach o bobl, yn ymwneud â threftadaeth', sy'n ganlyniad wedi'i bwysoli yn ein fframwaith asesu ar gyfer Grantiau Treftadaeth gwerth mwy na £100,000.

Sefydliadau'r sector gwirfoddol yw'r mwyafrif o'n grantïon, ac maent yn cyrraedd llawer o bobl mewn cymunedau lleol. Mae ein rhaglen Rhannu Treftadaeth, sy'n dyfarnu grantiau llai na £10,000, wedi'i bwriadu'n benodol ar gyfer sefydliadau cymunedol. Yn 2015–16, gwnaethom ariannu 1,650 o brosiectau ar draws y Deyrnas Unedig a ddaeth i gyfanswm o £14miliwn mewn dyfarniadau o dan y rhaglen hon.

Mae ein gwaith allgymorth yn parhau i ganolbwyntio ar ardaloedd daearyddol lle yr ydym wedi gweld llai o geisiadau a llai o wariant, gan gynnwys ardaloedd gwledig, ac ar gynulleidfaoedd targed fel pobl ifanc a'r rhai hynny o gymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Rydym wedi adolygu ein Meysydd Datblygu Blaenoriaethol eleni, gan gyflwyno rhai newydd mewn rhannau o'r wlad lle yr ydym wedi llwyddo i gynyddu buddsoddiad yn hanner cyntaf ein fframwaith strategol. Eleni, gwnaethom hefyd adolygu ein blaenoriaeth gorfforaethol i annog mwy o geisiadau gan sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau BAME ac, o ganlyniad, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno i roi blaenoriaeth i'r grwpiau hyn wrth wneud penderfyniadau.

Er mwyn nodi ugeinfed pen-blwydd y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a hyrwyddo mwy o uchelgais mewn partneriaethau anabledd a threftadaeth, gwnaethom gynnal Treftadaeth Gynhwysol, sef cynhadledd a fynychwyd gan 130 o uwch arweinwyr yn y sector, ym mis Hydref 2015. Cyfeiriodd y prif siaradwyr, sef Dr Tom Shakespeare ac Esther Fox, at eu profiadau personol a phroffesiynol eu hunain o anabledd a rôl allweddol treftadaeth mewn cyflawni cydraddoldeb. Cyhoeddodd Syr Peter Luff fod cynhwysiant yn flaenoriaeth gorfforaethol, gan ymrwymo CDL i gyflwyno digwyddiad blynyddol sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant.

Mae ein Grŵp Ymarfer Cynhwysiant a'n Grŵp Llywio Cydraddoldeb, a gadeirir gan y Prif Weithredwr, yn parhau i fonitro ac adrodd ar y ffyrdd yr ydym yn cynyddu mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth.

## ch) Plant a phobl ifanc

> "Yr angen i ysbrydoli plant a phobl ifanc, gan ennyn eu diddordeb a'u cyfranogiad yn y gweithgareddau y mae achos da'r dreftadaeth yn ymwneud â hwy."

Trwy fuddsoddi arian chwaraewyr y Loteri, mae CDL yn cefnogi amrywiaeth enfawr o brosiectau sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymwneud â threftadaeth a'i harchwilio. Rydym yn cefnogi gweithgareddau ar gyfer ysgolion a theuluoedd; rhaglenni dysgu anffurfiol, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n ategu addysg brif ffrwd, ffurfiol; datblygu asedau newydd, yn rhai ffisegol (offer a mannau dysgu) a digidol (apiau, gwefannau, adnoddau dysgu); paneli ieuenctid, llwybrau teulu, digwyddiadau, a gweithgareddau eraill.

Ledled y Deyrnas Unedig, rydym wedi buddsoddi yng nghapasiti cannoedd o sefydliadau lleol i allu gweithio gyda phlant. Ers 1994, rydym wedi ariannu dros 1,400 o swyddi addysg dreftadaeth a chreu mwy nag 830 o fannau dysgu, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth dan do ac awyr agored, theatrau ffilm a mannau chwarae naturiol. Ym mis Hydref 2015, gyda phartneriaid eraill, gwnaethom lansio Man ar gyfer Dysgu, sef gwefan, dogfen ganllaw a chyfres o adnoddau ac astudiaethau achos i gynorthwyo sefydliadau'r celfyddydau a threftadaeth i gyflawni rhagoriaeth wrth ddatblygu mannau o'r fath.

Mae pobl ifanc 11–25 oed wedi parhau i arwain prosiectau treftadaeth trwy ein rhaglen Gwreiddiau Ifanc. Ers 2002, rydym wedi gwneud dros 1,730 o ddyfarniadau Gwreiddiau Ifanc, ac yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi buddsoddi £4.4miliwn mewn mwy na 115 o brosiectau ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r prosiectau hyn yn ymgysylltu ag ystod eang o bobl ifanc, gan gynnwys y rhai hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac yn helpu i ddatblygu hyder a sgiliau pwysig. Mae ein Cymuned Ar-lein ar gyfer Gwreiddiau Ifanc wedi dod yn fan poblogaidd i grantïon ac ymgeiswyr rannu syniadau a chanlyniadau prosiectau.

Fel hyrwyddwr y sector, rydym wedi defnyddio ein dylanwad i gyflawni newid ar gyfer plant a phobl ifanc trwy fentrau a rhwydweithiau strategol ar draws y sectorau diwylliannol ac addysg. Rydym yn parhau i fod yn aelod o'r Grŵp Partneriaeth Addysg Ddiwylliannol cenedlaethol, gan ddatblygu argymhellion adolygiad y llywodraeth o Addysg Ddiwylliannol yn Lloegr. Rhoddwyd lle amlwg i'n rhaglenni presennol ac arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc ym Mhapur Gwyn Diwylliant mis Mawrth 2016. Fe'n cynrychiolir ar fwrdd y Gynghrair Dysgu Diwylliannol a grŵp llywio strategaeth ymgysylltiad â'r cyhoedd Treftadaeth 20:20, ac rydym yn cynnal perthynas gref ag ystod eang o gyrff yn y sector, gan gynnwys y Grŵp ar gyfer Addysg mewn Amgueddfeydd a'r Rhwydwaith Addysg Gerddi Botaneg.

Yng Nghynhadledd y Gymdeithas Amgueddfeydd yn yr hydref 2015, ailddatganodd ein Cadeirydd ymrwymiad CDL i greu cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â threftadaeth; roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi menter pobl ifanc newydd ac uchelgeisiol, i'w lansio yn 2016–17, a fydd yn buddsoddi £10miliwn mewn prosiectau mawr a arweinir gan gonsortiwm dros bum mlynedd. Yn gysylltiedig â hyn, rydym wedi bod yn ffurfio perthnasoedd newydd â sefydliadau ieuenctid cenedlaethol, sef y Ganolfan Tystiolaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar feysydd diddordeb cyffredin megis gweithredu cymdeithasol gan bobl ifanc, mesur canlyniadau ac annog mwy o bobl ifanc i ymwneud â'r amgylchedd naturiol.

### d) Cymunedau

> "Yr angen i feithrin mentrau sy'n dod â phobl ynghyd, sy'n cyfoethogi tir y cyhoedd ac yn cryfhau cymunedau."

Mae ein rhaglenni grant agored, yn enwedig Rhannu Treftadaeth (£3–10K) ac Ein Treftadaeth (£10–100K), wedi parhau i gefnogi gwaith o ansawdd uchel a arweinir gan grwpiau cymunedol lleol, ac sy'n ymwneud â nhw, ledled y Deyrnas Unedig. Mae ein gwaith gwerthuso Rhannu Treftadaeth, er enghraifft, yn dangos bod dros 75% o'n grantiau lleiaf yn cael eu dyfarnu i grwpiau cymunedol neu ffydd a bod ein buddsoddiad yn cyrraedd pobl newydd: dyfarnwyd 67% o grantiau i sefydliadau a oedd yn ymgeisio i CDL am y tro cyntaf.

Rydym yn gwybod bod grantïon yn cyflawni canlyniadau cryf i gymunedau, gan ddod â phobl ynghyd i ddysgu am dreftadaeth,

datblygu sgiliau, gwirfoddoli ac, yn bwysig, mwynhau eu hunain. Mae grantïon yn disgrifio'r effeithiau cymharol fawr a gyflawnir trwy grantiau llai, yn enwedig ar gyfer sefydliadau bach heb staff taledig: mwy o hyder i ddatblygu a chyflawni prosiectau treftadaeth a gwell cydnerthedd sefydliadol trwy berthynas gryfach â sefydliadau partner, proffil uwch yn y gymuned, a mwy o wirfoddolwyr.

Mae ein rhaglen Grantiau Treftadaeth yn parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i dir y cyhoedd, mewn trefi ac ardaloedd gwledig, a gwella ansawdd bywyd. Mae adeiladau a oedd yn ddolur llygad neu na wnaed digon o ddefnydd arnynt ar un adeg wedi cael eu dychwelyd i ddefnydd, mae camlesi ac afonydd wedi cael eu glanhau a'u gwneud yn fwy hygyrch, ac mae parciau wedi cael eu gwella i bawb eu mwynhau. Yn aml, mae'r prosiectau hyn yn llwyddo trwy ddenu dysgwyr, gwirfoddolwyr a phrentisiaid o amrywiaeth o gefndiroedd i gymryd rhan.

Eleni, mae ein gwaith eirioli wedi hyrwyddo gwerth ymwneud â natur a'r awyr agored yn arbennig, yng nghyd-destun cymunedau cynyddol drefol ledled y Deyrnas Unedig. Mae buddsoddiad CDL mewn treftadaeth naturiol yn arwyddocaol wrth hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol yn ogystal â gwella mannau ar gyfer chwarae a gweithgareddau a chyfoethogi bioamrywiaeth. Yn arbennig, rydym wedi parhau i hybu gwerth partneriaethau wrth ehangu mynediad i fannau gwyrdd, gan gynnwys gyda'r sector iechyd.

### dd) Gwirfoddolwyr

"Yr angen i gefnogi gwirfoddolwyr, ac annog gweithgarwch gwirfoddoli, yn ein treftadaeth"

Mae gwirfoddoli wedi'i ymsefydlu yn y fframwaith deilliannau a ddefnyddiwn i asesu ceisiadau, ac felly mae wedi parhau i fod yn rhan amlwg o'r prosiectau a ariannwn ar draws ein holl raglenni grant. Amcangyfrifwn fod dros 97% o'n prosiectau yn cynnwys gwirfoddolwyr mewn rhyw ffordd.

Mae gwirfoddoli mewn prosiectau CDL yn cyfrannu at ddeilliannau eraill hefyd, er enghraifft trwy ddarparu capasiti ar gyfer rheoli treftadaeth yn well, trwy greu cyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau, a thrwy wneud sefydliadau treftadaeth yn fwy cydnerth. Mae ein cyllid yn galluogi profiadau gwirfoddoli cynhwysol, o ansawdd uchel trwy gefnogi'r costau cysylltiedig yn llawn: recriwtio gwirfoddolwyr, hyfforddiant, teithio a threuliau, yn ogystal â swyddi staff i gydlynu a rheoli gwirfoddolwyr.

Parhawn i ddathlu effaith drawsnewidiol gwirfoddoli ar gyfer unigolion, sefydliadau a chymunedau trwy astudiaethau achos, a gwirfoddolwyr o bob cefndir, a pharhawn i weithio'n agos gyda chyrff gwirfoddoli treftadaeth rhanbarthol, a phartneriaid cenedlaethol fel y Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol (NCVO) a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

### ff) Sgiliau

"Yr angen i annog arloesedd a rhagoriaeth, a helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau."

Mae datblygu sgiliau yn rhan annatod o'n fframwaith deilliannau. Parhawn i flaenoriaethu datblygu sgiliau gwirfoddolwyr, staff cyflogedig a phobl sy'n ymuno â'r gweithlu treftadaeth er mwyn sicrhau bod ein treftadaeth yn cael ei chynnal, bod prinder sgiliau'n cael ei ddatrys a bod cronfa amrywiol o ddoniau'n cael ei denu i'n sector. Eleni, cyhoeddodd ein Cadeirydd drydedd rownd o'n rhaglen ddylanwadol Sgiliau ar gyfer y Dyfodol, a fydd yn cael ei lansio yn 2016 gyda phwyslais ar amrywiaeth y gweithlu.

'Bydd pobl wedi datblygu sgiliau' yw un o'r canlyniadau wedi'u pwysoli o hyd yn ein rhaglen Grantiau Treftadaeth y dosberthir cyfran fawr o'n cyllideb trwyddi. Rydym yn gwybod bod y rhan fwyaf o brosiectau Grantiau Treftadaeth yn darparu hyfforddiant i wirfoddolwyr, a bod llawer hefyd yn darparu prentisiaethau cyflogedig neu gyfleoedd hyfforddiant seiliedig ar waith sy'n canolbwyntio ar y sgiliau arbenigol y mae eu hangen ar gyflogwyr treftadaeth. Mae dwy ganolfan hyfforddi newydd bwysig wedi cael eu datblygu gan ddefnyddio ein buddsoddiad eleni: Canolfan Hyfforddi

Sgiliau Adeiladu Llongau a Threftadaeth Ymddiriedolaeth Eiddo Canolfan Lynges Portsmouth a Chanolfan Cadwraeth Genedlaethol Amgylchedd Hanesyddol yr Alban.

Mae sefydliadau a ariennir trwy ein rhaglenni grant sy'n canolbwyntio ar sgiliau, Bwrsariaethau Hyfforddi a Sgiliau ar gyfer y Dyfodol, wedi parhau i gyflawni rhagoriaeth yn ystod 2015–16. Eleni, gwnaethom gomisiynu adroddiad ar fuddion Bwrsariaethau Hyfforddi a gwahodd arweinwyr y sector i drafod eu heffaith. Rydym hefyd wedi annog rhannu ymarfer trwy ein cymuned ar-lein.

Mae grantïon a ariannwyd trwy ail rownd Sgiliau ar gyfer y Dyfodol yn 2012 wedi parhau i ddarparu ymyriadau hyfforddiant o ansawdd uchel eleni; hyd yma, mae dros 1,700 o leoliadau tymor hir wedi cael eu creu trwy'r rhaglen ac mae 70 o brosiectau'n mynd rhagddynt. Mae dros 900 o hyfforddeion wedi cwblhau eu hyfforddiant ac yn fodlon iawn ar yr hyfforddiant a gawsant. Mae rheolwyr prosiectau Sgiliau ar gyfer y Dyfodol yn dweud hefyd fod o leiaf 75% o'r hyfforddeion wedi mynd ymlaen i gael swyddi cysylltiedig â threftadaeth neu ddilyn hyfforddiant ychwanegol o ganlyniad i'n buddsoddiad.

Yn unol ag amcanion y rhaglen, mae arweinwyr prosiectau wedi treialu arferion recriwtio arloesol gan arwain at ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr, parhau i gynyddu nifer y cymwysterau treftadaeth sydd ar gael i'r sector a hyfforddi mwy o aseswyr er mwyn helpu i gynyddu capasiti yn y gweithlu treftadaeth. Yn ôl ein gwerthusiad, cytunodd 82% o hyfforddwyr fod Sgiliau ar gyfer y Dyfodol wedi eu gwneud yn fwy awyddus i gymryd rhan mewn mentrau o'r fath er mwyn annog pobl i ymuno â'r gweithlu treftadaeth, ac roedd 72% o hyfforddwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi cynyddu gwybodaeth yn eu maes arbenigedd treftadaeth trwy'r prosiectau.

## g) Gwerth cyhoeddus

> "Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo gwerth cyhoeddus ac nad elw preifat yw eu bwriad pennaf."

Mae ein hathroniaeth Loteri yn seiliedig ar ariannu'r hyn y mae pobl yn ei drysori, ac mae ein hasesiad o geisiadau bellach yn ystyried y deilliannau y bydd prosiectau'n eu creu ar gyfer treftadaeth, pobl a chymunedau. Rhown flaenoriaeth i sefydliadau dielw ac er 2002 mae bron hanner ein cyllid yn ôl gwerth (49%) wedi mynd i sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau eglwysig.

Darparwn rywfaint o gymorth i dreftadaeth mewn perchenogaeth breifat drwy ein rhaglen Ein Treftadaeth (grantiau o £10,000 –£100,000) ar yr amod y gall ymgeiswyr ddangos bod brwdfrydedd clir gan y cyhoedd i'w prosiect, a gwir angen am fuddsoddiad y Loteri. O dan ein rhaglen Menter Treftadaeth, mae'r achos dros arian y Loteri yn dibynnu ar 'ddiffyg cadwraeth' – lle mae gwerth presennol adeilad a'r gost o'i ddychwelyd i ddefnydd yn fwy na'i werth ar ôl y prosiect. Diben yr ymagweddau hyn yw sicrhau bod y buddion cyhoeddus o'r prosiectau y buddsoddwn ynddynt yn gorbwyso unrhyw fudd preifat.

## ng) Datblygu cynaliadwy

> "Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy."

Nid ydym wedi newid ein hymagwedd at ddatblygu cynaliadwy eleni. Mae'r holl ymgeiswyr sy'n cyflwyno ceisiadau am gyllid o fwy na £2filiwn yn dod o dan ein polisi ôl troed carbon, sy'n mynnu eu bod yn cynnal asesiad ôl troed carbon o'r cynnig ar gyfer y prosiect yn ystod y cyfnod datblygu. Mae'r asesiadau hyn wedi dod yn rhan annatod o'r broses arfarnu prosiectau yn ystod 2015–16 a bydd mwy o brosiectau'n dod o dan y gofyniad yn ystod 2016–17 wrth iddynt gyrraedd yr ail rownd.

Dim ond un rhan o'r asesiad a wnawn o effeithiau amgylcheddol tebygol prosiectau yw pennu ôl troed carbon. Er 2008, rydym wedi mynnu bod ymgeiswyr yn dweud wrthym sut y byddant yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ymwneud â defnyddio adnoddau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, dŵr, deunyddiau adeiladu, gwastraff, pridd, caffael pren cynaliadwy, bioamrywiaeth a thrafnidiaeth ymwelwyr, ac rydym wedi

cynnig arweiniad i helpu ymgeiswyr i gynllunio a dylunio eu prosiectau. O ran penderfyniadau Grantiau Treftadaeth a wneir gan ein bwrdd ymddiriedolwyr, darparwn grynodeb o ba mor dda y mae sefydliadau wedi mynd i'r afael â'r effeithiau amgylcheddol hyn yn eu ceisiadau.

### h) Amddifadedd economaidd a chymdeithasol

> "Dymunoldeb lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol a sicrhau bod gan bob ardal o'r Deyrnas Unedig fynediad at yr arian a ddosberthir."

Mae ychydig dros ddwy ran o bump (44%) o holl gyllid CDL wedi'i ymrwymo yn y 25% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig (yn seiliedig ar y mynegeion mwyaf diweddar o amddifadedd lluosog ar gyfer Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Mae gennym dimau datblygu yn ein swyddfeydd lleol yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr i annog ceisiadau o ansawdd da o ardaloedd nad ydynt wedi cael eu cynrychioli cystal yn ein cyllido hyd yma. Mae ein timau datblygu bellach yn gweithio mewn ardaloedd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer cyfnod y Fframwaith Strategol presennol o 2013 i 2018.

Fel mesur o ledaenu cyllid yn deg, rydym yn adolygu nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi derbyn cryn dipyn yn llai na chyfartaledd y Deyrnas Unedig, o ran gwerth dyfarniadau grant y pen. Mae nifer yr awdurdodau lleol lle'r oedd dyfarniadau grant y pen yn is na chwarter cyfartaledd y Deyrnas Unedig bellach yn 51 (14% o'r cyfanswm).

### i) Gweithio ar y cyd

> "Dymunoldeb gweithio ar y cyd gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, os yw hyn yn ffordd effeithiol o gyflawni strategaeth y Gronfa."

Eleni, gwnaethom barhau i weithio gyda'r Llywodraeth, yr Amgueddfeydd Rhyfel Imperialaidd, y Lleng Brydeinig Frenhinol, a llawer o gyrff eraill ar weithgareddau i nodi Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr, rydym yn cyd-ariannu prif raglen ddiwylliannol y Deyrnas Unedig, sef 14–18 NOW. Rydym hefyd yn gweithio ar y cyd â Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, y mae eu cyllid yn galluogi Canolfannau Ymgysylltu pum prifysgol i ddarparu cymorth ymchwil arbenigol i grwpiau cymunedol a sefydliadau diwylliannol sy'n ymgymryd â phrosiect Canmlwyddiant gyda chyllid CDL, mewn pynciau yn amrywio o'r Ffrynt Cartref a phrofiadau menywod i ddatblygiadau meddygol a thechnolegol, a chyfraniad milwyr o'r Ymerodraeth at y rhyfel.

Yn rhan o'n Fframwaith Strategol, gwnaethom ymrwymo i "siarad o blaid treftadaeth a dangos ei gwerth i fywyd modern" ac i greu "mwy o gyfleoedd i drafod gyda phobl y mae treftadaeth yn bwysig iddynt". Datblygwyd hyn trwy rôl ymgynnull yn 2015–16 yn sgil cynhadledd Treftadaeth Gynhwysol fawr, ugain mlynedd ar ôl i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ddod i rym. Mae'r trafodion wedi cael eu rhannu'n eang ar ein gwefan ac mae trafodaeth ymhlith y gymuned ar-lein sy'n rhannu arfer da a hyrwyddo nodau cynhwysiant uchelgeisiol wedi bod yn boblogaidd. Rydym yn cynllunio cyfres o ddigwyddiadau yn ystod y tair blynedd nesaf yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i dreftadaeth gynhwysol.

Yn dilyn y gynhadledd Cyfnewid Treftadaeth ym mis Gorffennaf 2014, rydym wedi parhau â'n gwaith ymchwil gyda Chymdeithas Frenhinol y Celfyddydau (RSA) ar Dreftadaeth, Hunaniaeth a Lle, a byddwn yn cynnal digwyddiad Cyfnewid Treftadaeth arall yn 2016–17. Mae'r Mynegai Treftadaeth, a lansiwyd gan yr RSA ym mis Medi 2015, yn helpu pobl i ddeall asedau a gweithgareddau treftadaeth lleol, a chael at ddata perthnasol trwy un safle. Mae'r Mynegai wedi'i gynllunio i ysgogi trafodaeth ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei werthfawrogi o'r gorffennol, a sut mae hynny'n dylanwadu ar hunaniaeth preswylwyr presennol. Gall hyn helpu lle i gyflawni ei ddyheadau i dyfu a ffynnu, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Bydd y Mynegai'n llywio ymagwedd CDL at gyllido lleoedd yn y dyfodol, datblygu ein Fframwaith Strategol nesaf, ac ystyried ble i flaenoriaethu

cymorth wedi'i dargedu ar gyfer ymgeiswyr trwy waith ein timau datblygu.

Gwnaethom hefyd arwain cynhadledd ar ailfywiogi lleoedd trwy ailddefnyddio treftadaeth ddiwydiannol ym mis Rhagfyr 2015, mewn partneriaeth â Historic England ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog, ac rydym yn bwriadu dilyn ein cynhadledd gyntaf a oedd yn canolbwyntio ar barciau yn 2014 gyda chynhadledd arall ar Gyflwr Parciau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig yn 2016–17.

O'r hydref ymlaen, gweithiom yn agos gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), Cyngor Celfyddydau Lloegr (ACE), Historic England ac eraill i ddatblygu'r cynigion gan y Papur Gwyn Diwylliant, a gyhoeddwyd gan y DCMS ar 25 Mawrth 2016. Roedd y rhain yn cynnwys y Cynllun Lle Gwych, sef menter ar y cyd i'w chyflwyno gan ACE a CDL yn 2016–2017, sy'n adeiladu'n uniongyrchol ar ein gwaith gyda'r RSA i ymsefydlu rôl ddylanwadol ar gyfer treftadaeth wrth wraidd strategaethau mannau lleol. Yn ogystal, cyhoeddodd y Papur Gwyn raglen beilot ar gyfer ariannu torfol cyfatebol, a ddatblygir ar y cyd gan NESTA, ACE, Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) a'r DCMS yn 2016–2017, i archwilio posibiliadau'r ymagwedd hon ar gyfer amrywiaethu cyllid yn y sector diwylliannol.

Trwy Fforwm y Loteri ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda dosbarthwyr eraill arian y Loteri er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cydlynu'n agos. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Gronfa Loteri Fawr i ddarparu ein rhaglen Parciau i Bobl yn Lloegr, ac yn gweithio ar y cyd â Historic England, Cadw a Historic Scotland ar ein rhaglen Grantiau ar gyfer Mannau Addoli.

### l) Cydnabyddiaeth

> "Yr angen i gynnwys amod ym mhob grant i gydnabod cyllid y Loteri, gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri."

Nid yw ein hymagwedd at hyn wedi newid eleni. Credwn ei bod yn bwysig cynyddu ymwybyddiaeth o fuddion cyllid y Loteri ac rydym yn pennu gofyniad bod pob ymgeisydd yn cydnabod ein grantiau'n briodol yn ystod cyfnod cyflwyno'r prosiect, ac ar ôl cwblhau'r prosiect. Mae ein harweiniad *Sut i gydnabod eich* grant yn rhan o'n telerau grant safonol.

### ll) Cyllid partneriaeth

> "Yr angen i brosiectau gael elfen o gyllid partneriaeth, neu gyfraniad o fath arall o ffynonellau eraill, i'r graddau bod hyn yn rhesymol i'w gyflawni ar gyfer mathau gwahanol o ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol."

Nid ydym wedi newid ein hymagwedd at hyn ar gyfer ein Fframwaith Strategol presennol. Tynnodd ymatebwyr i'n hymgynghoriad yn 2011 sylw at anawsterau yr oeddent yn eu rhagweld o ran cynyddu cyllid partneriaeth mewn cyfnod o her economaidd, felly rydym wedi cynnal y gofyniad lleiaf yn ein prif raglen agored, sef Grantiau Treftadaeth, ar 5% mewn arian parod neu gyfraniad o fath arall ar gyfer grantiau hyd at £1filiwn, a lleiafswm o 10% ar grantiau dros £1filiwn. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol.

### m) Penderfyniadau

> "Yr angen (a) i arian a ddosberthir gael ei gymhwyso i brosiectau at ddiben cyfyngedig i amser penodol yn unig; (b) i sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol a chyngor arbenigol ganddynt i wneud penderfyniadau am bob cais; ac (c) i ymgeiswyr ddangos hyfywedd ariannol prosiectau."

Nid ydym wedi newid ein hymagwedd at hyn ar gyfer ein Fframwaith Strategol presennol.

a) Mae'r prosiectau yr ydym yn eu cefnogi yn rhai penodol ac yn gyfyngedig i amser. Cyfyngwn ein cymorth i uchafswm o bum mlynedd ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gweithgareddau.

b) Ceisiwn wybodaeth gan ymgeiswyr am y graddau y mae eu prosiectau'n cyflwyno achos cadarn dros fuddsoddi, y graddau y byddant yn cyflawni deilliannau i dreftadaeth, pobl a chymunedau, y graddau y maent yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn ariannol, a'r graddau y byddant yn darparu

gwerth da am arian. Gall ein hasesiad gynnwys cyngor arbenigol ar agweddau allweddol ar y cais os bydd angen.

c) Gofynnwn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i ni i ddangos hyfywedd ariannol eu prosiect, wedi'i dadansoddi yn ôl costau cyfalaf, gweithgarwch a chostau eraill, ac sy'n dangos pa gyfraniad y maent yn cynnig ei wneud o'u hadnoddau eu hunain neu o grantiau neu roddion o ffynonellau eraill. Gofynnwn am ragolwg llif arian, ac, ar gyfer prosiectau mwy, rhagolygon incwm a gwariant am 10 mlynedd, sy'n dangos sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal y prosiect yn y tymor hir.

## n) Cynllunio a rheoli prosiectau

"Lle ceisir cyllid cyfalaf, yr angen (a) am gynllun busnes clir sy'n dangos sut bydd unrhyw gostau rhedeg a chostau cynnal a chadw'n cael eu talu dros gyfnod rhesymol, a (b) i sicrhau bod yr arfarnu a'r rheoli ar gyfer prif brosiectau yn adlewyrchu Safonau Adolygiad Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth."

a) Ar gyfer y Fframwaith Strategol presennol, mae'r ffurflen gais ar gyfer ein rhaglen Grantiau Treftadaeth yn parhau i ofyn i ymgeiswyr osod eu ceisiadau ail rownd mewn fformat cynllun busnes, gyda gwybodaeth ategol yn cael ei chynnwys mewn cynllun gweithgarwch, rhagolygon llif arian a thabl incwm a gwariant. Ar gyfer grantiau dros £2filiwn, gofynnwn am Gynllun Busnes Prosiect. Gofynnwn i brosiectau cadwraeth gynnwys cynlluniau cadarn ar gyfer cynnal treftadaeth yn y tymor hir er mwyn sicrhau bod ganddi ddyfodol hyfyw, ac i ddiogelu ein buddsoddiad trwy reolaeth hirdymor well. Ar gyfer prosiectau sy'n golygu gwerth dros £200,000 o waith cyfalaf, gofynnwn am Gynllun Rheoli a Chynnal a Chadw sy'n nodi manylion sut bydd yr ymgeisydd yn talu costau ychwanegol hyn ar ôl cwblhau ei brosiect, a chyhoeddwn arweiniad ar sut i gynhyrchu hyn.

b) Gofynnwn i bob ymgeisydd ddangos y bydd eu prosiectau'n cael eu rheoli'n dda, ac y byddant yn bodloni safonau perthnasol yr ystyrir eu bod yn arfer da ar gyfer y maes y rhoddwyd y grant ar ei gyfer. Ar gyfer prosiectau cyfalaf, cynhwyswn bwyntiau adolygu ffurfiol yn ein prosesau asesu a monitro (sy'n cyfateb i gyfnodau RIBA) ac mae'r holl brosiectau cenedlaethol yn mabwysiadu Safonau Adolygu Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Defnyddiwn fonitoriaid allanol ar bob prif brosiect er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cyflawni'r dibenion cymeradwy yn unol â'r contract, bod y risgiau i CDL yn ddealladwy ac yn cael eu rheoli, bod arfer gorau'n cael ei gyflawni yn yr holl feysydd critigol, a bod adrodd a rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn dryloyw.

## Cyfarwyddiadau polisi yng Nghymru

Mae cyfarwyddyd polisi (b) yn pennu gofyniad bod CDL yn ystyried "yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgareddau'r Gronfa yng Nghymru, yn unol â'r arweiniad a nodir yng nghyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, ac a gaiff ei fonitro'n unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt."

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi ymrwymiad CDL i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflwyno gwasanaethau, ac i sicrhau bod polisïau a mentrau'n bodloni'r safonau a nodir yn y cynllun. Mae hyn yn cwmpasu gweithredoedd gweinyddol ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus dwyieithog yng Nghymru, wyneb cyhoeddus y sefydliad, gan gynnwys hunaniaeth gorfforaethol, ffurflenni cais, nodiadau arweiniad a'r wefan, y wasg a gweithgarwch marchnata, asesu a monitro ceisiadau, staffio a recriwtio, ac ymarferion ymgynghori ac ymchwil. Rydym yn monitro ein perfformiad yn flynyddol drwy ein hymrwymiad i Gynllun Cydraddoldeb, ac rydym wedi cynhyrchu arweiniad i gynorthwyo ymgeiswyr yng Nghymru i ddatblygu ymagweddau dwyieithog, sef *Ymgorffori'r Gymraeg yn eich prosiect*.

### Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i Ymddiriedolwyr CGDG o dan Adran 26(1) a (2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Trwy hyn, mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau o dan adran 26(2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, fel y'u trosglwyddwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr CGDG ('y Gronfa') yn unol ag adran 26(5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran benodol yn Neddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, fel y'i diwygiwyd.

### Cyfarwyddiadau mewn perthynas â Chymru

2. Wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, bydd y Gronfa yn ystyried y materion canlynol wrth bennu'r unigolion y gallant ddyrannu grantiau neu fenthyciadau iddynt, at ba ddibenion y gallant ddyrannu grantiau neu fenthyciadau ar eu cyfer, a'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r grantiau neu'r benthyciadau a ddyrennir, yn ogystal â'r broses a ddefnyddir i bennu pa daliadau i'w gwneud wrth ddosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

a) Yr angen i ystyried buddiannau Cymru gyfan, a buddiannau gwahanol rannau o Gymru, gan gymryd i ystyriaeth amrywiol batrymau demograffig ac amddifadedd rhannau gwahanol o Gymru, a dymunoldeb annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus i gydweithio lle bynnag y bydd yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl a threftadaeth.

b) Yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgareddau'r Gronfa yng Nghymru, yn unol â'r arweiniad a nodir yng nghyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, ac a gaiff ei fonitro yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

c) Yr angen i sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a chydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a threftadaeth ledled Cymru, lle bo hwn yn ddull effeithiol o gyflawni strategaeth y Gronfa.

ch) Yr angen i annog pobl i gadw, gwarchod, cyflwyno, hyrwyddo a dehongli pob agwedd ar dreftadaeth Cymru.

d) Yr angen i annog pobl i gadw, gwarchod, cyflwyno, hyrwyddo a dehongli pob agwedd ar dreftadaeth Cymru.

dd) Yr angen i roi cyfleoedd i bobl, yn arbennig pobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i ennill y sgiliau sy'n ofynnol i gadw a gwarchod treftadaeth Cymru.

e) Yr angen i annog defnyddio safonau proffesiynol priodol ym mhob prosiect.

f) Yr angen i roi cyfle i bobl o bob oedran a chefndir, yn arbennig plant a phobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i gael mynediad at dreftadaeth amrywiol Cymru, i ddysgu amdani, ei mwynhau, a'i hyrwyddo drwy hynny.

* Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion yn ymwneud â'r Gymraeg, Mawrth 2007.

## Cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â'r Alban

### Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o dan adran 26(2) fel y'u darllenwyd gydag adran 26A(2)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, mae Gweinidogion yr Alban, wrth arfer y pwerau o dan adran 26(2) fel y'u darllenwyd gydag adran 26A(2)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993**, ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (yr 'Ymddiriedolwyr'), yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol:

1. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i'r Alban yn unig ac yn ymwneud ag unrhyw ddosbarthiad a wnaed gan yr Ymddiriedolwyr at ddiben nad yw'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl.

2. Wrth bennu'r unigolion y maent yn rhoi unrhyw arian iddynt, at ba ddibenion y maent yn rhoi unrhyw arian ar eu cyfer, a'r amodau ar gyfer rhoi unrhyw arian iddynt o dan adran 25(4) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 yn yr Alban, rhaid i'r Ymddiriedolwyr ystyried y blaenoriaethau canlynol a materion eraill:

   a) Yr angen i ystyried buddiannau'r Alban gyfan, a buddiannau gwahanol rannau o'r Alban, gan gymryd i ystyriaeth amrywiol batrymau demograffig ac amddifadedd rhannau gwahanol o'r Alban, a dymunoldeb annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus i gydweithio lle bynnag y bydd yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl a threftadaeth.

   b) Yr angen i sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a chydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a

threftadaeth ledled yr Alban, gan ddefnyddio'r egwyddorion canlynol:

Ymgysylltu

Dylai rhaglenni gael eu datblygu yn seiliedig ar ymgysylltiad gweithredol partneriaid priodol.

Gwyrddach

Darparu gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl.

Iachach

Mae pobl a chymunedau yn iachach.

Cryfach a mwy diogel

Mae cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Craffach

Mae pobl yn cael gwell cyfleoedd mewn bywyd.

Cydgefnogaeth a chydlyniant

Sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled yr Alban yn cael y cyfle i gyfranogi a chyfrannu ac elwa er mwyn sicrhau Alban fwy llwyddiannus.

Cynaliadwyedd

Gwella amgylchedd yr Alban heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ar yr un pryd â lleihau effaith yr Alban ar yr amgylchedd byd-eang.

Tecach a mwy cyfoethog

Economi ffyniannus a chynaliadwy.

c) Yr angen i annog pobl i gadw, gwarchod, cyflwyno, hyrwyddo a dehongli pob agwedd ar dreftadaeth yr Alban, a mynediad iddi.

ch) Yr angen i hyrwyddo a chefnogi arwyddocâd diwylliannol yr ieithoedd Gaeleg a Sgoteg ar draws yr Alban gyfan.

d) Yr angen i annog cynaliadwyedd ariannol asedau treftadaeth yr Alban, gan gynnwys y rhai sydd o bwysigrwydd cenedlaethol i bobl yr Alban.

dd) Yr angen i roi cyfleoedd i bobl, yn arbennig pobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i ennill y sgiliau sy'n ofynnol i gadw a gwarchod treftadaeth yr Alban.

e) Yr angen i annog defnyddio safonau proffesiynol priodol mewn prosiectau

f) Yr angen i roi cyfle i bobl o bob oedran a chefndir, yn arbennig plant a phobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i gael mynediad at dreftadaeth amrywiol yr Alban, i ddysgu amdani, ei mwynhau, a'i hyrwyddo drwy hynny.

ff) Yr angen i annog prosiectau treftadaeth sy'n cynnal etifeddiaeth ddiwylliannol sy'n deillio o ddigwyddiadau rhyngwladol yn yr Alban.

g) Yr angen i roi gwybodaeth gyson i Weinidogion yr Alban am ddatblygiad polisïau, pennu blaenoriaethau a rhoi grantiau yn yr Alban.

** Trosglwyddwyd y swyddogaeth a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion yr Alban drwy Atodlen 1 i Orchymyn Deddf Yr Alban 1998 (Trosglwyddo Swyddogaethau i Weinidogion yr Alban ac ati) 1999 (O.S. 1999/1750).

# Cynnydd ar Brosiectau Dros £5miliwn

Mae'r tabl canlynol yn dangos y cynnydd ar brosiectau sy'n cynnwys £5miliwn neu fwy o arian Loteri.

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ *dyddiad dyfarnu* |
|---|---|---|---|---|
| Amgueddfa newydd i Blackpool | Y Gogledd-orllewin | Gwasanaeth Treftadaeth Cyngor Blackpool | 21,030,800 | 13,676,800 *Ebrill 2014* |
| Aberdeen Art Gallery: Inspiring Art and Music | Yr Alban | Cyngor Dinas Aberdeen – Oriel Gelf ac Amgueddfeydd Aberdeen | 25,236,063 | 9,997,500 *Medi 2014* |
| Alexandra Palace: Reclaiming the People's Palace | Llundain | Ymddiriedolaeth Elusennol Parc a Phalas Alexandra | 26,737,903 | 18,850,000 *Mawrth 2015* |
| Aspire (Constable 'Salisbury Cathedral from the Meadows') | Llundain | Tate Prydain | 24,723,455 | 15,800,00 *Ebrill 2013* |
| Ymddiriedolaeth Castell Auckland | Y Gogledd-ddwyrain | Ymddiriedolaeth Castell Auckland | 16,793,200 | 9,000,000 *Ebrill 2013* |
| Bath Abbey Footprint | Y De-orllewin | Cyngor Eglwys Blwyfol Abaty Caerfaddon | 19,295,270 | 10,429,500 *Ebrill 2014* |
| Buxton Crescent & Spa | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Sir Swydd Derby a Chyngor Dosbarth High Peak | 46,709,827 | 23,853,000 *Gorffennaf 2002* |
| Castell Aberteifi – Datgloi Potensial | Cymru | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan | 11,583,420 | 6,258,300 *Mawrth 2011* |
| Chiswick House and Gardens Regeneration Project: Phase 1 | Llundain | English Heritage | 11,887,500 | 8,100,000 *Mehefin 2006* |
| Creu Hanes – yn Sain Ffagan | Cymru | Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru | 24,477,415 | 11,550,000 *Gorffennaf 2012* |
| Derby Silk Mill – Museum of Making | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Derby | 16,999,900 | 9,387,700 *Ebrill 2015* |
| Ditherington Flax Mill Maltings, International Heritage site at the heart of the community | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Cyngor Swydd Amwythig | 25,679,400 | 12,823,300 *Gorffennaf 2013* |
| Cynllun Datblygu'r Ddinas Cyngor Dinas Dundee | Yr Alban | V&A Dundee | 84,358,156 | 13,900,000 *Ionawr 2014* |
| Edouard Manet's Portrait of Mademoiselle Claus | Y De-ddwyrain | Amgueddfa Celf ac Archaeoleg Ashmolean | 7,929,300 | 5,999,300 *Ebrill 2012* |

| Statws y prosiect a % y grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2016 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Datblygu<br>63 | Dyfarniad Rownd 1 ym mis Ebrill 2014 yn cynnwys grant datblygu o £1,240,200 tuag at greu amgueddfa newydd yn y Pavilion Theatre, Blackpool. Bydd angen ymestyn y cam datblygu i ganiatáu gwaith pellach. |
| Darparu<br>9 | Dyfarnwyd y grant ym mis Medi 2014. Ymrwymiad o £10,123,700 gan CDL, gan gynnwys grant datblygu. Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ac mae arddangosfa wrthi'n cael ei chaffael. |
| Darparu<br>5 | Dyfarnwyd grant Ail Rownd o £18,850,000 ym mis Mawrth 2015. Mae Cyngor Haringey wedi gwarantu'r holl gyllid partneriaeth i alluogi'r prosiect i fynd yn ei flaen. Mae'r tendrau ar gyfer y contract Gwaith Galluogi o fewn y gyllideb ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Mae'r gwaith dylunio manwl yn parhau. |
| Darparu<br>98 | Dyfarnwyd grant ym mis Ebrill 2013. Mae'r paentiad wedi bod ar daith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae yn Oriel y Parc yn Sir Benfro ar hyn o bryd. Mae ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau a ariennir yn cyd-fynd â'r arddangosfa. |
| Darparu<br>0 | Dyfarnwyd grant Ail Rownd ym mis Mai 2015. Rhoddwyd caniatâd i ddechrau ym mis Gorffennaf 2015. Mae tîm prosiect wedi'i recriwtio. Disgwylir i waith cyfalaf ddechrau tua diwedd 2016. |
| Darparu<br>0 | Rhoddwyd grant Ail Rownd o £10,725,300 ym mis Mawrth 2016. Disgwylir y bydd caniatâd graddol i ddechrau yn cael ei roi i alluogi gwaith dylunio manwl pellach ac ymgynghori â Historic England a chymdeithasau amwynderau. |
| Darparu<br>17 | Dyfarnwyd cynnydd grant £11,320,000 ym mis Tachwedd 2014 i adlewyrchu cynnydd yn y diffyg cadwraeth o ganlyniad i chwyddiant diwydiant bywiog. Mae'r prosiect wedi'i ariannu'n llwyr bellach, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr Ystafell Bwmpio a gweithgareddau'r prosiect. Disgwylir i'r prif gontract ddechrau ym mis Ebrill 2016. |
| Darparu<br>78 | Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Agorodd y castell i'r cyhoedd yng ngwanwyn 2015. Mae swyddogion a'r tîm monitro yn parhau i weithio gyda'r grantî i ddatblygu'r hyn a gynigir i ymwelwyr a sicrhau prosiect cynaliadwy. Bydd y grant yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2016. |
| Wedi'i gwblhau<br>99 | Ymestynnwyd dyddiad dod i ben y grant i 30 Medi 2016 i ganiatáu ar gyfer tynnu grant i lawr ar gyfer blwyddyn olaf Garddwr a Garddwr Prentis oherwydd gohiriwyd penodi yn dilyn ymddiswyddo. |
| Darparu<br>29 | Mae llawer o waith adeiladu wedi cael ei wneud ar draws y safle. Mae pentref yr Oes Haearn wedi'i gwblhau a disgwylir i'r prif adeilad gael ei gwblhau erbyn diwedd haf 2017. Mae cyd-guradu cymunedol a gweithgareddau eraill yn llwyddiannus hyd yma. |
| Datblygu<br>6 | Dyfarnwyd pas rownd gyntaf ym mis Ebrill 2015. Mae tîm prosiect da wedi'i recriwtio ac mae'r gwaith datblygu'n mynd rhagddo'n dda. Bwriedir cyflwyno cais ail rownd ym mis Ebrill 2017. |
| Darparu<br>0 | Dyfarnwyd grant o £12,823,300 ym mis Gorffennaf 2013. Yn dilyn prisiau tendr sylweddol uwch na'r disgwyl, mae Historic England wedi ymgymryd ag arweinyddiaeth y prosiect. Mae gwaith wedi symud ymlaen ar adeiladau y tu allan i brosiect CDL er mwyn cael arian o'r Undeb Ewropeaidd a darparu canolfan ar gyfer Ffrindiau Flax Mill Maltings a'r rhaglen weithgareddau. Mae gwaith manwl ar gynnig ac achos busnes diwygiedig yn mynd rhagddo. |
| Darparu<br>21 | Ym mis Ionawr 2015, cytunwyd ar gynnydd grant £4.5miliwn o ganlyniad i ddychweliadau tendr uchel. Sicrhawyd cyllid ychwanegol hefyd gan Lywodraeth yr Alban a Chyngor Dinas Dundee. Mae contract pris sefydlog wedi'i lofnodi erbyn hyn a dechreuodd waith ar safle'r prosiect ar 23 Mawrth 2015. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynnwys ar gyfer yr amgueddfa a darparu rhaglen allgymorth. Adeiladwyd argae coffr yn llwyddiannus. Cyfraniad £5miliwn o'r gronfa Libor gan Lywodraeth y DU. |
| Darparu<br>99 | Cwblhawyd y prosiect celf gymunedol cyntaf, yn gweithio gyda phobl ifanc, y llynedd. Dangosodd adroddiad gwerthuso fod y prosiect yn llwyddiannus ar y cyfan. Mae prosiect cymunedol arall yn mynd rhagddo bellach, yn gweithio gyda grwpiau anodd eu cyrraedd gyda phwyslais ar gynnwys digidol. Mae'r prosiect ar y trywydd iawn i orffen erbyn diwedd 2016. |

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ *dyddiad dyfarnu* |
|---|---|---|---|---|
| First Light at Jodrell Bank | Y Gogledd-orllewin | Prifysgol Manceinion | 19,733,200 | 784,800 (datblygu) *Ebrill 2015* 11,362,400 (darparu) |
| Rhaglen Ddiwylliannol Canmlwyddiant y Rhyfel Cyntaf (14–18 NOW) | Traws-diriogaeth | Yr Amgueddfa Ryfel Imperialaidd | 37,420,500 | 10,000,000 *Tachwedd 2013* |
| Castell Hartlebury | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Ymddiriedolaeth Gadwraeth Castell Hartlebury | 7,239,665 | 4,975,100 *Medi 2014* |
| Hastings Pier | Y De-ddwyrain | Hastings Pier Charity Ltd | 14,248,352 | 11,550,000 *Tachwedd 2012* |
| HMS Caroline, Belfast | Gogledd Iwerddon | Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol | 12,558,284 | 11,540,300 *Medi 2014* |
| Inspired by Knole | Y De-ddwyrain | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 24,181,947 | 7,750,000 *Gorffennaf 2013* |
| Kings and Scribes – The Birth of a Nation | Y De-ddwyrain | Eglwys Gadeiriol Caer-wynt | 14,693,759 | 11,017,400 *Tachwedd 2015* |
| Kresen Kernow: A new home for the stories of Cornwall | Y De-orllewin | Cyngor Cernyw | 18,506,591 | 11,786,500 *Gorffennaf 2015* |
| Lincoln Castle Revealed | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Sir Swydd Lincoln | 19,982,405 | 12,227,640 *Mawrth 2012* |
| Lincoln Cathedral Connected | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Eglwys Gadeiriol Lincoln | 16,111,266 | 12,365,800 *Ebrill 2015* |
| Lion Salt Works | Y Gogledd-orllewin | Awdurdod Lleol Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaerllion | 6,962,250 | 5,290,000 *Mawrth 2008* |
| Main Line – Bridging the Nation, Caerlŷr | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Great Central Railway plc | 17,778,197 | 9,999,400 *Ebrill 2015* |
| Making Modern Communications | Llundain | Yr Amgueddfa Wyddoniaeth, Llundain | 14,300,000 | 6,000,000 *Mawrth 2012* |
| Mary Rose Museum Project | Y De-ddwyrain | Ymddiriedolaeth Mary Rose | 36,172,338 | 26,298,000 *Mehefin 2009* |

| Statws y prosiect a % y grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2016 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Datblygu<br>0 | Dyfarnwyd grant ym mis Ebrill 2015 a rhoddwyd caniatâd i ddechrau ym mis Hydref. Mae tîm prosiect da wedi'i sefydlu erbyn hyn a deellir y gofynion gweithgarwch a'r archif yn dda. Disgwylir cais ail rownd ym mis Mai 2017. |
| Darparu<br>36 | Cynnydd grant £5miliwn i ymestyn y rhaglen comisiynu artistig a chynyddu cwmpas y rhaglen. Cynhaliwyd gweithgarwch cyfyngedig yn 2015 a lansiwyd tymor Byd comisiynau 2016 ar 22 Mawrth. Mae 14–18 NOW wedi datblygu strategaeth Dysgu ac Ymgysylltu a strategaeth Etifeddiaeth, a byddant yn cynnwys Matricsau Ansawdd Treftadaeth yn eu Gwerthusiad. |
| Darparu<br>39 | Caffaelodd yr Ymddiriedolaeth hen Balas Esgobion Caerwrangon ar 27 Mawrth 2015. Mae swyddogion yn aros am Gynllun Busnes, rhaglen a chostau diwygiedig. |
| Darparu<br>51 | Dyfarnwyd grant mawr o £11,410,000 (80%) ym mis Tachwedd 2012, a dyfarnwyd cynnydd grant £634,000 ym mis Medi 2015, gan wneud dyfarniad cyfan o £12,044,000 (81%). Mae'r gwaith adfer, y gwaith adeiladu cyfalaf newydd a'r dehongli bron â'u cwblhau, a bydd yn agor i'r cyhoedd ym mis Mai 2016. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau ym mis Medi 2018. |
| Darparu<br>25 | Dyfarnwyd grant o £11,540,300 ym mis Medi 2014. Disgwylir i'r llong agor mewn pryd ar gyfer digwyddiadau coffáu Brwydr Jutland y Rhyfel Byd Cyntaf ar 31 Mai 2016. |
| Darparu<br>25 | Aeth y prif gontractwr ar gyfer trawsnewid yr ysgubor a'r ystafell wair i law'r derbynnydd, a thalwyd am gostau ychwanegol trwy godi mwy o arian. Mae'r cynnydd cyffredinol yn parhau i fod yn dda. Bydd Stiwdio Gadwraeth, man dysgu, a chaffi newydd yn cael eu lansio ym mis Awst 2016, a bydd lle arddangos yn cael ei lansio ym mis Mehefin 2016. Mae'r Ganolfan Ymwelwyr newydd ac aildrefnu mannau'r wyneb dwyreiniol wedi'u cwblhau. |
| Darparu<br>46 | Cynnydd grant £540,100 ym mis Tachwedd 2015 tuag at y lifft manyleb uwch sydd ei angen yn dilyn amodau archaeolegol annisgwyl. Ailagorodd y Ganolfan Addysg ym mis Medi 2014 ac agorodd y Ganolfan Ddysgu newydd ym mis Ebrill 2016. Mae gwaith ar Seintwar yr Eglwys Gadeiriol bron â'i gwblhau ac mae gwaith ar y Transept Deheuol yn mynd rhagddo bellach. Mae dau brentis a dau swyddog yn eu swyddi. |
| Darparu<br>1 | Dyfarnwyd grant ym mis Gorffennaf 2015, rhoddwyd caniatâd i ddechrau ym mis Medi 2015, a chyflwynwyd y taliad cyntaf. Bu ychydig o oedi ar y prosiect o ganlyniad i gwblhau gwaith cyhoeddus, ond disgwylir i'r prif gontractwr gael ei benodi erbyn mis Medi 2016. Mae'r broses o gyflawni'r cynllun gweithgareddau yn mynd rhagddo'n dda iawn. |
| Darparu<br>42 | Ailagorodd y Castell ar 1 Ebrill 2015. Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau o fewn y gyllideb i raddau helaeth, er bod y broses gwirio am fân ddiffygion yn parhau. Bydd gweithgareddau'n parhau am flwyddyn arall. Mae'r prosiect wedi cyrraedd targedau ymwelwyr y flwyddyn gyntaf ac wedi ennill sawl gwobr. |
| Datblygu<br>34 | Dyfarnwyd pas rownd gyntaf ym mis Ebrill 2015. Mae tîm o ansawdd uchel wedi'i sefydlu a chymeradwywyd yr Adolygiad Datblygu ym mis Ionawr 2016. Disgwylir cais ail rownd ym mis Tachwedd 2016. |
| Darparu<br>53 | Agorodd Lion Salt Works i'r cyhoedd yn llwyddiannus ym mis Mehefin 2015 ac mae perfformiad gweithredol wedi bod yn dda gyda niferoedd ymwelwyr, sef dros 12,000, yn rhagori ar ddisgwyliadau. Bydd rhaglen weithgareddau yn parhau am y 18 mis nesaf. |
| Datblygu<br>0 | Dyfarnwyd pas rownd gyntaf ym mis Ebrill 2015 i sefydlu amgueddfa reilffordd o safon fyd-eang yng Nghanolbarth Lloegr. Ar ôl dechrau araf, mae'r gwaith datblygu'n mynd rhagddo a disgwylir caffael tîm prosiect a chyflwyno cais ail rownd ym mis Ebrill 2017. |
| Darparu<br>90 | Lansiodd ym mis Hydref 2014, a chyfanswm nifer yr ymwelwyr ar 31 Ionawr oedd 232,430. Disgwylir i ran olaf y grant gael ei thynnu i lawr. |
| Darparu<br>91 | Dyfarnwyd cynnydd grant £3miliwn ym mis Medi 2015 i dalu am gostau uwch tynnu'r blwch o amgylch y llong gan fod y gwaith sychu wedi gorffen bellach. Mae gwaith wedi dechrau ar y cam olaf a disgwylir agor yn swyddogol yn yr haf 2016. |

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ *dyddiad dyfarnu* |
|---|---|---|---|---|
| Medicine Galleries Project | Llundain | Yr Amgueddfa Wyddoniaeth, Llundain | 21,585,581 | 400,000 (datblygu) *Ebrill 2015* 7,600,000 (darparu) |
| Amgueddfa Lerpwl | Y Gogledd-orllewin | Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl | 19,373,633 | 11,400,000 *Gorffennaf 2008* |
| National Army Museum, Building for the Future | Llundain | Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin | 23,250,000 | 11,500,000 *Ebrill 2014* |
| Plymouth History Centre: Plymouth's role in History and History's role in Plymouth | Y De-orllewin | Cyngor Dinas Plymouth | 26,135,159 | 12,873,500 *Ebrill 2014* |
| Regeneration: First World War Centenary Programme | Llundain | Yr Amgueddfa Ryfel Imperialaidd | 25,200,000 | 6,500,000 *Tachwedd 2013* |
| Remaking Beamish | Y Gogledd-ddwyrain | Beamish | 16,699,062 | 603,800 (datblygu) *Ebrill 2014* |
| Renaissance of the Cotswold Canals | Y De-orllewin | Cyngor Dosbarth Stroud | 19,013,111 | 12,716,300 *Gorffennaf 2014* |
| Restoration of Dreamland Margate | Y De-ddwyrain | Cyngor Dosbarth Thanet, Ymddiriedolaeth Dreamland | 11,102,520 | 5,800,000 *Tachwedd 2011* |
| Restoring our Fenland Heritage – the purchase and restoration of the Holmewood Estate | Dwyrain Lloegr | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Bedford, Swydd Gaergrawnt a Swydd Northampton | 16,851,774 | 9,101,700 *Gorffennaf 2007* |
| Revealing, Celebrating and Exploring the Heritage of the Royal Academy of Arts | Llundain | Academi Frenhinol y Celfyddydau | 30,156,969 | 12,274,500 *Medi 2013* |
| Revisioning Nottingham Castle – 1,000 Years of History | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Dinas Nottingham | 24,750,158 | 12,988,500 *Ebrill 2014* |
| Silverstone Heritage Live | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Clwb Gyrwyr Rasio Ceir Prydain | 19,121,014 | 9,110,500 *Ebrill 2013* |
| Sir Anthony Van Dyck: Acquiring and Sharing His Last Self-Portrait | Llundain | Yr Oriel Bortreadau Genedlaethol | 10,343,536 | 6,343,500 *Ebrill 2014* |
| Stonehenge Environmental Improvements Project | Y De-orllewin | English Heritage | 21,619,387 | 10,000,000 *Tachwedd 2010* |

| Statws y prosiect a % y grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2016 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Datblygu<br>33 | Mae adolygiad datblygu wrthi'n cael ei ystyried, a disgwylir cais ail rownd ym mis Mehefin 2016. |
| Darparu<br>97 | Agorodd yr amgueddfa ym mis Gorffennaf 2011. Disgwylir i ran olaf y grant gael ei thynnu i lawr ar ôl derbyn adroddiad gwerthuso. |
| Darparu<br>49 | Dyfarniad rownd 2 ym mis Ebrill 2014. Dechreuodd y prosiect ar y safle ym mis Rhagfyr 2014. Gwnaed y taliad cyntaf ym mis Chwefror 2015 (£854,000). |
| Datblygu<br>26 | Mae cais rownd 2 yn barod i'w gyflwyno ym mis Ebrill 2016. Mae'r cam datblygu wedi mynd yn dda ond bu cynnydd mawr yng nghostau rownd 2. Ymrwymodd Cyngor Dinas Plymouth £2.5miliwn ychwanegol i'r prosiect a disgwylir swm tebyg gan CDL yn yr ail rownd. Gwnaed achos cryf dros y cynnydd hwn o ganlyniad i bwysau chwyddiant. |
| Wedi'i gwblhau<br>100 | Mae'r prosiect wedi'i gwblhau. |
| Datblygu<br>77 | Pas rownd gyntaf o £10,750,000 ym mis Ebrill 2014. Disgwylir cais ail rownd ym mis Ebrill 2016 ar gyfer penderfyniad ym mis Gorffennaf 2016. Mae'r cam datblygu'n mynd rhagddo yn unol â'r disgwyl. Mae posibilrwydd o rywfaint o gynnydd yn dilyn costiad manwl a chynnydd mewn chwyddiant, cynlluniau wrth gefn ac ati. |
| Darparu<br>92 | Mae'r rhan fwyaf o'r contractau cyfalaf wedi'u cwblhau erbyn hyn. Mae gweddill y gwaith gwirfoddol yn mynd rhagddo. Mae'r trefniadau monitro'n parhau i weithio'n dda, ond mae rhywfaint o oedi o ran cynnydd yn golygu na ddisgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau tan fis Rhagfyr 2016 erbyn hyn. |
| Darparu<br>93 | Ailagorodd y Parc Difyrrwch ar gyfer tymor 2016 yn ystod y Pasg. Disgwylir i waith ar y cewyll anifeiliaid hanesyddol gael ei wneud yn ystod yr haf, a dylai gwaith arall gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth. Mae dwy reid ffair hanesyddol arall yn cael eu prynu ac mae un reid yn cael ei hadfer – disgwylir iddynt gael eu gosod yn ystod tymor 2016. Arafodd weithgareddau y llynedd, ond mae'r grantî yn gweithio ar gynllun diwygiedig ar gyfer cwblhau. |
| Darparu<br>96 | Dyfarnwyd cynnydd grant £1,897,700 ym mis Mawrth 2013. Mae'r prosiect yn mynd. rhagddo'n dda. Mae buddiannau cadwraeth tymor hir i'w gweld yn awr. Mae'r grant sy'n weddill yn ymwneud ag elfennau gweithgareddau ac adfer. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2016. |
| Darparu<br>4 | Dyfarnwyd grant ym mis Medi 2013. Mae CDL wedi ymrwymo £12,734,200 hyd yma, gan gynnwys grant datblygu. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda o dan drefniadau rheoli newydd. Mae'r cam datblygu dylunio terfynol wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r prosiect wedi symud trwy'r cyntaf o ddau gam tendr ar gyfer prif waith y contract, gan gadarnhau bellach bod SISK wedi'i benodi. Penodwyd i'r holl swyddi gweithgareddau ac mae'r gweithgareddau cysylltiedig yn mynd rhagddynt yn dda. |
| Datblygu<br>47 | Dyfarnwyd pas rownd gyntaf gyda grant datblygu o £599,500 yn 2016. Cymeradwywyd adolygiad datblygu ym mis Mawrth 2016. Mae cais ail rownd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Awst 2016. |
| Datblygu<br>71 | Dyfarniad rownd 1 ym mis Ebrill 2013 gan gynnwys grant datblygu o £446,000. Mae dyluniadau a chynlluniau ar waith a chymeradwywyd yr adolygiad datblygu ym mis Hydref 2015. Gohiriwyd y gwaith datblygu i ganiatáu i Glwb Gyrwyr Rasio Ceir Prydain gwblhau ymarfer ailstrwythuro rheolaethol a sefydliadol helaeth a rheoli goblygiadau cynnig trydydd parti i brynu elfennau o'r safle. Disgwylir cais ail rownd ym mis Awst 2016. |
| Darparu<br>61 | Dyfarniad rownd 2 ym mis Ebrill 2014. Fe'i prynwyd ym mis Mehefin 2014. Mae rhaglen weithgareddau gysylltiedig yn parhau. Gwnaed y taliad cyntaf tuag at brynu'r paentiad ym mis Mehefin 2014 (£6,100,000). |
| Wedi'i gwblhau<br>100 | Mae'r prosiect wedi'i gwblhau. Cyflwynwyd y taliad olaf ac adroddiad cwblhau. ym mis Rhagfyr 2015. Bodlonwyd neu rhagorwyd ar yr holl dargedau ymgysylltu, ac mae'r prosiect wedi cael ei enwebu ar gyfer Gwobr yr Undeb Ewropeaidd am Dreftadaeth Ddiwylliannol yng Ngwobrau Europe Nostra 2015. |

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ *dyddiad dyfarnu* |
|---|---|---|---|---|
| The 21st Century Gallery in the Park: Extending Access to the Whitworth's Collections | Y Gogledd-orllewin | Oriel Gelf Whitworth, Prifysgol Manceinion | 12,545,059 | 8,500,000 *Chwefror 2011* |
| The BPMA New Centre Project at Mount Pleasant | Llundain | Yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Bost | 22,064,557 | 5,229,300 *Rhagfyr 2015* |
| The British Museum World Conservation and Exhibitions Centre | Llundain | Yr Amgueddfa Brydeinig | 37,784,645 | 10,000,000 *Ionawr 2012* |
| The Canterbury Journey | Y De-ddwyrain | Eglwys Gadeiriol Caergaint | 19,357,400 | 11,904,600 *Ebrill 2014* |
| The Collections Discovery Centre at Dorset Museum | Y De-orllewin | Cymdeithas Hanes Naturiol ac Archaeoleg Dorset | 14,173,837 | 483,900 (datblygu) 10,392,400 (rownd 1) *Ebrill 2015* |
| The Piece Hall – Halifax Heritage | Swydd Efrog a'r Humber | Cyngor Calderdale | 10,770,888 | 7,000,000 *Gorffennaf 2012* |
| The Sill: Unspoilt Landscapes, Inspiring People | Y Gogledd-ddwyrain | Awdurdod Parc Cenedlaethol Northumberland | 13,593,300 | 7,748,000 *Ionawr 2015* |
| The Temperate House Project | Llundain | Y Gerddi Botaneg Cenedlaethol, Kew | 32,330,148 | 14,690,600 *Mawrth 2013* |
| Unlocking the Geffrye | Llundain | Amgueddfa Geffrye | 15,017,141 | 425,300 (datblygu) *Ebrill 2015* |
| Windermere Steamboat Museum | Y Gogledd-orllewin | Ymddiriedolaeth Gelfyddydau Lakeland | 16,002,614 | 12,076,400 *Gorffennaf 2013* |
| York Minster Revealed | Swydd Efrog a'r Humber | Deon a Glwysgor Efrog | 18,295,155 | 9,797,000 *Medi 2010* |

| Statws y prosiect a % y grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2016 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Darparu<br>100<br>(er bod £25,000 wedi'i gadw hyd nes y derbynnir yr adroddiad gwerthuso terfynol) | Ailagorodd yr oriel ym mis Chwefror 2015. Daeth 18,000 o ymwelwyr ar y penwythnos agoriadol ac mae'n parhau i ddenu llawer o ymwelwyr. Mae'r gwobrau a enillwyd yn cynnwys Gwobr Amgueddfa'r Flwyddyn 2015. |
| Darparu<br>11 | Fe wnaeth cynnydd grant ym mis Rhagfyr 2015 fynd â'r prosiect hwn dros y trothwy £5miliwn. Mae'r cynnydd grant yn ymwneud â phwysau chwyddiant, newidiadau i ddiogelwch rhag tân y Rheilffordd Bost a datblygu gwaith dylunio o fewn Tŷ Calthorpe, yn gysylltiedig â datblygu Cynllun Busnes. |
| Darparu<br>94 | Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau erbyn hyn, ac agorodd y Ganolfan i glod mawr. Y prosiect sy'n weddill yw'r Cynllun Gweithgarwch ar gyfer Lloegr gyfan sy'n rhedeg hyd at 2018. |
| Datblygu<br>68 | Dyfarnwyd y grant rownd gyntaf ym mis Ebrill 2014 i wneud gwaith atgyweirio i'r Eglwys Gadeiriol a chreu Canolfan Groeso newydd. Cynlluniwyd gwaith a gweithgareddau'n fanwl ar y cam datblygu. Cyflwynir y cais ail rownd ym mis Mehefin 2016. |
| Datblygu<br>5 | Dyfarnwyd pas rownd 1 ym mis Ebrill 2015. Gwnaed cynnydd da hyd yma, ac mae tîm proffesiynol cryf wedi'i sefydlu. Cyfathrebu da â CDL. |
| Darparu<br>31 | Disgwylir i'r prif gontract gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2016. Disgwylir i Piece Hall gael ei hagor i'r cyhoedd yn llawn ym mis Awst 2016. |
| Darparu<br>0 | Gwnaed dyfarniad ail rownd ym mis Ionawr 2015. Rhoddwyd caniatâd i ddechrau ym mis Mehefin 2015. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda ar y safle. |
| Darparu<br>39 | Bydd y prosiect yn galluogi gwarchod yr adeilad treftadaeth rhestredig Gradd I, sef y tŷ gwydr Fictoraidd mwyaf yn y byd. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo. |
| Datblygu<br>73 | Mae'r prosiect ar y cam datblygu – mae'r gost wedi cynyddu rhywfaint ac mae'r grantî yn ystyried ei ddewisiadau. |
| Darparu<br>12 | Dyfarnwyd cynnydd grant £2.7miliwn ym mis Mai 2015 o ganlyniad i ddychweliadau tendr uwch. Dechreuodd gwaith ar y safle ym mis Tachwedd 2015. |
| Darparu<br>80 | Cwblhawyd y prosiect yn llwyddiannus a chynhaliwyd digwyddiad dathlu ar 31 Mawrth 2016. Disgwylir tynnu rhan olaf y grant i lawr. |

# Monitro Cyflogaeth

Staff parhaol mewn swydd ar 10 Ebrill 2016

| Tarddiad ethnig | Cyfanswm |
|---|---|
| Affricanaidd | 6 |
| Asiaidd Fangladeshaidd | 1 |
| Asiaidd Indiaidd | 5 |
| Asiaidd Bacistanaidd | 2 |
| Asiaidd a Gwyn | 1 |
| Du Affricanaidd a Gwyn | 1 |
| Caribïaidd | 5 |
| Tsieineaidd Ddwyreiniol | 2 |
| Arall | 2 |
| Gwyn | 279 |
| **Cyfanswm** | **304** |

Dynion a menywod mewn swydd ar 15 Ebrill 2016

| Rhyw | % |
|---|---|
| Menywod | 76% |
| Dynion | 24% |

## Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998

Gan fod cydraddoldeb yn rhan ganolog o'n holl waith, rydym yn parhau i gyflawni gofynion y dyletswyddau statudol o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Cyflwynwyd ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb i Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2015.

## Cynllun Iaith Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru trwy Gynllun Iaith Gymraeg y Gronfa, a gyhoeddwyd yn 2007. Mae'r broses o weithredu'r Cynllun yn cael ei monitro a'i thrafod mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddog Iaith Gymraeg Cronfa Dreftadaeth y Loteri a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Yn ystod 2014, gwnaethom ymgynghori â staff ar sut y bydd cydymffurfio â Safonau newydd y Gymraeg yn cael ei orfodi. Ym mis Chwefror 2015, rhoddwyd ymateb ffurfiol gennym i ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg. Edrychwn ymlaen at gael rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg a byddwn yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i sicrhau bod y broses trosglwyddo o'n Cynllun Iaith Gymraeg i Safonau'r Gymraeg mor ddidrafferth â phosibl.

Awarding funds from
**The National Lottery®**

Yn dyfarnu arian
**Y Loteri Genedlaethol**

ISBN 978-1-4741-2831-5

9 781474 128315

**CDL** Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015–2016